# Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Gwasanaeth
Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:
Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Materion o Bwys i'r Pedwerydd Cynulliad

**Golygydd**
Owain Roberts

**Gweithgor**
Jonathan Baxter, Siân Hughes, Gregg Jones, Robert Orr, Nia Seaton, Dr. Alys Thomas, Robin Wilkinson

**Cyfraniadau**
Jonathan Baxter, Stephen Boyce, Gareth England, Leon Gooberman, Sarah Hatherley, Siân Hughes, Rhys Iorwerth, Martin Jennings, Hannah Johnson, Gregg Jones, Andrew Minnis, Victoria Paris, Kathryn Potter, Owain Roberts, Dr. Eleanor Roy, Nia Seaton, Ben Stokes, Dr. Alys Thomas, Anne Thomas, Gareth Thomas, Robin Wilkinson, Graham Winter

Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Rhagair



**Croeso i'r Pedwerydd Cynulliad wrth gyflwyno'r cyhoeddiad hwn sydd wedi cael ei baratoi gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol.**

Rydym yn ymwybodol pa mor bwysig yw hi fod Aelodau'n gallu cael gafael ar wybodaeth yn gyflym, a honno'n wybodaeth gywir a diduedd ac yn dod o le da. Gan hynny, rydym wedi datblygu amryw o wasanaethau i ateb y galw hwn ar sail ein profiad o weithio gydag Aelodau dros y degawd diwethaf. Mae gennym dîm o ymchwilwyr profiadol o gefndiroedd proffesiynol a galwedigaethol amrywiol, ac rydym yn gweithio gyda chynifer o randdeiliaid a ffynonellau â phosibl y tu allan i'r Cynulliad, er mwyn gallu rhoi'r wybodaeth ddibynadwy ddiweddaraf i Aelodau.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn trafod rhai o'r pynciau hynny sy'n debygol o fod o bwys i Aelodau yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae'n dangos y math o waith y gallwn ei wneud ar eich rhan – sef rhoi dadansoddiadau arbenigol gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau, a hynny mewn arddull gryno a darllenadwy sy'n crynhoi'r prif bwyntiau heb i chi orfod palu'ch ffordd drwy friffiau dirifedi. Gobeithio y bydd hyn yn rhoi cipolwg i chi o'r hyn y gallwn ei wneud, ond nid dyna'n unig sydd gennym i'w gynnig. Y llynedd, ymatebwyd i dros 4,000 o ymholiadau unigol gan Aelodau, tra byddwn hefyd yn creu briffiau ac yn rhoi cyngor i gynorthwyo pwyllgorau'r Cynulliad wrth eu gwaith, yn rhoi cymorth ymchwil i Aelodau unigol sy'n datblygu deddfwriaeth, ynghyd â pharatoi amrywiaeth eang o bapurau ymchwil a hysbysiadau hwylus ar wahanol bynicau.

Gall Aelodau ein defnyddio mewn gwahanol ffyrdd yn ôl y galw – mae modd gofyn i un o'n harbenigwyr am friff cyfrinachol, diduedd ar bwnc polisi; trafod cymhlethdod gwaith craffu ariannol gydag un o'n harbenigwyr cyllid; defnyddio'r briffiau manwl yr ydym yn eu paratoi ar gyfer pwyllgorau; gofyn am friffiau neu eglurhad ar fater cymhleth sy'n ymwneud â'r etholaeth; trafod â'n harbenigwr Ewropeaidd sy'n gweithio ym Mrwsel; neu ddefnyddio'r Llyfrgell fel lle tawel i weithio, i ddarllen y papurau newydd neu i gael cyngor am y ffynonellau gwybodaeth gorau.

Rydym yn gweithio ar ran y Cynulliad Cenedlaethol i gynorthwyo'r Aelodau gyda'u gwaith craffu strategol a'u gwaith ar ddeddfwriaeth, ac i gynorthwyo gyda materion sy'n cael eu codi gan etholwyr. Gwnawn y cyfan ar sail yr egwyddor ein bod yn ddiduedd ac yn annibynnol, gan drin ceisiadau gan Aelodau o bob plaid yn yr un modd, yn wrthrychol, ac yn gyfrinachol.

**Edrychwn ymlaen at gael cydweithio â chi yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.**



Kathryn Potter
**Pennaeth y Gwasanaeth**

# Cynnwys


**Y Gwasanaeth Ymchwil: Darlun cyffredinol** 1

**Gwasanaethau'r Llyfrgell** 4

**Manylion yr arbenigwyr ymchwil a gwybodaeth** 6

Pennaeth y Gwasanaeth 6

Tîm y Cynulliad a'r Cyfansoddiad 6

Tîm yr Amgylchedd a'r Economi 6

Y Tîm Addysg, Diwylliant a Llywodraeth Leol 7

Swyddfa'r Undeb Ewropeaidd 7

Y Tîm Cyllid ac Ystadegau 8

Y Tîm Polisi Iechyd a Pholisi Cymdeithasol 8

Tîm y Llyfrgell 9

**Y Cynulliad newydd** 11

Etholiad 2011 12

Lliw a llun y Pedwerydd Cynulliad 14

**Datganoli a llywodraethu** 17

Datganoli: Ewyllys bendant pobl Cymru? 18

Diwygio Barnett: Beth yw dyfodol cyllido Cymru? 20

Cymru a San Steffan 22

Awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru? 24

**Datblygu economaidd a thrafnidiaeth** 27

Deall perfformiad economaidd 28

Dirwasgiad a diweithdra 30

Mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc 32

Cau'r gagendor digidol 34

Costau ynni a thlodi tanwydd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru 37

Sut y byddwn yn talu am ein seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol? 40

Llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin ynteu'r gogledd a'r de? Blaenoriaethau strategol ar gyfer seilwaith trafnidiaeth Cymru 42

**Diwygio gwasanaethau cyhoeddus** 47

A yw economi Cymru'n orddibynnol ar y sector cyhoeddus? 48

Llywodraeth leol yng Nghymru: Amser am newid? 50

Dyfodol y wladwriaeth les 53

**Addysg** .......... **57**
Talu am addysg uwch .......... 58
A yw datganoli wedi bod o fudd i ysgolion? .......... 60
Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Cydweithredu ynteu gystadlu? .......... 64
Y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru .......... 66

**Cymunedau, tai a pholisi cymdeithasol** .......... **71**
A yw Cymru'n wynebu argyfwng tai? .......... 72
Y Gymdeithas Fawr Gymreig? .......... 74
Dileu tlodi plant erbyn 2020: Dyhead yn unig? .......... 77
Gwariant cyhoeddus cynaliadwy: Y dewis rhwng cyffredinoliaeth a thargedu .......... 80

**Yr amgylchedd** .......... **83**
A fydd Cymru'n barod os bydd lefel y môr yn codi? .......... 84
Gwneud ein hôl troed yn gynaliadwy .......... 86
A ydym yn esgeuluso ein cyfalaf naturiol? .......... 88
Diogelu'r cyflenwad bwyd .......... 90

**Y Gymraeg, y cyfryngau a chwaraeon** .......... **93**
A fydd Cymru'n elwa mewn unrhyw ffordd o Gemau Olympaidd 2012? .......... 94
Dyfodol darlledu yng Nghymru .......... 96
Edrych tua'r dyfodol: Cynllunio strategol ar gyfer addysg Gymraeg .......... 98

**Cymru a'r byd** .......... **101**
Yr Undeb Ewropeaidd a Chymru: Beth sydd yn y fantol yn 2011 a 2012? .......... 102
Cymru a'r byd .......... 104

# Y Gwasanaeth Ymchwil: Darlun cyffredinol

Rydym yn dîm annibynnol o arbenigwyr polisi a gwybodaeth, sydd â phrofiad sylweddol yn y meysydd polisi dan sylw ynghyd â phrofiad eang o'r modd y mae'r Cynulliad yn gweithio. Rydym ar gael i roi gwybodaeth ac i wneud gwaith ymchwil diduedd, cywir, prydlon, cyfrinachol ac arbenigol er mwyn rhoi'r sylfaen sydd ei hangen ar Aelodau i gyflawni eu gwaith amrywiol fel gwleidyddion.

## Pa fath o gymorth y gallwn ei roi i Aelodau'r Cynulliad?

Diben ein gwasanaethau yw rhoi gwybodaeth i Aelodau pan fydd angen y wybodaeth honno arnynt, gan arbed amser drwy ddadansoddi, dethol a rhoi cyngor am wybodaeth er mwyn dod o hyd i'r hyn sy'n bwysig. Rydym yn ceisio gwneud hyn o fewn yr amser a nodwyd pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

Mae modd i ni sgwrsio'n uniongyrchol â'r Aelodau a gall eu staff neu'r Aelodau eu hunain anfon ceisiadau am wybodaeth atom drwy ein gwasanaeth ymholiadau, sy'n gwbl gyfrinachol:

- rydym yn paratoi briffiau ymchwil ac yn defnyddio'n harbenigedd i gynorthwyo Aelodau gyda'u gwaith craffu ar ddeddfwriaeth, polisïau a chyllid;
- rydym yn paratoi briffiau i gynorthwyo Aelodau mewn pwyllgorau;
- rydym yn ateb ymholiadau sy'n ymwneud â busnes y Cyfarfod Llawn neu fusnes pwyllgorau, ynghyd â gwaith etholaethol;
- rydym yn rhoi cymorth ymchwil i Aelodau ddatblygu a chyflwyno cynigion ar gyfer deddfwriaeth;
- rydym yn paratoi amrywiaeth eang o gyhoeddiadau ymchwil rhagweithiol er mwyn cynorthwyo Aelodau i gyfrannu at ddadleuon agored a safonol;
- rydym yn cyhoeddi gwybodaeth ar-lein benodol gan gynnwys canllawiau 'sut i' a phecynnau i helpu Aelodau a'u staff i ymateb yn gyflym i ymholiadau gan etholwyr.

## Pwy ydym ni?

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn cynnwys:

- tri thîm ymchwil sy'n rhoi cyngor arbenigol ar feysydd polisi penodol;
- tîm ymchwil sy'n rhoi gwybodaeth ariannol ac ystadegol arbenigol;
- tîm ymchwil sy'n rhoi cyngor am y Cynulliad, y cyfansoddiad, deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (ar y cyd â swyddfa'r Undeb Ewropeaidd), etholiadau a refferenda;
- llyfrgell sy'n darparu gwasanaeth cyfeirio a gwybodaeth llawn;
- swyddfa yn yr Undeb Ewropeaidd ym Mrwsel sy'n rhoi cyngor, gwybodaeth a chymorth gyda materion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys cymorth i drefnu ymweliadau.

## Am beth y gall Aelodau'r Cynulliad ofyn?

- Briff cyfrinachol, diduedd ar **bwnc penodol** neu **faes polisi penodol;**
- cyngor i ymdrin â chymhlethdod **gwaith craffu cyllidebol ac ariannol;**
- briff manwl ar gyfer **gwaith y Cyfarfod Llawn** neu **waith pwyllgor**;
- **ystadegau dibynadwy** i gryfhau pwynt y mae Aelod Cynulliad am ei wneud mewn dadl;
- briff neu eglurhad yn ymwneud â **mater etholaethol cymhleth;**
- gwybodaeth yn ymwneud â **phwerau gweithredol** Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y Deyrnas Unedig a **phwerau deddfu** Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- cyngor am **fusnes a thrafodion y Cynulliad**, datblygiadau polisi a deddfwriaeth yn **San Steffan** sy'n effeithio ar Gymru, datblygiadau mewn **deddfwrfeydd datganoledig** eraill neu wybodaeth gymharol **genedlaethol neu ryngwladol;**
- cymorth ymchwil i ddatblygu a chyflwyno **cynigion ar gyfer deddfwriaeth;**
- gwybodaeth am effaith deddfwriaeth neu bolisi ar **grwpiau gwahanol o bobl,** e.e. menywod, plant, pobl hŷn a gwrywod;
- cyfarwyddyd a chyngor am y ffynonellau gwybodaeth sydd ar gael;
- adolygiad o'r deunydd darllen sydd ar gael neu ddadansoddiad o waith ymchwil sydd wedi'i gyhoeddi;
- cymorth i ddrafftio **ceisiadau rhyddid gwybodaeth** a dadansoddiad o'r wybodaeth a ddarperir;
- adnoddau electronig a llyfrau, papurau newydd a chyfnodolion;
- **mapiau** o etholaethau, rhanbarthau etholaethol ac ardaloedd eraill, ar sawl graddfa;
- cymorth i **drefnu ymweliadau** â Brwsel;
- gwybodaeth ar gyfer areithiau, ymweliadau neu ymddanogsiad ar y cyfryngau.

## Sut i wneud cais

Rydym ar gael i sgwrsio'n uniongyrchol ag Aelodau'r Cynulliad a'u staff, ac mae modd cyflwyno ceisiadau unigol am wybodaeth mewn tair ffordd:

- **galw heibio i'r ddesg ymholiadau yn y Llyfrgell;**
- **ffonio estyniad 8097;**
- **anfon e-bost i Research.Enquiries@cymru.gov.uk**

Mae ffurflen i wneud **Cais am Waith Ymchwil** gan y Gwasanaeth Ymchwil ar gael **o'n tudalennau ar y fewnrwyd** ac yn y Llyfrgell.

Bydd yr ymchwilydd arbenigol sy'n gweithio ar eich ymholiad yn cysylltu â chi i drafod eich cais ac i gytuno ar ddyddiad ar gyfer dychwelyd y gwaith. Bydd eich ymholiad yn cael ei drin yn gwbl gyfrinachol.

Gellir trefnu gwaith ymchwil ar gyfer pwyllgorau drwy gadeirydd neu glerc y pwyllgor.
I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau, gweler ein datganiad ar **Safonau'r Gwasanaeth.**

## Beth sy'n cael ei gyhoeddi gennym?

Mae ein cyhoeddiadau yn cael eu paratoi'n bennaf ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, ond maent ar gael hefyd i'r cyhoedd eu gweld os yw hynny'n bosibl, drwy ein **tudalennau ar y rhyngrwyd**. Mae copïau wedi'u hargraffu o'n cyhoeddiadau ar gael o'r Llyfrgell.

Mae ein **Papurau Ymchwil** yn rhoi sylw i bynciau cyfredol sy'n cael eu trafod yn y Cynulliad, fel maes polisi sy'n debygol o fod yn destun dadl neu y bydd etholwyr â diddordeb ynddo. Maent hefyd yn rhoi gwybodaeth reolaidd am bynciau penodol, fel briff diweithdra misol a gwybodaeth am etholaethau. Rydym hefyd yn cyhoeddi gwybodaeth am Filiau'r Cynulliad a Biliau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n berthnasol i Gymru.

Mae ein **Hysbysiadau Hwylus** yn rhoi gwybodaeth gryno neu eglurhad ar amrywiaeth o bynciau cyfredol neu faterion mwy technegol. Er enghraifft, cyhoeddwyd Hysbysiadau Hwylus yn ddiweddar ar erydu arfordirol a newid yn lefel y môr, ar dlodi tanwydd ac ar y camau a arweiniodd at y refferendwm ar ragor o bwerau deddfu.

## Pa wasanaethau monitro sydd gennym?

Mae'r tudalennau ar **hynt Biliau'r Cynulliad** yn rhoi crynodeb sy'n cael ei ddiweddaru'n barhaus o hynt Biliau'r Cynulliad, gyda lincs i'r dogfennau perthnasol a rhagor o wybodaeth esboniadol.

Mae **Cynulliad Cenedlaethol Cymru a datganoli yng Nghymru: Llyfryddiaeth** yn dwyn ynghyd rai o'r gweithiau pwysicaf sy'n rhoi darlun cytbwys o esblygiad y Cynulliad a datganoli yng Nghymru hyd yma.

Mae'r tudalennau ar **ddigwyddiadau pwysig yn natblygiad y Cynulliad Cenedlaethol** yn rhoi amserlen o'r prif ddigwyddiadau yn ystod datblygiad y sefydliad.

# Gwasanaethau'r Llyfrgell

Mae gan y **Llyfrgell** ystafell ddarllen gyfforddus a modern, lle mae modd pori drwy gyhoeddiadau swyddogol, llyfrau cyfeirio, papurau newydd, cyfnodolion ac adnoddau ar-lein.

Mae cyfrifiaduron a desgiau ar gael ac mae'r staff wrth law i'ch helpu i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Os nad oes gennym gyhoeddiad penodol, gallwn fel arfer ei brynu neu ei fenthyg o lyfrgell arall. Rydym yn croesawu unrhyw awgrymiadau am adnoddau newydd.

I gael rhagor o wybodaeth am y Llyfrgell, gweler ein llyfryn: **Y Llyfrgell: Canllaw**

## Adnoddau ar-lein ar y fewnrwyd

Mae ffynonellau gwybodaeth sydd wedi'u dethol yn ofalus ar gael ar ein tudalennau ar y fewnrwyd. Mae'r tudalennau hyn yn cynnwys cyfres o ganllawiau 'sut i...' a phecyn electronig i helpu gyda gwaith etholaethol ac i roi atebion cyflym i gwestiynau ac ymholiadau gan etholwyr. Mae ein **tudalennau ar y fewnrwyd** yn cynnwys:

- lincs i amrywiaeth eang o **ffynonellau gwybodaeth allweddol** sy'n berthnasol i waith y Cynulliad;
- **pecyn** i helpu gyda gwaith etholaethol, gan gynnwys adnoddau i ddod o hyd yn gyflym i i ffynonellau arian a budd-daliadau lles;
- **papurau newydd** a **chyfnodolion** electronig;
- tanysgrifiadau i amrywiaeth o gronfeydd data electronig fel **GRANTfinder**, **LexisLibrary**, **Justis Parliament** a **Newsstand**;
- **catalog llyfrgell** – gan gynnwys lincs testun llawn i'r holl ddogfennau electronig sydd ar gael yng nghasgliad y llyfrgell;
- **diweddariad wythnosol o gyhoeddiadau newydd**.

## Hyfforddiant a chymorth

Rydym yn fwy na pharod i roi cyflwyniad i chi i'n gwasanaethau a'n cyfleusterau. Gallwn hefyd roi hyfforddiant a'ch rhoi ar ben ffordd i ddod o hyd i wybodaeth a defnyddio adnoddau penodol. Cysylltwch â'n desg ymholiadau i drefnu hyn.

## Oriau agor y Llyfrgell

Mae'r Llyfrgell ar y trydydd llawr yn Nhŷ Hywel ym Mae Caerdydd.

Ein horiau agor yw:

**Pan fydd y Cynulliad yn eistedd:**

| | |
|---|---|
| Llun - Iau | 08.30 - 18.00 |
| Gwener | 08.30 - 16.00 |

**Yn ystod y toriad:**

| | |
|---|---|
| Llun - Iau | 09.00 - 17.00 |
| Gwener | 09.00 - 16.00 |

## Rhoi sylwadau am ein gwasanaethau

Croeso i chi roi sylwadau am ein gwasanaethau. Cysylltwch â:

**Kathryn Potter,**
**Pennaeth y Gwasanaeth Ymchwil**
**Ffôn: estyniad 8038**
**E-bost**: Kathryn.potter@cymru.gov.uk



AGORWYD GAN EI MAWRHYD
ENHINES
OPENED BY HER MAJESTY TH
1-3-2006

# Manylion yr arbenigwyr ymchwil a gwybodaeth

| | | |
|---|---|---|
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | **Kathryn.Potter**@cymru.gov.uk | **8038** |
| **Tîm y Cynulliad a'r Cyfansoddiad**<br><br>Rhoi cyngor arbenigol ar y Cynulliad, deddfwriaeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd (mewn cydweithrediad â Gregg Jones o swyddfa'r Undeb Ewrppeaidd), etholiadau a refferenda. | **Alys.Thomas** @cymru.gov.uk<br>Etholiadau a refferenda, gweithdrefnau'r Cynulliad a Rheolau Sefydlog | *** 8219** |
| | **Owain.Roberts** @cymru.gov.uk<br>Y cyfansoddiad a deddfwriaeth | *** 8584** |
| **Tîm yr Amgylchedd a'r Economi**<br><br>Rhoi cyngor arbenigol ar ddatblygu economaidd, trafnidiaeth, ynni, yr amgylchedd, cynllunio, amaethyddiaeth a datblygu gwledig, datblygu cynaliadwy, dyfroedd morol a physgodfeydd. | **Graham.Winter** @cymru.gov.uk<br>**Arweinydd y Tîm Ymchwil**<br>Cynllunio a'r amgylchedd | **8166** |
| | **Andrew.Minnis** @cymru.gov.uk<br>Trafnidiaeth | **8555** |
| | **Ben.Stokes** @cymru.gov.uk<br>Busnes, datblygu economaidd a chronfeydd strwythurol | **8208** |
| | **Nia.Seaton** @cymru.gov.uk<br>Amaethyddiaeth a datblygu gwledig, datblygu cynaliadwy, dyfroedd morol a physgodfeydd | *** 8987** |
| | **Robin.Wilkinson** @cymru.gov.uk<br>Yr Undeb Ewropeaidd a thwristiaeth | **8983** |
| | **Nigel.Barwise** @cymru.gov.uk<br>Cynorthwyydd ymchwil ac ymholiadau | **8928** |

***** Siaradwr Cymraeg

**Y Tîm Addysg, Diwylliant a Llywodraeth Leol**

Rhoi cyngor arbenigol ar addysg, dysgu gydol oes, diwylliant, chwaraeon a hamdden, amgueddfeydd a llyfrgelloedd, y Gymraeg, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus.

**Anne.Thomas** @cymru.gov.uk — **8966**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Addysg uwch ac addysg bellach, dysgu gydol oes a hyfforddiant sgiliau

**Sian.Thomas** @cymru.gov.uk — *** 8996**

Addysg, plant a phobl ifanc

**Siân.Hughes** @cymru.gov.uk — **8221**

Addysg

**Rhys.Iorwerth** @cymru.gov.uk — *** 8927**

Gwasanaethau cyhoeddus, llywodraeth leol, diwylliant

**Rachel.O'Toole** @cymru.gov.uk — **8691**

Llywodraeth leol, dysgu gydol oes

**Thomas.Douch** @cymru.gov.uk — **1837**

Cynorthwyydd ymchwil ac ymholiadau

**Swyddfa'r Undeb Ewropeaidd**

Rhoi cyngor arbenigol a gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd; rhoi cymorth i gynrychiolwyr y Cynulliad Cenedlaethol ar Bwyllgor y Rhanbarthau (a Chyngor Ewrop); hyrwyddo gwaith a buddion y Cynulliad ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn yr Undeb Ewropeaidd a hwyluso rhaglenni ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a dirprwyaethau staff i Frwsel.

**Gregg.Jones** @cymru.gov.uk — **32 (0)2 226 6692**

**Pennaeth Swyddfa Undeb Ewropeaidd y Cynulliad Cenedlaethol**

Tŷ Cymru (6ed Llawr)
Rond Point Schuman, 11
B-1040 Brwsel
Gwlad Belg

* Siaradwr Cymraeg

## Y Tîm Cyllid ac Ystadegau

Rhoi cyngor arbenigol ar gyllidebu a chyllidebau'r Cynulliad, cyllid llywodraeth leol ac ystadegau cyffredinol, gan gynnwys dulliau a ffynonellau.

**Martin.Jennings** @cymru.gov.uk **8057**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Cyllid, ystadegau, costau polisïau a chyllid llywodraeth leol

**Eleanor.Roy** @cymru.gov.uk **8576**

Craffu ar gyllid, cyllidebau a fformiwla Barnett

**Leon.Gooberman** @cymru.gov.uk *** 8638**

Cyllid cyffredinol, diweithdra a'r System Gwybodaeth Ddaearyddol/mapio

**GarethDavid.Thomas** @cymru.gov.uk **8917**

Ystadegau cyffredinol ac ystadegau cymdeithasol

## Y Tîm Polisi Iechyd a Pholisi Cymdeithasol

Darparu cyngor arbenigol ar iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol, cyfle cyfartal, plant a phobl ifanc, pobl hŷn, cyfiawnder cymdeithasol, adfywio, tai, y sector gwirfoddol, diogelwch cymunedol, cam-drin cyffuriau ac alcohol.

**Sarah.Hatherley** @cymru.gov.uk **8447**

**Arweinydd y Tîm Ymchwil**

Diogelwch cymunedol, cyfraith teulu a materion yn ymwneud â phlant

**Jonathan.Baxter** @cymru.gov.uk **8993**

Polisi tai, tlodi a chymunedau

**Stephen.Boyce** @cymru.gov.uk **8095**

Gofal cymdeithasol, iechyd meddwl, gwasanaethau cymdeithasol i oedolion

**Victoria.Paris** @cymru.gov.uk **8678**

Polisi iechyd a gwasanaethau iechyd

**Philippa.Watkins** @cymru.gov.uk **8943**

Polisi iechyd a gwasanaethau iechyd

**Hannah.Johnson** @cymru.gov.uk **8664**

Cydraddoldeb a pholisi cymdeithasol

***** Siaradwr Cymraeg

**Tîm y Llyfrgell**

Darparu gwasanaeth gwybodaeth a chyfeirio, gan gynnwys cyhoeddiadau swyddogol, papurau newydd, cyfnodolion ac e-adnoddau.

**Stephanie.Wilson** @cymru.gov.uk **8629**

**Pennaeth y Llyfrgell**

Rheolwr y llyfrgell, cynefino a hyfforddiant

**Delyth.Thomas** @cymru.gov.uk *** 8645**

Gwasanaethau i ddarllenwyr, Justis Parliament ac AdviserNet

**Alison.Castree** @cymru.gov.uk **8922**

Archebu llyfrau, GRANTfinder a Newsstand

**Lucy.Hodson** @cymru.gov.uk **1887**

E-adnoddau, papurau newydd, cyfnodolion, benthyciadau rhwng llyfrgelloedd

**Sian.Davies** @cymru.gov.uk *** 8995**

Benthyg llyfrau ac adnewyddu benthyciadau

**Gareth.England** @cymru.gov.uk *** 8096**

Catalog y llyfrgell, llyfryddiaeth y Cynulliad a dilyn hynt deddfwriaeth

**Robert.Orr** @cymru.gov.uk **8964**

Cyhoeddusrwydd, cyhoeddi

***** Siaradwr Cymraeg



Pennod 1 –
# Y Cynulliad newydd

– Etholiad 2011

– Lliw a llun y Pedwerydd Cynulliad

# Etholiad 2011

**Owain Roberts a Martin Jennings**

**Er mai hon oedd y gyfran uchaf o bleidleisiau i Lafur ei hennill erioed mewn etholiad Cynulliad, ni wnaeth Llafur ennill mwyafrif clir o'r 60 o seddi a oedd ar gael.**

Er mai Llafur yw'r grŵp plaid mwyaf o ddigon yn y Cynulliad o hyd, a bod ei chyfran o'r bleidlais boblogaidd wedi cynyddu'n arw ledled Cymru, ni wnaeth y blaid ennill mwyafrif clir. Enillodd Llafur 30 o seddi – nifer sy'n cyfateb i'r cyfanswm a oedd ganddi yn 2003 ac sydd cystal â'i pherfformiad gorau erioed yn etholiadau'r Cynulliad.

Hwn hefyd oedd perfformiad gorau'r Ceidwadwyr mewn etholiad Cynulliad; gwelwyd nifer seddi'r blaid yn cynyddu o 12 i 14. O ganlyniad, hi yw'r brif wrthblaid yn y Cynulliad, gan wthio heibio i Blaid Cymru i'r ail safle.

Dyma berfformiad gwaethaf Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol mewn etholiad Cynulliad. Mae seddi'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi gostwng i 5 sedd, un yn llai na'r cyfanswm a gafodd yn 2007. Enillodd Plaid Cymru gyfanswm o 11 sedd, sef 4 yn llai nag oedd ganddi yn y Cynulliad blaenorol.

Am y tro cyntaf ers etholiad Cynulliad 1999, ni chafodd yr un ymgeisydd annibynnol ei ethol. Methodd y pleidiau llai ag ennill sedd.

## Canran is wedi pleidleisio

Er gwaethaf y gobaith y byddai nifer y pleidleiswyr yn cynyddu o ganlyniad i'r penderfyniad i gynnal y refferendwm ar newid y system bleidleisio ar gyfer Tŷ'r Cyffredin ar yr un diwrnod ag etholiad y Cynulliad, roedd y ganran a bleidleisiodd 2 bwynt canran yn is nag ydoedd yn 2007. Cafwyd tua 950,000 o bleidleisiau dilys yn 2011, canran o 41.4 y cant o'i gymharu â'r 43.4 y cant a bleidleisiodd yn 2007.

Mae hyn yn golygu bod y ganran sydd wedi pleidleisio yn etholiadau'r Cynulliad yn dal yn is na'r ganran sydd wedi pleidleisio yn etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig yn ddiweddar; y ffigur cyfatebol ar gyfer etholiad 2010 oedd 65.6 y cant.

## Pleidleisiau a'r gogwydd gwleidyddol

Enillodd Llafur 42.3 y cant o'r bleidlais etholaethol, y ganran uchaf iddi ei hennill erioed mewn etholiadau Cynulliad, sef cynnydd o 10.1 o'i gymharu â chanlyniadau 2007. Cynyddodd ei chyfran o'r bleidlais ranbarthol hefyd i 36.9 y cant, sef 7.2 yn uwch nag a gafodd yn 2007.

Enillodd Llafur gyfran uwch o'r bleidlais nag a gafodd yn etholiadau'r Cynulliad yn 1999, 2003 a 2007. Dyma'r gyfran uchaf o bleidleisiau a enillodd Llafur mewn unrhyw etholiad ers etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig yn 2005.

Er y bu cynnydd sylweddol ym mhleidlais Llafur yn genedlaethol, roedd amrywiad sylweddol rhwng y seddi. Ni lwyddodd y blaid i gipio rhai o'r etholaethau ymylol yr oedd wedi'u targedu, fel Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro, er iddi lwyddo i gipio seddi lle'r oedd angen gogwydd dipyn mwy na'r cyfartaledd cenedlaethol, fel Canol Caerdydd.

Bu cynnydd hefyd yn y ganran a bleidleisiodd dros y Ceidwadwyr, er nad oedd cymaint â chynnydd Llafur, sef 25 y cant yn yr etholaethau a 22.5 y cant yn y rhanbarthau etholiadol.

Yn yr etholiad hwn, roedd canran y pleidleisiau a enillodd Plaid Cymru yn is nag y bu erioed mewn etholiad Cynulliad; gwelwyd gostyngiad i 19.3 y cant yn y bleidlais etholaethol ac i 17.9 y cant yn bleidlais ranbarthol. Gostyngodd cyfran y Democratiaid Rhyddfrydol o'r bleidlais hefyd i'w lefel isaf erioed yn etholiadau'r Cynulliad; sef 10.6 y cant yn yr etholaethau ac 8 y cant yn y rhanbarthau.

## Seddi a gipiwyd

Cipiodd y prif bleidiau nifer o seddi etholaethol a rhanbarthol oddi ar ei gilydd yn ystod yr etholiad.

Llwyddodd Llafur i gipio seddi etholaethol Blaenau Gwent, Llanelli a Gogledd Caerdydd – seddi sydd wedi bod yn nwylo'r blaid ar wahanol adegau yn dilyn etholiadau 1999 a 2003. Llwyddodd Llafur hefyd i gipio sedd Canol Caerdydd am y tro cyntaf mewn etholiad Cynulliad.


Enillodd y Ceidwadwyr etholaethau Sir Drefaldwyn ac Aberconwy am y tro cyntaf mewn etholiad Cynulliad. Enillodd y Ceidwadwyr hefyd ddwy sedd ranbarthol newydd, a hynny yn rhanbarthau Gorllewin De Cymru a Dwyrain De Cymru.

Ni lwyddodd y Democratiaid Rhyddfrydol i gipio unrhyw seddi etholaethol ychwanegol, ond llwyddodd i gipio dwy sedd ranbarthol newydd, yn rhanbarthau Canolbarth a Gorllewin Cymru a Chanol De Cymru, wedi i'r blaid golli seddi Sir Drefaldwyn a Chanol Caerdydd. Ni lwyddodd Plaid Cymru i gipio unrhyw seddi etholaethol na rhanbarthol newydd.

## Etholiad nesaf y Cynulliad

O ganlyniad i fwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno tymhorau seneddol penodol o 5 mlynedd yn Nhŷ'r Cyffredin, mae'n bosibl y bydd dyddiad etholiad nesaf y Cynulliad yn symud blwyddyn i 5 Mai 2016 rhag iddo gael ei gynnal yn ystod yr un flwyddyn ag etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig. Caiff hyn ei gadarnhau wedi i'r *Bil Seneddau Tymor Penodol* gwblhau ei hynt drwy'r broses ddeddfu yn nau dŷ'r Senedd.

Am y tro cyntaf, felly, disgwylir y bydd tymor y Pedwerydd Cynulliad yn parhau am bum mlynedd yn hytrach na'r pedair blynedd arferol.



# Lliw a llun y Pedwerydd Cynulliad

**Dr. Alys Thomas a Martin Jennings**


**Penderfynodd chwarter Aelodau'r Cynulliad beidio ag ailymgeisio am eu seddi yn etholiad 2011. O ganlyniad, mae mwy o Aelodau newydd yn y Cynulliad y tro hwn nag a fu ers ei sefydlu yn 1999. Sut y mae'r newidiadau hyn wedi effeithio ar liw a llun y Cynulliad?**

Yn etholiad 2011, penderfynodd 15 o Aelodau'r Trydydd Cynulliad – 25 y cant ohonynt – beidio â sefyll eto. O ganlyniad, mae mwy o Aelodau newydd yn y Cynulliad y tro hwn nag a fu ers ei sefydlu. Gwelwyd newidiadau eraill hefyd o ganlyniad i'r etholiad ei hun a'r ffaith bod seddi wedi newid dwylo rhwng y pleidiau gwleidyddol. Oherwydd hynny, o'r 60 Aelod Cynulliad, mae 23 ohonynt yn newydd.

## Cynrychiolaeth o ran rhyw a phobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME)

Yn etholiad cyntaf y Cynulliad yn 1999, etholwyd 24 o fenywod a 36 o ddynion. Cafodd hyn ei ystyried yn arwyddocaol iawn oherwydd, yn hanesyddol, roedd cynrychiolaeth wleidyddol menywod wedi bod yn isel yn Senedd y Deyrnas Unedig ac ym myd llywodraeth leol. Ar ôl etholiad 2003, roedd cynifer o fenywod ag o ddynion yn Aelodau a chafodd y Cynulliad ei gydnabod yn gorff a oedd ar flaen y gad yn fyd-eang o ran cynrychiolaeth gyfartal. Roedd 28 o fenywod a 32 o ddynion yn y Trydydd Cynulliad.

**Nifer y dynion a'r menywod ar ôl pob etholiad Cynulliad**




*Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil*


Mae cynrychiolaeth y menywod yn y Pedwerydd Cynulliad wedi gostwng i'r un lefel ag ydoedd yn 1999, sef 24 o fenywod a 36 o ddynion.

Amcangyfrifir bod 2 y cant o boblogaeth Cymru o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME). Nid oedd yr un Aelod BME yn y ddau Gynulliad cyntaf ond yn 2007 etholwyd yr Aelod BME cyntaf i'r Cynulliad. Mae dau Aelod BME yn y Pedwerydd Cynulliad.

## Profiad gwleidyddol

Cafodd 20 o Aelodau'r Pedwerydd Cynulliad eu hethol gyntaf yn 1999. Cafodd saith eu hethol gyntaf yn 2003 a deg yn 2007.

**Pryd y cafodd yr Aelodau presennol eu hethol i'r Cynulliad am y tro cyntaf**




*Ffynhonnell: Y Gwasanaeth Ymchwil*

Mae rhai o'r Aelodau newydd wedi cael profiad gwleidyddol mewn meysydd eraill. Mae 16 o'r Aelodau newydd yn gwasanaethu fel cynghorwyr, neu wedi gwneud hynny, gan gynnwys tri sydd wedi bod yn arweinwyr cyngor.

Mae'r Aelodau newydd eraill yn cynnwys dau gyn Aelod Seneddol a dau sydd wedi gweithio fel cynghorwyr arbennig i Weinidogion Cymru. Yn arwyddocaol, o gofio'r pwerau deddfu newydd a roddwyd i'r Pedwerydd Cynulliad, mae cynnydd yn nifer yr Aelodau sydd â chefndir cyfreithiol. Roedd gan bedwar Aelod arbenigedd cyfreithiol yn y Trydydd Cynulliad, ond mae wyth yn y Pedwerydd Cynulliad.


15:27



Pennod 2 –
# Datganoli a llywodraethu

– Datganoli: Ewyllys bendant pobl Cymru?

– Diwygio Barnett: Beth yw dyfodol cyllido Cymru?

– Cymru a San Steffan

– Awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru?

# Datganoli: Ewyllys bendant pobl Cymru?

**Owain Roberts**

**Yn 1999, croesawyd datganoli fel 'ewyllys bendant pobl yr Alban' ond gan fod y canlyniad yng Nghymru mor agos, parhau wnaeth y dadlau am ddatganoli. A lwyddodd canlyniad Refferendwm 2011 i gadarnhau 'ewyllys bendant pobl Cymru' o'r diwedd?**

Er nad oedd y nifer a bleidleisiodd yn y refferendwm ar 3 Mawrth 2011 mor uchel â hynny, roedd y bleidlais gadarnhaol mor bendant, llwyddwyd nid yn unig i gwblhau'r broses o droi'r Cynulliad Cenedlaethol yn ddeddfwrfa lawn, ond ym marn llawer, llwyddwyd hefyd i ddod â'r dadlau ynglŷn â datganoli yng Nghymru i ben. Ai datganoli, felly, yw ewyllys bendant y Cymry?

## Diosg 'cysgodion' 1979 a 1997


Nid oedd modd dod i'r casgliadau hyn yn dilyn y refferenda blaenorol ar ddatganoli yng Nghymru yn 1979 a 1997.

Yn 1979, cafodd y cynnig i sefydlu Cynulliad Cenedlaethol ei wrthod yn bendant gan y Cymry a oedd yn elyniaethus tuag at y math gwanaf o hunanlywodraeth.


Er bod agweddau o'r fath wedi newid yn ddramatig erbyn 1997, roedd Cymru yn dal yn rhanedig ynglŷn â datganoli. Pleidleisiodd pobl Cymru o blaid Cynulliad Cenedlaethol, ond mandad gwan a llugoer a gafwyd gan fwyafrif bach o'r rhai a bleidleisiodd. Ar y llaw arall, pleidleisiwyd o blaid creu Senedd yr Alban gyda mwyafrif o 4 i 1 yn 1997. Gellid dadlau, felly, bod datganoli yng Nghymru, yn wahanol i'r Alban, wedi parhau'n bwnc dadleuol.

Yn 2011, roedd y modd y pleidleisiodd Cymru i'w weld yn gwbl bendant. Pleidleisiodd 63.5 y cant o blaid rhoi rhagor o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol; dyma'r un ganran yn union ag a bleidleisiodd o blaid rhoi pwerau i Senedd yr Alban godi trethi yn 1997.

**1997**




**2011**



## Cymru unedig

Dangosodd canlyniad 2011 hefyd fod y gefnogaeth i ddatganoli ac i gryfhau'r Cynulliad Cenedlaethol wedi gwastatáu yn ddaearyddol ar hyd a lled y wlad.

> ***Mae cefnogaeth i ddatganoli wedi gwastatáu ar hyd a lled y wlad***

Pleidleisiodd pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol, namyn un, o blaid rhoi rhagor o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol. Hyd yn oed yn yr ardal honno a bleidleisiodd yn erbyn, sef Sir Fynwy, dim ond mwyafrif bach iawn, sef 320 pleidlais, a gafwyd.

Roedd y bleidlais o blaid yn weddol gyson ar hyd a lled y wlad. Ymddengys bod y rhaniadau daearyddol rhwng y dwyrain a'r gorllewin a rhwng y gogledd a'r de, a oedd mor amlwg yn 1997, wedi diflannu. Roedd yn syndod bod y ganran a bleidleisiodd yn gadarnhaol yn siroedd Wrecsam a Sir y Fflint yn y gogledd-ddwyrain yn uwch na'r ganran a wnaeth hynny yng Nghaerdydd.

Roedd y canlyniad cyffredinol yn 2011 nid yn unig yn bendant; roedd hefyd yn dangos bod Cymru yn unedig iawn.

## Cefnogaeth lwyr?

Efallai ei bod yn gamarweiniol cymharu canlyniad 2011 â chanlyniad y pleidleisiau blaenorol yn ymwneud â chreu'r Cynulliad Cenedlaethol. Mewn cyferbyniad â'r dewisiadau amlwg a oedd yn wynebu pleidleiswyr yn 1979 a 1997, mae rhai wedi dadlau nad oedd y cwestiwn a ofynnwyd i bobl Cymru yn 2011 yn un a fyddai'n arwain at newid cyfansoddiadol sylfaenol.

O ganlyniad, mae'n anodd gwybod a oedd canlyniad 2011 yn dangos cefnogaeth lwyr i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Lywodraethau Cymru ers 1999, ynteu ai'r cyfan a amlygwyd oedd cydnabyddiaeth ddifater bod datganoli yma i aros.

Yn ogystal â hyn, er bod canlyniad cyffredinol refferendwm 2011 yn gwbl glir, roedd y ganran a bleidleisiodd, o'i chymharu â refferenda blaenorol, gryn dipyn yn is. Dim ond 35.2 y cant o'r rhai a oedd wedi'u cofrestru i bleidleisio a wnaeth hynny, ac er nad oedd y ffigur mor isel ag yr oedd rhai wedi'i ofni, roedd yn dal yn llawer is na'r 50.1 y cant a bleidleisiodd yn 1997 a'r 58.8 y cant a bleidleisiodd yn 1979.

> ***Roedd y ganran a bleidleisiodd yn 2011 gryn dipyn yn is nag yn 1997 a 1979***

Efallai mai'r elfen fwyaf arwyddocaol yn refferendwm 2011, felly, oedd difaterwch pobl Cymru.

## Dynameg y dyfodol

Er gwaethaf hyn, mae canlyniad y refferendwm yn debygol o fod yn arwyddocaol iawn o ran datganoli yng Nghymru. Yn benodol, mae sylwebyddion wedi nodi y bydd natur y canlyniad yn creu momentwm a dynameg a fydd yn rhoi dilysrwydd newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol na chafwyd gan  refferendwm 1997.

O gofio hefyd y cynlluniau i ostwng nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru o 40 i 30 erbyn etholiad cyffredinol y Deyrnas Unedig yn 2015, ac ymrwymiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig i ystyried cynigion Comisiwn Holtham, tybed a fydd y ffocws gwleidyddol yn awr yn symud o San Steffan i Gymru?

# Diwygio Barnett: Beth yw dyfodol cyllido Cymru?

**Dr. Eleanor Roy**

**Yn ôl Comisiwn Holtham, mae Cymru ar hyn o bryd yn cael ei thangyllido o ryw £300 miliwn y flwyddyn. A yw hi'n bryd edrych eto ar fformiwla Barnett, sef y system ddadleuol sy'n cael ei defnyddio i gyllido datganoli? Beth yw'r opsiynau eraill, a beth fyddai goblygiadau'r rheini i Gymru?**

## Fformiwla Barnett

Dull anstatudol yw fformiwla Barnett o benderfynu ar newidiadau a wneir i'r modd y caiff y gweinyddiaethau datganoledig eu cyllido. Mae'r fformiwla wedi'i seilio ar y newidiadau a wneir i wariant adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac ar gyfran y boblogaeth ym mhob gwlad.

Dros y blynyddoedd, mae fformiwla Barnett wedi'i beirniadu am beidio â bod yn ddigon atebol, cyfiawn a theg. Yn 2008, arweiniodd y beirniadu hwn a'r galw am adolygu'r fformiwla at sefydlu Comisiwn Calman yn yr Alban a Chomisiwn Holtham yng Nghymru.

## Y galw am adolygu'r fformiwla

Roedd gan y Comisiwn ar Ddatganoli yn yr Alban (Calman) gylch gorchwyl eang, sef adolygu'r holl ddatblygiadau mewn datganoli yno, gan gynnwys y system gyllido bresennol a'r opsiynau eraill. Roedd cylch gorchwyl y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru (Holtham) ychydig yn fwy penodol, sef canolbwyntio ar sut y caiff datganoli ei gyllido'n unig yng Nghymru.

## Calman a datganoli'r system drethu

O ran cyllido datganoli, roedd argymhellion Calman yn canolbwyntio'n bennaf ar ddatganoli'r system drethu, gan gynnwys:

- cwtogi 10c ar y gyfradd sylfaenol a'r gyfradd uchaf o dreth incwm, a defnyddio hyn i greu cyfradd treth incwm newydd i'r Alban;
- datganoli sawl rhan arall o'r system drethu;
- cwtogi'r grant bloc i gyd-fynd â'r cynnydd cyfatebol mewn refeniw treth.

## Holtham a 'therfyn isaf Barnett'

Yn ôl Comisiwn Holtham:

- o dan y trefniadau presennol, mae Cymru'n cael ei thangyllido o ryw £300 miliwn y flwyddyn;
- er mwyn cyllido Cymru'n deg, dylid seilio'r system ar anghenion cymharol;
- gan y byddai newid i system o'r fath yn cymryd amser, awgrymwyd y gellid cyflwyno 'terfyn isaf Barnett' dros dro, er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tangyllido ymhellach yng Nghymru.

Yn y tymor hwy, awgrymwyd y gellid edrych ar ddatganoli'r system drethu, yn debyg i'r argymhelliad a wnaeth Calman, ond gyda golwg ar anghenion penodol Cymru.

## A yw hi'n bryd newid y system?

Yn y Trydydd Cynulliad, cafwyd cefnogaeth unfrydol i gynnig a alwodd ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gyflwyno terfyn isaf i'r fformiwla ar unwaith, cyn diwygio'r system yn ehangach maes o law. Ceir cytundeb mai mater i bobl Cymru fyddai datganoli'r system drethu, ac mae Prif Weinidog Cymru wedi datgan y byddai angen refferendwm arall er mwyn gwneud hyn.

Pe bai angen edrych ar ddatganoli'r system drethu yn y dyfodol, cytunir yn gyffredinol y byddai'n rhaid creu trefniadau gyda golwg benodol ar amgylchiadau economaidd-

gymdeithasol Cymru. Er enghraifft, gallai refeniw trethi yng Nghymru fod yn wahanol iawn i'r refeniw hwnnw yn yr Alban, a byddai'r risgiau a fyddai ynghlwm wrth ddatganoli'r system drethu yn dra gwahanol yn yr un modd.

## Y rhwystrau rhag diwygio Barnett?

Mae Llywodraeth bresennol y Deyrnas Unedig wedi datgan nad yw diwygio Barnett yn flaenoriaeth, gan mai'r peth pwysig yw canolbwyntio ar leihau'r diffyg yng nghyllid y wlad.

### Terfyn isaf Barnett

Awgrymodd  Comisiwn Holtham y dylid cyflwyno 'terfyn isaf' fel rhan o fformiwla Barnett, drwy roi trothwy ar y cyllid presennol i sicrhau na fydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu tangyllido ymhellach yn y dyfodol. Awgrymwyd y gellid gwneud hyn drwy luosi unrhyw gynyddiadau i Gymru â 114 y cant, gan ychwanegu'r swm hwn at y cyfrifiad a wneir eisoes drwy fformiwla Barnett. Felly, byddai unrhyw gynnydd yng ngwariant un o adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cael ei luosi â'r canlynol:

- y ffactor cymharedd;
- cyfran y boblogaeth;
- 114 y cant.


Cymerer, er enghraifft, bod un o adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwriadu gwario £100 miliwn yn ychwanegol, tra bo 90 y cant o'i gweithgareddau wedi'u datganoli a'r amcangyfrifon diweddaraf yn dangos bod poblogaeth Cymru yn 5.79 y cant o boblogaeth Lloegr. Drwy gyfuno'r elfennau hyn gyda'r terfyn isaf o 114 y cant, byddai'n rhoi swm canlyniadol cadarnhaol o £5.9 miliwn i Gymru, yn hytrach na £5.2 miliwn heb y terfyn isaf.

**Gyda'r terfyn isaf**: 100 x 90 x 5.79 x 114

**Heb y terfyn isaf**: 100 x 90 x 5.79

Gan fod Cymru eisoes mewn perygl o gael ei thangyllido o'i chymharu ag ardaloedd yn Lloegr, awgrymwyd y byddai'n amhriodol defnyddio'r terfyn isaf pan fyddai angen lleihau unrhyw gyllid i Gymru.

**Refeniw a gasglwyd drwy drethi'r Deyrnas Unedig, 2007-08 (£ biliynau)**




*Ffynhonnell: GERS a Chomisiwn Holtham*

Yn hanesyddol, bu rhesymau gwleidyddol dros osgoi diwygio Barnett. Rhan o'r ddadl oedd y byddai symud i system sy'n seiliedig ar anghenion yn cael effaith niweidiol ar floc yr Alban. Gyda chyflwyno Bil yr Alban ym mis Tachwedd 2010 a'r camau sydd wedi'u cymryd tuag at ddatganoli'r system drethu yno, gallai'r rhwystr hwn ddiflannu, gan arwain at ddiwygio'r fformiwla fel y mae'n berthnasol i Gymru.

## Y sefyllfa ddiweddaraf

Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai, yn sgil pleidlais o blaid rhagor o bwerau deddfu yn y refferendwm diweddar, yn sefydlu proses debyg i broses Calman ar gyfer Cymru.

Mae Prif Ysgrifennydd y Trysorlys (Danny Alexander) wedi cadarnhau y dylai'r trafodaethau gychwyn rhwng y Trysorlys a Llywodraeth Cymru ynghylch argymhellion Holtham. Er iddo ddweud nad yw diwygio fformiwla Barnett yn flaenoriaeth ar hyn o bryd, dywedodd hefyd y byddai'n ystyried y posibilrwydd o gyflwyno 'terfyn isaf' fel rhan o'r fformiwla.

# Cymru a San Steffan

**Dr. Alys Thomas**

**Sut fydd y berthynas rhwng Cymru a San Steffan yn datblygu yn ystod y Pedwerydd Cynulliad?**

Er bod trefniadau ffurfiol i'w cael i hwyluso'r berthynas rynglywodraethol rhwng Cymru a San Steffan, dim ond rhan o'r stori yw hynny. Mae'r broses ei hun yn ddynamig a honno'n gallu adlewyrchu'r berthynas rhwng pleidiau gwleidyddol ar naill ben yr M4 a rhwng llywodraethau o liwiau gwleidyddol gwahanol.

## Prosesau rhynglywodraethol

Ers dyfodiad datganoli yn 1999, rhoddwyd prosesau ffurfiol ar waith i hwyluso'r berthynas rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r rhain ar ffurf Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth cyffredinol, sef Nodiadau Cyfarwyddyd Datganoli a choncordatau y cytunwyd arnynt rhwng adrannau'r Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hefyd yn darparu ar gyfer creu'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion (JMC), sef fforwm sy'n dwyn ynghyd Weinidogion Cabinet y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yr Ysgrifenyddion Gwladol tiriogaethol, a Phrif Weinidogion a Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig.

> ***Dim ond rhan o'r stori yw'r trefniadau ffurfiol sy'n hwyluso'r berthynas rynglywodraethol. Mae'r broses ei hun yn ddynamig***

Diddymwyd y JMC am gyfnod ac ni chyfarfu mewn cyfarfod llawn rhwng 2001 a 2008. Rhoddodd Gordon Brown y dasg o'i adfywio i Paul Murphy, Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd. Gellir dadlau nad oedd galw am gyfarfod o'r JMC cyn hynny gan fod y blaid Lafur mewn grym yn San Steffan ac yn llywodraethu yn Holyrood ac yng Nghaerdydd. Newidiodd hynny yn 2007 pan ffurfiodd Plaid Genedlaethol yr Alban lywodraeth leiafrifol gan ddod â dynameg newydd i'r berthynas rynglywodraethol rhwng yr Alban a San Steffan. Croesawodd Alex Salmond, Prif Weinidog newydd yr Alban, y cyfle i greu cysylltiadau strwythuredig rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig.

## 'Agenda o barch'?

Cafodd y ddynameg ei thrawsnewid unwaith eto ym mis Mai 2010 wrth i glymblaid  y Ceidwadwyr / Democratiaid Rhyddfrydol ddod i rym yn San Steffan.  Mae Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig wedi ceisio disgrifio'i hagwedd tuag ei pherthynas gyda'r sefydliadau datganoledig fel 'agenda o barch', gan addo rhoi sylw o bwys i'r JMC. Nododd y Prif Weinidog ei fwriad gydag ymweliadau cynnar â'r deddfwrfeydd datganoledig. Fodd bynnag, ni fu'r 'agenda o barch' heb ei hagweddau dadleuol. Mae beirniaid wedi nodi bod rhai penderfyniadau – fel cynnal y refferendwm ar y bleidlais amgen ar yr un diwrnod â'r etholiadau yn y gwledydd datganoledig ac achosi i etholiadau wrthdaro yn 2015 – yn dangos diffyg parch tuag at y cyrff datganoledig. Mae hyn yn codi cwestiwn ynghylch a all y JMC fod yn fforwm cadarn ar gyfer rheoli datganoli gyda gwahanol bleidiau mewn grym.

Hefyd, mae ffenomen newydd wedi ymddangos yn yr hinsawdd wleidyddol newydd hon, wrth i'r gweinyddiaethau datganoledig weithio ar y cyd. Ym mis Hydref 2010, llofnododd Prif

Weinidogion Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ddatganiad ar y cyd a oedd yn gwrthwynebu'r modd yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn mynd i'r afael â'r economi. Cyhoeddwyd datganiad pellach ar yr economi cyn cyfarfod o'r JMC ym mis Chwefror. Amser a ddengys a fydd y dacteg hon gan y gweinyddiaethau datganoledig yn dwyn ffrwyth yn y tymor canolig ac yn parhau yn y dyfodol.

## Ysgrifennydd Gwladol i'r cenhedloedd a'r rhanbarthau?

Mae'r syniad o gael gwared ar y gweinidogion tiriogaethol gan benodi un Gweinidog dros y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn eu lle wedi bod yn cael ei drafod ers rhai blynyddoedd. Fodd bynnag, ymddengys fod y bleidlais gadarnhaol yn refferendwm mis Mawrth 2011wedi rhoi egni newydd i'r ddadl, ac argymhellodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Weinyddiaeth Gyhoeddus yn ddiweddar y dylid adolygu'r swyddi. Y brif ddadl o blaid hyn yw nad oes gan yr Ysgrifenyddion Gwladol tiriogaethol ddigon i'w wneud. Ni fydd rôl Swyddfa Cymru mewn perthynas â Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn bodoli yn y pedwerydd Cynulliad. Serch hynny, mae Ysgrifenyddion Gwladol y gorffennol a'r rhai presennol wedi amddiffyn eu rôl yn gryf fel elfen allweddol o'r seilwaith rhynglywodraethol.

> ***Mae Ysgrifenyddion Gwladol y gorffennol a'r rhai presennol wedi amddiffyn eu rôl yn gryf fel elfen allweddol o'r seilwaith rhynglywodraethol***

Pe bai swydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru'n peidio â bod, codir cwestiynau ynghylch dyfodol y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig. Ei gylch gorchwyl yw ymchwilio i faterion sy'n dod o dan ofal Ysgrifennydd Gwladol Cymru (gan gynnwys y berthynas gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru). A fyddai pwyllgor dethol newydd yn cael ei sefydlu er mwyn craffu ar yr Ysgrifennydd Gwladol newydd?

Bydd nifer yr Aelodau Seneddol yng Nghymru hefyd yn gostwng o 40 i 30. Gan edrych y tu hwnt i etholiad nesaf San Steffan, os caiff y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig ei gadw, gallai fod yn broblem cael Aelodau o Gymru i fod yn aelodau ohono. Ar hyn o bryd, mae 12 o aelodau ar y Pwyllgor ac mae'n rhaid iddynt adlewyrchu cydbwysedd pleidiol, sy'n golygu bod dau aelod yn cynrychioli etholaethau yn Lloegr. Mae hyn yn codi cwestiynau am oblygiadau cael llai o Aelodau Seneddol o Gymru ac a fydd hyn yn effeithio ar y Cynulliad Cenedlaethol.

### Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011

Bydd *Deddf Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011* yn lleihau nifer yr Aelodau Seneddol yn Nhŷ'r Cyffredin o 650 i 600 erbyn dyddiad Etholiad Cyffredinol nesaf y Deyrnas Unedig.

Bydd nifer yr Aelodau Seneddol o Gymru'n gostwng o 40 i 30. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn effeithio ar nifer yr Aelodau Cynulliad a fydd yn parhau'n 60.

# Awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru?

**Dr. Alys Thomas**

**Mae'r bleidlais ar 3 Mawrth 2011 a roddodd rwydd hynt i ehangu pwerau deddfu'r Cynulliad wedi cryfhau'r galwadau am gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru. Beth yw'r manteision a'r anfanteision?**

## Pam cael awdurdodaeth i Gymru?

Diddymodd Deddfau Uno 1536 a 1543 gyfreithiau Cymru gan ddarparu mai cyfraith Lloegr fyddai mewn grym yng Nghymru bellach. Gan fod y Cynulliad wedi bod yn pasio cyfreithiau gwahanol yng Nghymru ers 2007 ac wedi ehangu'i gymhwysedd deddfwriaethol ers mis Mai 2011, ai'r cam rhesymegol nesaf yw creu awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân?

Ers y bleidlais gadarnhaol yn y refferendwm ar 3 Mawrth 2011, mae'r galwadau am gael awdurdodaeth ar wahân yng Nghymru wedi cryfhau o rai cyfeiriadau. Un ddadl dros hynny yw'r honiad nad oes dau gorff deddfu sylfaenol yn bodoli yn yr un awdurdodaeth mewn unrhyw fan arall yn y byd. Dadl arall yw ei bod yn dod yn fwyfwy anodd i wneud i awdurdodaeth gyfreithiol sengl 'Cymru a Lloegr' weithio wrth i swmp y cyfreithiau Cymreig gynyddu. Heb gael awdurdodaeth ar wahân, a yw'r model datganoli yn gynaliadwy yng Nghymru? Gellir edrych ar Ogledd Iwerddon yn hyn o beth, sydd â'i hawdurdodaeth gyfreithiol ei hun ond bod honno wedi'i seilio ar egwyddorion cyfreithiol tebyg iawn i rai Cymru a Lloegr.

## Pam nad yw'n gynaliadwy?

Yr achos yn erbyn cael awdurdodaeth ar wahân yw bod cyswllt anorfod rhwng cyfreithiau Cymru a chyfreithiau Lloegr a bod goblygiadau ymarferol sylweddol i hynny. Er enghraifft, a fyddai'n rhaid dilyn penderfyniadau llysoedd Lloegr mewn achosion yng Nghymru? A fyddai angen datblygu proffesiwn cyfreithiol ar wahân? Caiff yr honiad bod angen awdurdodaeth ar wahân ar y cyfreithiau gwahanol sy'n ymddangos yng Nghymru ei gwestiynu gan y rheini a fyddai'n dadlau bod cyfreitheg, system a gweithdrefn gyffredin yn caniatáu i lysoedd weithio mewn tiriogaethau gwahanol. Mae llysoedd Cymru a Lloegr yn hollol gymwys i benderfynu pa achosion sy'n ymwneud â chyfreithiau Cymru a Lloegr a chyfreithiau Cymru'n unig.

> ***Heb gael awdurdodaeth ar wahân, a yw'r model datganoli yn gynaliadwy yng Nghymru?***

### Beth yw awdurdodaeth gyfreithiol?

Awdurdodaeth yw'r diriogaeth neu'r cylch gweithgarwch sy'n dod o dan awdurdod cyfreithiol llys neu sefydliad arall. Mae Cymru a Lloegr yn creu un awdurdodaeth sengl ar hyn o bryd – un o oblygiadau hyn yw bod deddfau San Steffan yn cael eu disgrifio fel bod ganddynt effaith diriogaethol ar "Gymru a Lloegr" hyd yn oed os mai dim ond i Loegr y byddant yn berthnasol.

## Cydgrynhoi deddfwriaeth a llyfr statud i Gymru

Er y byddai nifer o bobl o'r proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru'n gwrthwynebu creu awdurdodaeth ar wahân, mae pryder cynyddol am yr angen i gydgrynhoi deddfwriaeth sy'n ymwneud â Chymru. Teimla rhai bod y sefyllfa bresennol, sy'n golygu datblygu Deddfau Seneddol sy'n gwneud darpariaeth wahanol ar gyfer Cymru a Lloegr, a'r rheini wedyn yn cael eu diwygio ar wahân gan ddeddfwrfeydd gwahanol, yn anghynaliadwy ar gyfer datblygu cyfreithiau hygyrch a dealladwy. Un ateb posibl fyddai cydgrynhoi deddfwriaeth mewn cyfres o ddeddfau Cymreig swmpus, er enghraifft, ym maes llywodraeth leol neu addysg. Byddai hyn yn gwneud y gyfraith yng Nghymru – ac yn Lloegr – yn haws i'w deall.

***Un ateb posibl fyddai cydgrynhoi deddfwriaeth mewn cyfres o ddeddfau Cymreig swmpus***

Ar thema debyg, mae pwyllgorau yng Nghaerdydd a San Steffan wedi clywed tystiolaeth gan y proffesiwn cyfreithiol a grwpiau cymdeithasau sifil eraill bod angen llyfr statud i Gymru a fyddai'n rhoi un ffynhonnell gyfeiriol gynhwysfawr ar gyfer deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru.

***Gall llyfr statud i Gymru roi un ffynhonnell gyfeiriol gynhwysfawr ar gyfer deddfwriaeth sy'n effeithio ar Gymru***

## Dull Cymreig o weithio?

Er gwaethaf gwahaniaeth barn am gael awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân, mae cytundeb ymhlith llawer bod Cymru, ers datganoli, wedi meithrin ei dull cyfreithiol ei hun o weinyddu cyfiawnder. Mae Cymru bellach yn sefyll ar ei phen ei hun fel uned weinyddol o fewn system gyfreithiol Cymru a Lloegr sy'n cydfodoli â thiriogaeth Cymru. Mae'r Barnwyr Llywyddol wedi dod yn Farnwyr Llywyddol Cymru ac o fewn Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ceir uned weinyddol ar wahân, sef Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi Cymru, gyda'i chyfarwyddwr ei hun.

Yn y Llys Gweinyddol y daw'r llysoedd i gyswllt yn y ffordd fwyaf uniongyrchol â gweithredoedd sefydliadau datganoledig Cymru, oherwydd mae'n clywed yr heriau i gyfreithlondeb y modd y mae'r cyrff cyhoeddus hynny'n gweithredu. Mae ei swyddogaeth wedi bod yn datblygu ers 1999 ond ers 2009 caiff ei weinyddu gan dîm sy'n gweithio o Gaerdydd. Ar ôl i'r achosion gael eu trosglwyddo i Gymru, cânt eu gweinyddu fel arfer o Gymru a gwneir penderfyniadau arnynt gan farnwr o'r Llys Gweinyddol mewn llys perthnasol yng Nghymru.



Pennod 3 –
## Datblygu economaidd a thrafnidiaeth

– Deall perfformiad economaidd

– Dirwasgiad a diweithdra

– Mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc

– Cau'r gagendor digidol

– Costau ynni a thlodi tanwydd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru

– Sut y byddwn yn talu am ein seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol?

– Llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin ynteu'r gogledd a'r de? Blaenoriaethau strategol ar gyfer seilwaith trafnidiaeth Cymru

# Deall perfformiad economaidd

**Ben Stokes**

**Mae dadleuon ar yr economi yn aml yn canolbwyntio ar berfformiad Cymru o'i gymharu â pherfformiad y Deyrnas Unedig drwy ddefnyddio dau ystadegyn amlwg: GVA (Gwerth Ychwanegol Crynswth) a GDHI (Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario). Nid oes dianc rhag yr acronymau hyn, ond beth yn union y maent yn ei ddatgelu am berfformiad economaidd Cymru?**

## GVA – dangosydd amherffaith?

Gan Gymru y mae'r GVA – neu'r Gwerth Ychwanegol Crynswth – isaf y pen ym mhob un o'r gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr, sef 74.3 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig. Nid oes dim yn newydd yn hyn – gan Gymru y bu'r GVA isaf ers dros ddegawd. Mae ardaloedd unigol yng Nghymru hefyd ar waelod y cynghreiriau GVA, gyda'r gorllewin a'r cymoedd (62.6 y cant), ac Ynys Môn (55.2 y cant) ill dwy ar waelod y gynghrair yn eu categorïau daearyddol perthnasol yn y Deyrnas Unedig.

Bu'r cynnydd mewn GVA y pen yn is yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig bron bob blwyddyn ers 1995. Roedd y bwlch yn arbennig o lydan yn niwedd y 1990au, gan i GVA y pen yng Nghymru ostwng yn gymharol sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw.

## Y dirwasgiad

Nid oes dwywaith bod y dirwasgiad diweddar wedi bod yn anodd i Gymru. Serch hynny, mae rhai pethau positif i'w gweld yn y ffigurau GVA diweddaraf. Er enghraifft, roedd y gostyngiad yn y ffigurau GVA y pen rhwng 2008 a 2009 rywfaint yn llai yng Nghymru na thrwy'r Deyrnas Unedig, ac yma y bu'r pumed gostyngiad lleiaf ymhlith y deuddeg o wledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr.

Fodd bynnag, mae sawl rheswm pam y gellir dweud bod GVA y pen yn ddangosydd amherffaith wrth edrych ar berfformiad economaidd. Er enghraifft, mae'n mesur

> Mae **Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA)** yn ddull o fesur cynnyrch economaidd mewn ardal gan edrych ar incwm, sef yn bennaf y cyflogau a'r elw a wneir yn yr ardal honno.
>
> Mae **Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario (GDHI)** yn amcangyfrif o'r hyn sydd gan gartrefi i'w wario ar ôl tynnu costau tai a threth o gyflogau a thaliadau budd-dal.


cynnyrch economaidd mewn ardal ac yn rhannu hynny â nifer y trigolion yn yr ardal honno. Felly, bydd yr amcangyfrifon o'r GVA y pen yn isel mewn ardaloedd sydd â phoblogaethau uchel ond â llawer o bobl yn cymudo ohonynt, ac mae'r un peth yn wir i'r gwrthwyneb.

At hynny, gan ei fod yn mesur cynnyrch economaidd cyfartalog pob unigolyn mewn ardal, mae'n anodd cymharu rhwng ardaloedd pan fydd gwahaniaethau demograffig yn dylanwadu ar hynny, fel cyfran y plant neu bobl sydd wedi ymddeol mewn ardal (pobl nad ydynt ar y cyfan yn creu llawer o gynnyrch economaidd). Oherwydd hyn, mae GDHI (Incwm Aelwydydd Crynswth i'w Wario) yn aml yn cael ei gynnig fel dull amgen o fesur perfformiad economaidd.

## GDHI – dull gwell o fesur perfformiad economaidd?

Y ffigurau GDHI y pen yng Nghymru yw'r trydydd isaf o'r deuddeg o wledydd datganoledig a

rhanbarthau Lloegr, sef 87.9 y cant o gyfartaledd y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.




*Ffynhonnell: ONS*

Cynyddodd GDHI y pen yng Nghymru 2.6 y cant rhwng 2008 a 2009, o'i gymharu â chynnydd o 2.5 y cant ledled y Deyrnas Unedig. Yng Nghymru y bu'r pedwerydd cynnydd mwyaf mewn GDHI y pen o'r gwledydd datganoledig a rhanbarthau Lloegr rhwng 1999 a 2009. Fel y gwelir yn y siart, mae GDHI y pen yng Nghymru wedi cynyddu o'i gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig dros y degawd diwethaf, tra bo'r ffigurau GVA y pen wedi parhau i ostwng.


Tra bo'r ffigurau GDHI yn rhoi darlun mwy cadarnhaol o Gymru na'r ffigurau GVA wrth eu cymharu â rhanbarthau eraill yn y Deyrnas Unedig, nid yw'r ddau o anghenraid yn cyfateb i'w gilydd. Gan gofio bod cyfrifiadau GDHI yn cynnwys taliadau budd-daliadau, mae'n bosibl ei fod yn ffordd well o fesur safonau byw na GVA, ond bod GVA yn ffordd well o fesur perfformiad economaidd.

## GVA a GDHI: Beth maent yn ei ddweud ar lefel leol?


Tra bo'r ystadegau GVA a GDHI yn gallu argyhoeddi a hawlio'r penawdau ar lefel genedlaethol, nid ydynt mewn unrhyw ffordd yn adrodd yn gyflawn sut y mae economi Cymru'n perfformio, yn enwedig ar lefel leol.

Gall y ffigurau GVA a GDHI roi darlun cymysg a chroes ar brydiau o economïau lleol Cymru. Er mwyn deall o ddifrif sut y mae pethau, ac i fonitro sut y mae'r economi'n perfformio yn ystod y cyfnod ansicr hwn ar ôl y dirwasgiad, mae angen edrych ar amrediad ehangach o ddangosyddion economaidd – fel cyfraddau cyflogaeth, diweithdra ac anweithgarwch.

**GVA y pen fel canran o gyfartaledd y Deyrnas Unedig**




**GDHI y pen fel canran o gyfartaledd y deyrnas Unedig**



# Dirwasgiad a diweithdra

**Leon Gooberman**

**Mae'r dirwasgiad wedi peri i ddiweithdra gynyddu ym mhob etholaeth, ond nid yw'r cynnydd hwn wedi bod yr un fath ym mhob man.**

O ail chwarter y flwyddyn 2008, crebachodd economi'r Deyrnas Unedig yn gyflymach nag a wnaeth ers 30au'r ganrif ddiwethaf. Parodd hyn bod diweithdra'n codi'n gyflym ym mhob etholaeth yng Nghymru. Gwelodd rhai etholaethau, a oedd â lefel isel o ddiweithdra'n wreiddiol, eu cyfraddau diweithdra'n dyblu. Ar yr un pryd, mae rhai etholaethau a oedd â lefelau cymharol uchel o ddiweithdra cyn y dirwasgiad wedi gweld y gyfradd yn cynyddu fwyfwy.

Dengys hanes diweddar fod effaith dirwasgiadau ar ddiweithdra yng Nghymru yn tueddu i bara'n hir. Ar ôl dirwasgiad 1979-81, ni ddychwelodd nifer y rhai a oedd yn hawlio budd-dal diweithdra i lefel 1979 cyn y cwymp nesaf yn 1990. Ar ôl dirwasgiad 1990-91, bu'n chwe blynedd cyn i'r gyfradd ostwng yn is na lefel 1990.

### Mesur diweithdra

Mae cyfradd nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra yn cofnodi nifer y bobl sy'n cael Lwfans Ceisio Gwaith. Dyma'r ffigurau mwyaf diweddar a manwl sydd ar gael ar lefel etholaethol. Mae cyfradd diweithdra swyddogol y Sefydliad Llafur Rhyngwladol wedi'i seilio'n fras ar nifer y bobl nad oes ganddynt swyddi, ond sy'n chwilio am swyddi. Mae'r mesur hwn yn rhoi darlun gwell o lefelau diweithdra nag edrych ar gyfradd y bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra, gan nad yw llawer o bobl ddi-waith yn cael Lwfans Ceisio Gwaith. Fodd bynnag, nid yw ffigurau diweithdra'r Sefydliad Llafur Rhyngwladol yn rhoi cymaint o fanylion â chyfradd y nifer sy'n hawlio budd-dal.

## Pa effaith a gaiff y dirwasgiad ar nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal yng Nghymru?

Ym mis Mai 2008, roedd 40,936 o bobl yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith. Fodd bynnag, erbyn Ionawr 2010, roedd nifer y rhai sy'n hawlio hwnnw wedi mwy na dyblu ac wedi cyrraedd 83,174 o bobl. Roedd y cynnydd cyflym hwn fwy neu lai'n debyg i'r hyn a gafwyd drwy'r Deyrnas Unedig.

Mae'r cyfrif wedi amrywio ers hynny. Ym mis Mawrth 2011, y gyfradd oedd 74,850 o bobl.

## Ar ba etholaethau yr effeithiwyd fwyaf?

Ym mis Mawrth 2011, yr etholaethau a chanddynt y cyfraddau uchaf o bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra oedd Blaenau Gwent (6.7 y cant o'r boblogaeth breswyl rhwng 16 a 64 oed), Merthyr Tudful a Rhymni (6.1 y cant) a De Caerdydd a Phenarth (5.6 y cant).

Fodd bynnag, cafwyd y cynnydd mwyaf ym mhwyntiau canran nifer y bobl sy'n hawlio budd-dal ers mis Mai 2008 yn Ne Caerdydd a Phenarth (2.9 pwynt canran), Gorllewin Caerdydd (2.6 pwynt canran) a Chwm Cynon (2.5 pwynt canran). Mae cyfradd y nifer sy'n hawlio budd-dal wedi dyblu, neu fwy na dyblu, mewn deuddeg o etholaethau. Mae pob etholaeth arall wedi gweld cynnydd o 45 y cant o leiaf.

Mae'r cynnydd absoliwt yn y gyfradd hawlio budd-dal ers mis Mai 2008 wedi bod yn anwastad trwy Gymru. Yr etholaethau yr effeithiwyd fwyaf

arnynt ar y sail hon fu De Caerdydd a Phenarth (dros 1,894 o bobl), Gorllewin Caerdydd (dros 1,444 o bobl) a Gorllewin Casnewydd (dros 1,301 o bobl).


## Beth yw ystyr hyn i Gymru?

Mae'r cynnydd yn y nifer o bobl sy'n hawlio budd-dal diweithdra wedi effeithio ar gymunedau ledled Cymru. Nid ar nifer cymharol fach o etholaethau yn unig yr effeithiwyd erbyn hyn.

Mae Cymru'n dibynnu i raddau helaeth ar gyflogaeth yn y sector cyhoeddus. Disgwylir y bydd y pwysau presennol ar wariant y sector cyhoeddus yn parhau am nifer o flynyddoedd.

Gall hyn olygu, os bydd diweithdra yn y Deyrnas Unedig yn gostwng, ei bod yn bosibl na fydd y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn gostwng mor gyflym ag y bydd mewn rhai gwledydd a rhanbarthau eraill.

Er nad yw nawdd cymdeithasol yn fater sydd wedi'i ddatganoli, mae gan Lywodraeth Cymru rywfaint o gyfrifoldebau datblygu economaidd a allai gynorthwyo i ostwng lefelau diweithdra. Mae'r rhain yn cynnwys datblygu sgiliau a seilwaith ymhellach, annog arloesi a sicrhau bod Cymru'n lle mwy deniadol i fyd busnes.




Ffynhonell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwasanaeth Ymchwil.

Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011. Arolwg Ordnans 100047295.

# Mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc

**Martin Jennings**

**Pobl ifanc yw bron i hanner y 115,000 o bobl o oedran gweithio sy'n ddi-waith yng Nghymru, er mai dim ond un o bob chwe pherson o oedran gweithio sy'n ifanc. Mae effeithiau negyddol niferus diweithdra hirdymor ymhlith pobl ifanc yn golygu y bydd hwn yn fater o gryn bwys i Lywodraeth newydd Cymru.**

## Tueddiadau diweddar

Mae'r dirwasgiad wedi bod yn anodd neilltuol i bobl ifanc yng Nghymru. Rhwng mis Hydref 2009 a mis Medi 2010, roedd 50,500 o bobl rhwng 16 a 24 oed yn ddi-waith. Mae hyn yn 14 y cant o'r holl grŵp oedran ac yn gynnydd o 12,700 ar y ffigurau ddwy flynedd ynghynt. Yn ystod y cyfnod hwn, pobl ifanc oedd 44 y cant o'r 115,000 o bobl o oedran gweithio a oedd yn ddi-waith yng Nghymru. Mae hyn yn uwch na'r ffigur cyfatebol ar gyfer y Deyrnas Unedig, sef 37 y cant.


Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu seilio ar ddiffiniad y Sefydliad Llafur Rhyngwladol o ddiweithdra, sy'n cyfrif nifer y bobl ddi-waith sy'n awyddus i weithio, sydd ar gael i weithio, ac sy'n mynd ati i chwilio am waith, yn hytrach na chyfrif nifer y rheini sy'n hawlio budd-dal.

Mae'r ffigurau diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi codi yng Nghymru bob chwarter ers y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2007 a mis Mehefin 2008, ond nid felly bob tro'r ffigurau ar gyfer diweithdra ymhlith yr holl boblogaeth o oedran gweithio. Mae'r gyfradd ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, sef cyfran y rheini sy'n economaidd weithgar ond yn ddi-waith, wedi bod ddwywaith yn uwch na'r gyfradd ymhlith yr holl boblogaeth o oedran gweithio, a hynny'n gyson dros y deng mlynedd ddiwethaf. Mae'r bwlch hwn wedi lledu'n sylweddol dros y flwyddyn neu ddwy ddiwethaf.

## Y rhesymau dros y cynnydd

Mae sawl rheswm pam fod dirwasgiadau'n gallu cael mwy o effaith ar bobl ifanc. Er enghraifft:

- mae llai o swyddi gwag ar gael, sy'n golygu bod llai o gyfle i'r rheini sy'n ymuno â'r farchnad swyddi i ddod o hyd i waith;
- efallai fod staff ifanc yn fwy tebygol o golli'u swyddi. Mae cyflogwyr o bosibl yn fwy tebygol o gadw staff profiadol sydd wedi cael hyfforddiant, gan eu bod wedi buddsoddi mwy ynddynt ac y byddai eu diswyddo'n ddrutach;
- mae llai o swyddi wedi'u colli yn y dirwasgiad hwn na'r nifer a ragwelwyd gan economegwyr, sy'n awgrymu bod cwmnïau wedi ceisio cadw'u staff. Bydd y cwmnïau hynny felly'n arafach yn recriwtio staff newydd yn ystod unrhyw adferiad.





*Ffynhonnell: ONS*

## Anweithgarwch economaidd

Nid yw pawb o oedran gweithio yn chwilio am waith. Nid yw'r cyfraddau diweithdra'n cynnwys y rheini sy'n 'anweithgar' yn y farchnad lafur. Mae

37 y cant o bobl rhwng 16 a 24 oed yn anweithgar; bum mlynedd yn ôl, roedd y ffigur hwn ar 31 y cant. Mae cyfran sylweddol o'r rhain mewn addysg amser llawn, sef dau draean ohonynt ledled y Deyrnas Unedig.

**Pobl 16 i 24 oed yng Nghymru**




*Ffynhonnell: ONS*

## Effaith diweithdra ymysg pobl ifanc

Mae i ddiwethdra hirdymor ymysg pobl ifanc nifer o effeithiau niweidiol, a hynny i'r unigolyn ac i gymdeithas fel ei gilydd. Mae hyn yn golygu:

- nad yw Cymru'n manteisio i'r eithaf ar ei photensial i gynhyrchu;
- bod tlodi'n cael ei drosglwyddo o'r naill genhedlaeth i'r llall;
- y gall pobl droi at ddulliau anghyfreithlon o godi incwm a tharfu'n gymdeithasol mewn ffyrdd eraill;
- y gall pobl ifanc gael eu dadrithio, gan deimlo nad ydynt yn cael yr un cyfleoedd ag oedolion eraill;
- bod diweithdra hirdymor ymysg pobl ifanc yn gallu arwain at gyflogau is yn y dyfodol.

## Mynd i'r afael â diweithdra ymysg pobl ifanc

Er mwyn hyrwyddo cyfleoedd gweithio a chyflogadwyedd pobl ifanc, mae angen bod yn integredig a chymryd camau ym meysydd addysg, datblygu sgiliau a'r byd swyddi yn ogystal â chynorthwyo entrepreneuriaid ifanc sydd ag incwm isel. Mae hyn yn gofyn am gyfraniad gan y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, busnesau, y trydydd sector a chyrff anllywodraethol eraill.

## Polisïau Llywodraeth Cymru

Cymerodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru gyfres o gamau i geisio mynd i'r afael â'r diweithdra cynyddol ymysg pobl ifanc. Nod y camau hyn oedd gwella'r cyfleoedd a thorri'r cylch negyddol o ddiweithdra ymhlith y bobl ifanc sy'n fwyaf difreintiedig. Er enghraifft:

- roedd y polisi Llwybrau Dysgu 14-19 a gyflwynwyd yn 2002 yn ceisio cynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg amser llawn ac sy'n symud ymlaen i addysg ôl-16;
- yn 2009-10, sefydlwyd y rhaglen Recriwtiaid Newydd i greu rhagor o gyfleoedd i bobl ifanc i gael prentisiaethau o safon. Cafodd y rhaglen Llwybrau at Brentisiaethau yng Nghymru ei sefydlu er mwyn sicrhau bod modd i bobl ifanc gael hyfforddiant sgiliau o safon pe na bai cyfleoedd i ddilyn prentisiaethau ar gael drwy gyflogaeth;
- yn 2011, cyflwynwyd y Rhaglen Hyfforddeiaeth i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a'r rhaglen Camau at Waith i'r rheini dros 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant.

Mae llawer o'r polisïau hyn wedi cael eu cyflwyno'n rhy ddiweddar i allu mesur eu llwyddiant yn iawn. Bydd asesu eu heffaith ar ddiweithdra ymysg pobl ifanc yn dasg bwysig i'r Pedwerydd Cynulliad.

## Edrych i'r dyfodol


Gan nad yw Cymru wedi llwyr deimlo holl effaith y toriadau yn y sector cyhoeddus eto, ac o gofio bod risg y bydd yr adferiad yn araf neu y bydd dirwasgiad arall, bydd yn hanfodol bod y Llywodraeth newydd yn sicrhau bod ganddi gyfres integredig o bolisïau i atal y cynnydd ac i leihau nifer y bobl ifanc sy'n ddi-waith.

# Cau'r gagendor digidol

**Robin Wilkinson**

**Mae'r gagendor digidol rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig yn dal i gulhau. Er hynny, mae gwahaniaethau sylweddol o hyd i'w gweld yn y gwasanaethau band eang sydd ar gael yng Nghymru ei hun a rhwng Cymru a'r Deyrnas Unedig, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r rheini sy'n llunio polisïau weithredu ar fyrder er mwyn rhwystro pethau rhag gwaethygu.**

**Canran y llinellau nad ydynt yn gallu darparu cyflymder cysylltu o 2 Mbps**




*Ffynhonnell: Adroddiad Terfynol Prydain Ddigidol 2009*

## Cyflymder cysylltiadau band eang:

- 2 Mbps: dyma'r math o gyflymder sy'n angenrheidiol i ddefnyddio iplayer y BBC;
- 30 Mbps: gyda'r cyflymder hwn, gallwch lawrlwytho trac cerddorol cyffredin mewn tua 1.5 eiliad;
- 50 Mbps: gyda'r cyflymder hwn, gallwch lawrlwytho trac cerddorol cyffredin mewn tuag eiliad.

Nid i'r dethol rai yn unig y mae band eang ar gael bellach, ac mae'n rhan greiddiol o fywyd cyfoes. Fodd bynnag, mae'r cysylltiad band eang sydd gan lawer o bobl yng Nghymru yn araf, os oes ganddynt gysylltiad o gwbl.

Oherwydd hyn, tra gallai band eang fod yn ddull pwerus ac egalitaraidd o ddarparu cyfleoedd a gwasanaethau waeth ble mae'r lleoliad, mae perygl y gallai waethygu'r anghydraddoldebau sy'n bodoli eisoes os nad yw ar gael i bawb.

## Cymru ranedig


Mae nifer y bobl sy'n defnyddio band eang wedi cynyddu'n sylweddol yng Nghymru o 25 y cant yn 2005 i 64 y cant yn 2010. Fodd bynnag, mae'r ffigur cadarnhaol hwn yn cuddio nifer o anghydraddoldebau.

Yng Nghymru, mae dwy brif ffordd o gael band eang drwy linell sefydlog: rhwydwaith ffôn copr BT a rhwydwaith cebl Virgin Media. Gyda gwifrau copr, mae'r signal yn dirywio po bellaf ydych o'r gyfnewidfa leol.

Fodd bynnag, tra bo pobl sy'n byw mewn 'mannau gwan' yn ei chael hi'n anodd cael darpariaeth band eang sylfaenol, mae'r sylw wedi troi at 'fand eang y genhedlaeth nesaf', lle mae ffibr optig yn rhoi cyflymder cysylltu gwell o lawer, sef hyd at 50 Mbps ar hyn o bryd. Fel y dengys y map isod, pur wael yw'r ddarpariaeth drwy rwydwaith band eang cebl Virgin Media yng Nghymru. At hynny, mae'r rhwydwaith ffôn symudol 3G yng Nghymru – sy'n ffordd arall o gael band eang – hefyd yn waeth o lawer yng Nghymru nag ydyw ar gyfartaledd drwy'r Deyrnas Unedig.

Pe bai pethau'n cael eu gadael at fympwy'r farchnad, mae'n ymddangos y bydd y gagendor digidol yng Nghymru yn parhau neu hyd yn oed yn gwaethygu. Mae hyn gan nad yw'r achos busnes yn atyniadol i'r sector preifat oherwydd y gost o ddarparu band eang mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.

**Rhwydwaith cebl Virgin Media**




*Ffynhonnell: Ofcom/Virgin Media, Medi 2009*

## Manteision band eang

Mae'r gagendor digidol yn golygu nad yw Cymru a busnesau yng Nghymru o anghenraid yn gallu manteisio ar y buddiannau amlwg sydd i'w cael yn sgil cysylltiadau rhyngrwyd cyflym.

Yn eironig ddigon, y rheini a allai elwa fwyaf o wasanaethau ar-lein yw'r rhai sy'n cael eu gwasanaethu waethaf gan y seilwaith presennol.

### Manteision band eang:

- yn 2008, roedd e-fasnach yn gyfrifol am 21 y cant o holl drosiant busnesau yn y Deyrnas Unedig (yr ail ffigur uchaf yn yr Undeb Ewropeaidd);
- yn 2007, roedd 91 y cant o wasanaethau sylfaenol i ddinasyddion y Deyrnas Unedig ar gael yn llwyr ar-lein;
- mae disgyblion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd at ddibenion addysgol yn fwy tebygol o berfformio'n well na'r rheini heb gysylltiad, a hynny o ryw chwarter gradd TGAU ym mhob pwnc.

Maent yn cynnwys busnesau yn y Gymru wledig a allai ddenu rhagor  o gwsmeriaid ar-lein, ffermwyr a allai wneud ceisiadau am grant ar-lein a phobl mewn cymunedau anghysbell sy'n ei chael yn anodd defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

At hynny, ardaloedd gyda chysylltiad band eang gwael yn aml yw'r rheini sydd â gweithgarwch economaidd cymharol isel, ac mae hynny'n rhwystr arall i'r ardaloedd hyn rhag datblygu.

## Cau'r bwlch

Mae llunwyr polisïau yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Gosododd Llywodraeth ddiwethaf Cymru'r nod o sicrhau bod gan bawb gysylltiad band eang sylfaenol erbyn 2011 (targed yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer hynny yw 2013). Mae'n ceisio sicrhau y bydd gan bob busnes gysylltiad band eang 30 Mbps erbyn 2016, ac felly hefyd bob cartref erbyn 2020 (yn unol â nod yr Undeb Ewropeaidd o sicrhau band eang 30 Mbps i bawb erbyn 2020). Nid yw Llywodraeth y Deyrnas Unedig hyd yma wedi cyhoeddi targedau manwl, ond mae wedi datgan y dylai fod gan Brydain y rhwydwaith band eang gorau yn Ewrop erbyn 2015.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wrthi'n cynnal rhaglen gaffael ar gyfer darpariaeth band eang y genhedlaeth nesaf, ac mae'n bwriadu cyfrannu llai na 50 y cant o gyfanswm y costau o gyfuniad o gyllid cyhoeddus a phreifat ac arian o Ewrop. Bydd amseru a thargedu buddsoddiad cyhoeddus yn hanfodol bwysig, rhag colli buddsoddiad o'r sector preifat a gwastraffu arian cyhoeddus yn sgil hynny.

Hefyd, bydd Llywodraeth Cymru am gael cymaint o gyllid â phosibl gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y Dirprwy Brif Weinidog ar ddechrau 2011 bod yr arian a oedd ar gael gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn llai na hanner y swm y credai yr oedd Cymru'n ei haeddu.

Yr her i Lywodraeth nesaf Cymru, felly, yw gweithredu'n gyflym i roi sylw i'r gagendor digidol heb ffrwyno buddsoddiad preifat. Ond dim ond hanner y frwydr yw hon, gan fod y defnydd o fand eang ar hyn o bryd yn adlewyrchu anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd eraill. Rhaid rhoi sylw hefyd i gynhwysiant digidol os yw band eang yng Nghymru i wireddu'r nod egalitaraidd a roddwyd iddo.

# Costau ynni a thlodi tanwydd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru


**Gareth Thomas**

**Gyda phrisiau ynni'n cynyddu a chostau ynni cartref yn mynd yn uwch, beth ellir ei wneud i leihau lefelau tlodi tanwydd mewn cartrefi yng nghefn gwlad Cymru?**

Tra bo prisiau nwy a thrydan domestig wedi gostwng ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf, mae cynnydd mewn costau ynni cyfanwerthol, costau rhaglenni amgylcheddol a buddsoddi mewn seilwaith rhwydwaith wedi cyfrannu tuag at brisiau ynni cynyddol dros y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf.

Yn ystod gaeaf 2010, cyhoeddodd pump o chwe phrif gwmni ynni'r Deyrnas Unedig gynnydd mewn prisiau nwy a / neu drydan domestig, gan sbarduno Ofgem i gynnal adolygiad o'r farchnad fanwerthu. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r adolygiad hwn ym mis Mawrth 2011 ynghyd â manylion am y camau y credir y dylid eu cymryd er budd defnyddwyr.

**Mynegai Prisiau Manwerthu'r Deyrnas Unedig: Mynegai Prisiau Tanwydd, 2005 = 100**




*Ffynhonnell: DECC*

## Sut mae costau cynyddol ynni wedi effeithio ar gymunedau gwledig Cymru?

Mae cartrefi gwledig yn aml yn defnyddio tanwydd ac eithrio nwy i wresogi eu cartrefi gan eu bod yn fwy tebygol o fod oddi ar y prif rwydwaith nwy. Yn 2010, talodd defnyddwyr yn ardal dosbarthu trydan de Cymru hyd at £25 yn fwy na'r cyfartaledd Prydeinig, a thalodd defnyddwyr yn y gogledd hyd at £13 yn fwy. Mae ardal dosbarthu trydan de Cymru'n cynnwys nifer o ardaloedd tenau iawn eu poblogaeth fel yr ardaloedd mynyddig yn y canolbarth, sy'n cynyddu costau dosbarthu trydan.

Mae cartrefi sydd oddi ar y prif rwydwaith nwy yn fwy tebygol o ddefnyddio nwy petrolewm hylifedig (LPG) neu olew gwresogi i wresogi eu tai, sy'n cynyddu'u gwariant ar gostau gwresogi yn sylweddol.

Mae prisiau olew crai'n effeithio'n arbennig ar gostau olew gwresogi. Cynyddodd y rhain rhwng 2004 a 2008, ac maent wedi dechrau cynyddu eto ers ail hanner 2009 oherwydd cynnydd ym mhrisiau olew crai'r byd.

**Tlodi tanwydd: Diffiniad**

Mae teulu'n byw mewn tlodi tanwydd os yw'n gwario mwy na 10 y cant o'i incwm ar danwydd i gadw lefel y gwres yn ddigon uchel.

## Pam fod lefelau tlodi tanwydd yn uwch mewn cymunedau gwledig?

Yn 2008, amcangyfrifwyd bod 332,000 o gartrefi yng Nghymru'n dioddef o dlodi tanwydd, cynnydd o 194,000 o gartrefi ers 2004.

Yng nghefn gwlad Cymru roedd cyfran y cartrefi a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd yn 42 y cant yn 2008; bron i ddwbl lefel y tlodi tanwydd mewn ardaloedd trefol, a oedd yn 22 y cant.


***Mae lefelau tlodi tanwydd yng nghefn gwlad Cymru bron i ddwbl y lefelau mewn ardaloedd trefol***

Mae'r ffactorau hyn yn cael effaith sylweddol ar lefelau tlodi tanwydd mewn cartrefi gwledig, ac maent yn cyfrannu tuag at lefelau uwch o dlodi tanwydd. Mae ymchwil yn awgrymu bod 25 y cant o gartrefi yng nghefn gwlad Cymru'n byw ar lai na 60 y cant o incwm canolrifol y Deyrnas Unedig.

**Y prif ffactorau sy'n effeithio ar dlodi tanwydd:**

- lefelau incwm;
- effeithiolrwydd ynni;
- prisiau ynni.

**Cyfartaledd cost gwresogi tŷ pâr 3 llofft yng Nghymru yn 2010 yn ôl y dull o wresogi (mewn £)**




*Ffynhonnell: NEA Cymru*

Mae trigolion ardaloedd gwledig hefyd yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tai mwy a hŷn, sy'n aml yn fwy anodd i'w gwresogi. At hynny, mae'r technolegau ynni effeithiol sydd ar gael yn brinnach ac ar y cyfan yn ddrutach.

Mae cymunedau gwledig yn fwy tebygol o fod oddi ar y prif rwydwaith nwy, sy'n cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cartref yn wynebu tlodi tanwydd, ac mae'n cynyddu'r gost o osod mesurau effeithlonrwydd ynni. Yn 2008, roedd 44 y cant o gartrefi Cymru a oedd oddi ar y prif rwydwaith nwy yn wynebu tlodi tanwydd, o'i gymharu â 23 y cant o gartrefi a oedd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith.

## A fydd y cynlluniau presennol yn helpu i leihau tlodi tanwydd yng nghefn gwlad?

Cred Ofgem ei bod yn annhebygol y bydd prisiau ynni'n dychwelyd i'r lefelau cymharol isel a welwyd ar gychwyn yr unfed ganrif ar hugain. Yn sgil hyn, mae cwestiynau'n codi ynghylch yr hyn y gellir ei wneud yng Nghymru i leihau lefelau tlodi tanwydd mewn cymunedau gwledig.

Gan fod prisiau ynni a lefelau incwm a budd-daliadau yn feysydd nad ydynt wedi'u datganoli, mae camau uniongyrchol Llywodraeth flaenorol Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd wedi canolbwyntio'n gyffredinol ar fesurau effeithlonrwydd ynni drwy raglenni fel y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES) a'r cynllun Arbed. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi rhoi cyngor i berchnogion tai ar sut i wneud y gorau o'u hincwm a sut i leihau costau ynni drwy'r cynlluniau hyn a'r cynllun Nest.

Awgrymwyd nad yw'r camau i arbed ynni sy'n cael eu hariannu gan y cyflenwyr i'w gweld mewn ardaloedd gwledig gan fod y camau hyn yn tueddu i ganolbwyntio ar yr ardaloedd trefol mwy cost-effeithiol.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan y Llywodraeth na fu'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref, a fu'n mynd rhagddo tan fis Mawrth 2011, mor llwyddiannus o ran helpu teuluoedd a oedd yn dioddef o dlodi tanwydd ac a oedd yn byw mewn tai anodd eu trin mewn ardaloedd gwledig. Wynebodd y cynllun feirniadaeth hefyd am fethu â darparu atebion mewn ardaloedd gwledig. Cafodd y cynllun ei ddisodli gan y cynllun tlodi tanwydd Nest ym mis Ebrill 2011, a bydd yn targedu cartrefi anodd eu trin mewn ardaloedd gwledig fel rhan o ddull sy'n edrych ar y cartref cyfan wrth arbed ynni.

Amser a ddengys a fydd y cynllun newydd hwn yn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau gwledig ac a fydd dull sydd wedi'i dargedu'n well tuag at dlodi tanwydd yng nghefn gwlad yn un mwy effeithiol.

# Sut y byddwn yn talu am ein seilwaith trafnidiaeth yn y dyfodol?

**Graham Winter**

**Bydd rhagor o fuddsoddi i wella ffyrdd a rheilffyrdd yng Nghymru yn hanfodol i adfywio economi Cymru, ond bydd y cyllid cyhoeddus ar gyfer ariannu cynlluniau o'r fath yn cael ei gwtogi'n arw dros y blynyddoedd nesaf.**

## Yr achos dros fuddsoddi

Mae'r diffyg buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth cynaliadwy o safon yn un o brif bryderon y gymuned fusnes yng Nghymru. Mae achos economaidd cryf dros dargedu seilwaith newydd, a gallai Cymru fod ar ei hennill yn sylweddol yn sgil hynny. Prosiectau llai sy'n lleddfu'r pwysau mewn mannau prysur, yn ogystal â chynlluniau i gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus mewn mannau trefol, sy'n fwyaf tebygol o ddod ag enillion. Gall hynny fod yn fwy na £10 ar gyfer pob punt a gaiff ei gwario mewn rhai achosion.

Roedd Rhaglen Adfywio'r Economi Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn galw am roi pwyslais ar fuddsoddi mewn gwelliannau i ffyrdd a rheilffyrdd ledled Cymru, a hynny fel ffordd bwysig o adfywio'r economi ar ôl y dirywiad diweddar.

## Cynlluniau yn y dyfodol

Mae Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd yn 2010, yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol o welliannau i ffyrdd dros y pum mlynedd nesaf hyd at 2015, gan gynnwys:

- rhagor o welliannau i gefnffordd yr A470 rhwng y gogledd a'r de;
- y gwaith o ddeuoli ffordd Blaenau'r Cymoedd, sef yr A465, erbyn 2020;
- cyfres o fesurau i leddfu'r pwysau ar yr M4 yn y de-ddwyrain.

Mae'r gwelliannau i'r rheilffyrdd yn y cynllun yn cynnwys:

- cael gwared ar y cyfyngiadau capasiti ar y brif linell rhwng Wrecsam a Chaer ac yn y gorllewin ger Tre Gŵyr;
- rhagor o fuddsoddi i wella capasiti rhwydwaith llinellau'r Cymoedd.

Bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau hyn yn dibynnu ar gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru. Pan fydd llinellau rheilffordd yn cael eu gwella a phlatfformau'n cael eu hymestyn, mae angen canfod arian hefyd i dalu am y gwasanaethau a'r cerbydau ychwanegol y bydd eu hangen yn dilyn y buddsoddiad cyfalaf.

Mae cynlluniau hefyd i fuddsoddi'n drwm yn y rheilffyrdd yn y dyfodol, gan gynnwys trydanu prif linell y de a llinellau Caerdydd a'r Cymoedd. Ni all hyn ddigwydd heb gyllid sylweddol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan nad yw'r cyfrifoldeb dros gynlluniau o'r fath wedi'i ddatganoli i Gymru ar hyn o bryd. Bydd trydanu prif linell y de o Didcot drwy Fryste yn debygol o gostio o leiaf £700 miliwn neu'n agosach at £1 biliwn os bydd y prosiect yn mynd yr holl ffordd i Abertawe yn y pen draw.

Y tu hwnt i hyn, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi ymuno â'i gilydd i greu Partneriaeth Great Western i ymgyrchu dros linell reilffordd gyflym newydd i gario trenau ar gyflymder o dros 200 milltir yr awr o Gymru a gorllewin Lloegr i Lundain ac ymlaen i weddill Ewrop. Byddai llinell o'r fath yn costio biliynau o


bunnoedd, a byddai'n cynnwys codi pont newydd dros afon Hafren, neu gloddio twnnel newydd oddi tani.

## Yr adolygiad cynhwysfawr o wariant

Cafodd adolygiad cynhwysfawr o wariant Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig yn ystod yr hydref y llynedd effaith ddilynol ar grant bloc Cymru, ac mae'n debygol y bydd yr arian a fydd ar gael ar gyfer cynlluniau ffyrdd a rheilffyrdd yn brin iawn dros y blynyddoedd nesaf. Roedd y gyllideb a osodwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru yn cynnwys gostyngiad o fwy na 35 y cant mewn gwariant cyfalaf ar drafnidiaeth mewn termau real dros y tair blynedd nesaf.

Defnyddiwyd arian yr Undeb Ewropeaidd mewn ardaloedd cymwys i ategu cyllidebau trafnidiaeth ond ni fydd hyn yn gallu gwneud iawn am y gostyngiadau yn y gyllideb dros y blynyddoedd nesaf.

**Gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf ar gyfer trafnidiaeth (£ miliynau)**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## O ble arall y gellir cael arian?

Ar hyn o bryd, ni all Llywodraeth Cymru fenthyg arian yn uniongyrchol, ond gall awdurdodau lleol wneud hynny.

Nid yw'r gwahanol ffyrdd o gyllido prosiectau trafnidiaeth gan ddefnyddio arian preifat yn newydd. Gwnaed gwelliannau i ran o gefnffordd yr A55 ac adeiladwyd ffordd ddosbarthu De Casnewydd o dan fenter cyllid preifat. Nid oedd Llywodraeth flaenorol Cymru'n ffafrio defnyddio mentrau cyllid preifat ar gyfer prosiectau trafnidiaeth tan ddiwedd ei chyfnod mewn grym, pan ddechreuodd eu gweld mewn golau mwy ffafriol.

### Dau opsiwn ar gyfer cyllido trafnidiaeth yn y dyfodol:

**Mentrau Cyllid Preifat** – math o Bartneriaeth Cyhoeddus-Preifat lle bydd y sector preifat yn darparu ased yn erbyn manyleb o ganlyniadau angenrheidiol a baratowyd gan y sector cyhoeddus. Y sector preifat sy'n gyfrifol am gynllunio, ariannu, adeiladu, cynnal a chadw a gweithredu'r seilwaith. Y sector cyhoeddus sy'n talu am y prosiect dros nifer o flynyddoedd.

**Prisio Ffyrdd** – codi tâl yn uniongyrchol am ddefnyddio ffyrdd. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys dulliau traddodiadol sy'n defnyddio tollau, yn ogystal â chynlluniau mwy modern o gasglu tollau'n electronig, fel Taliad Tagfa Llundain.

Sefydlodd y Llywodraeth flaenorol yn yr Alban y Scottish Futures Trust i ganfod modelau ariannu newydd. Hyd yn hyn, mae gan yr Ymddiriedolaeth ddau fodel ar waith. Un o'r rhain yw Ariannu Cynyddrannol Treth, sy'n ddull tebyg i'r un a ddefnyddir yn Unol Daleithiau America lle bydd awdurdodau lleol yn benthyg arian i wneud gwaith adfywio ac i wella'r seilwaith, a hynny yn erbyn eu hincwm yn y dyfodol o ardrethi busnes.


Mae'n amlwg y bydd angen i Lywodraeth newydd Cymru fabwysiadu dull strategol o edrych ar fodelau amgen o ariannu seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys ffurfiau amrywiol o Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat, os yw am roi'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar waith yn llwyddiannus dros y blynyddoedd nesaf, ynghyd â phrosiectau trafnidiaeth yn y tymor hwy.

# Llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin ynteu'r gogledd a'r de? Blaenoriaethau strategol ar gyfer seilwaith trafnidiaeth Cymru

**Andrew Minnis**

**Caiff pwysigrwydd economaidd a chymdeithasol trafnidiaeth yng Nghymru ei gydnabod yn eang. Fodd bynnag, a ddylid canolbwyntio ar y llwybrau rhwng y gorllewin a'r dwyrain, draw i Loegr a'r tu hwnt, ynteu anelu at gydbwysedd drwy gael llwybrau gwell rhwng y gogledd a'r de?**

**Prif gysylltiadau trafnidiaeth Cymru**




Ffynhonell: Y Gwasanaeth Ymchwil.

Hawlfraint a hawliau cronfeydd data y Goron.
Arolwg Ordnans 100047295.

Mae rhwydwaith trafnidiaeth Cymru'n seiliedig ar ffactorau daearyddol a hanesyddol. Mae'r mynyddoedd yn y canolbarth, lleoliad y meysydd glo, a phwysigrwydd y cysylltiadau economaidd â chanolfannau diwydiannol Lloegr wedi crynhoi'r boblogaeth a diwydiant ar arfordiroedd y gogledd a'r de.

Y coridorau trafnidiaeth prysuraf yng Nghymru yw'r llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin ar hyd arfordiroedd y gogledd a'r de, sy'n rhan o rwydwaith trafnidiaeth strategol Ewrop. Mae cefnffyrdd a chysylltiadau rheilffordd yn cysylltu porthladd Caergybi â Manceinion a Lerpwl, tra bo porthladdoedd y de-orllewin yn cysylltu â'r dinasoedd yn ne Cymru, de Lloegr ac, yn y pen draw, Ewrop.

Mae'r cysylltiadau ffordd a rheilffordd rhwng y dwyrain a'r gorllewin hefyd yn cysylltu Aberystwyth â chanolbarth Lloegr, tra bo rheilffordd Calon Cymru yn cysylltu Abertawe â'r Amwythig. Fodd bynnag, mae llai o bobl yn defnyddio'r rhain gan fod poblogaeth y canolbarth yn fwy gwasgarog.

Gan fod y prif ganolfannau poblogaeth ac economaidd yng Nghymru yn y gogledd a'r de, a chan fod y llwybrau trafnidiaeth yn canolbwyntio ar gyrraedd gweddill y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt, mae'r galw am gysylltiadau rhwng y gogledd a'r de yn gymharol isel. Mae'r prif rwydwaith trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de ar hyn o bryd yn cynnwys:

- rhwydwaith o gefnffyrdd rhwng y gogledd a'r de, sy'n ffurfio ffigwr '8' ac yn cysylltu pedair cornel Cymru;
- rheilffordd y Gororau, sy'n cysylltu lleoliadau ar arfordiroedd y gogledd a'r de drwy'r Amwythig a Crewe; a
- gwasanaeth awyr dyddiol rhwng gogledd a de Cymru.

## Effaith economaidd a chymdeithasol trafnidiaeth

Yn ôl Adroddiad Eddington yn 2006, mae buddion economaidd trafnidiaeth yn cynnwys:

- twf economaidd drwy'r cynnydd mewn cynhyrchu/defnyddio nwyddau a gwasanaethau, a chynhyrchiant gwell;
- ymateb gwell i newid economaidd strwythurol;
- ansawdd bywyd gwell (er enghraifft, oherwydd yr amser hamdden sydd ar gael).

Yn fwy diweddar, cafwyd cydnabyddiaeth o bwysigrwydd trafnidiaeth wrth fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol yng Nghymru. Nododd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008 mai Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Gwynedd a Sir Fynwy yw'r awdurdodau lleol lle ceir y mwyaf o amddifadedd yng Nghymru o ran mynediad at wasanaethau. Mae cynllunwyr trafnidiaeth wedi cael eu hannog i ystyried mynediad at wasanaethau a swyddi ledled Cymru i fynd i'r afael â'r materion hyn.

## Yr achos o blaid datblygu cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de

Mae'r rheini sydd o blaid cydbwyso'r blaenoriaethau rhwng llwybrau o'r gogledd i'r de ar y naill law, ac o'r dwyrain i'r gorllewin ar y llall, yn dadlau bod yr angen i ddatblygu cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de wedi cynyddu yn ystod y degawd diwethaf. Mae'r ffaith bod y Cynulliad Cenedlaethol a sefydliadau cenedlaethol eraill wedi cael eu sefydlu yn y de wedi newid bywyd cymdeithasol a gwleidyddol Cymru ac wedi cynyddu'r galw am deithio rhwng y gogledd a'r de.

Yn ogystal, mae'r amseroedd teithio rhwng y gogledd a'r de, sy'n hanfodol ar gyfer busnesau yn y canolbarth a'r rheini sy'n masnachu yng Nghymru, yn annigonol. Byddai amseroedd teithio byrrach yn dod â buddion economaidd sylweddol, a byddai hynny'n gwella iechyd pobl ynghyd â diogelwch ar y ffyrdd gan y byddai llai o

deithwyr yn teimlo o dan straen ac y byddai'r risg o ddamweiniau'n is.

Yn olaf, byddai amseroedd teithio byrrach a chostau teithio is yn gwella'r cyfleoedd am swyddi i'r boblogaeth wledig, ac yn gwella'r mynediad at wasanaethau yn y canolbarth sy'n angenrheidiol i leihau amddifadedd.

## Gwella'r llwybrau rhwng y dwyrain a'r gorllewin

Mae'r rheini sy'n rhoi blaenoriaeth i gysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn ystyried bod cysylltiadau gwell rhwng y gogledd a'r de yn amcan tymor hwy.

Ar hyn o bryd, mae 'mannau prysur' pwysig a diffyg gwydnwch y rhwydweithiau ffordd a rheilffordd ar goridorau allweddol y dwyrain a'r gorllewin yn amharu ar gysylltiadau economaidd allweddol y tu allan i Gymru. Mae'n rhaid mynd i'r afael â hyn er mwyn galluogi Cymru i ymdopi a'r galw yn y dyfodol, a thrwy hynny alluogi'r canolfannau poblogaeth ac economaidd yn y gogledd a'r de i gynnal economi Cymru.

Mae'r ffaith bod rhwydweithiau cludo nwyddau Cymru a Lloegr wedi'u hintegreiddio yn golygu bod dibyniaeth ar y coridorau strategol rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Mae cysylltiadau ffordd a rheilffordd annigonol wedi atal porthladdoedd Cymru rhag datblygu'n llawn fel canolfannau economaidd. At hynny, mae'r llwybrau dros y tir i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn annigonol, a bu gostyngiad cyson yn y nifer sy'n defnyddio'r maes awyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hynny'n cynyddu dibyniaeth Cymru ar seilwaith awyr y tu allan i'r wlad. Felly, bydd llwybrau dros y tir i Heathrow, maes awyr Manceinion a meysydd awyr eraill yn Lloegr yn bwysig iawn am sawl blwyddyn arall.

Yn olaf, mae'r sylwebyddion sy'n rhoi blaenoriaeth i'r cysylltiadau rhwng y dwyrain a'r gorllewin yn awgrymu bod risg o gael canlyniadau na chafodd eu rhagweld wrth wella'r seilwaith trafnidiaeth rhwng y gogledd a'r de. Er mai bwriad hynny yw adfywio ardaloedd, nid ydynt yn ystyried y polisïau cymdeithasol, economaidd a gofodol ehangach yn llawn. Er enghraifft, mae modd dadlau y gall gwella trafnidiaeth er mwyn datblygu gwasanaethau a lleihau amddifadedd mewn rhanbarthau ymylol arwain at ganoli'r gwasanaethau hynny, wrth iddynt ddod yn haws i'w cyrraedd o'r ardaloedd ymylol.

Yr her i Lywodraeth nesaf Cymru fydd cydbwyso'r ddau safbwynt, gan gofio y bydd toriadau i'r gwariant cyfalaf ar drafnidiaeth o fwy na 35 y cant mewn termau real rhwng 2010-11 a 2013-14.





Pennod 4 –
# Diwygio gwasanaethau cyhoeddus

- A yw economi Cymru'n orddibynnol ar y sector cyhoeddus?

- Llywodraeth leol yng Nghymru: Amser am newid?

- Dyfodol y wladwriaeth les

# A yw economi Cymru'n orddibynnol ar y sector cyhoeddus?

**Dr. Eleanor Roy a Martin Jennings**

**Disgwylir i wariant y sector cyhoeddus ostwng dros 10 y cant mewn termau real dros y pedair blynedd nesaf. Mae hyn yn debygol o effeithio'n drwm ar economi Cymru, gan fod cyfran y gweithwyr sy'n cael eu cyflogi yn y sector cyhoeddus ar gyfartaledd yn llawer uwch yng Nghymru nag yn y Deyrnas Unedig.**

## Effaith adolygiad o wariant y Deyrnas Unedig 2010


Dros y pedair blynedd nesaf, rhagwelir y bydd grant bloc Cymru yn gostwng £2 biliwn, neu 12 y cant mewn termau real.  Disgwylir i ddyraniadau cyfalaf ostwng dros 40 y cant, tra bydd refeniw yn gostwng 8 y cant mewn termau real.

Bydd y gostyngiadau hyn mewn gwariant yn cael effaith uniongyrchol ar staffio yn y sector cyhoeddus a bydd effeithiau canlyniadol sylweddol ar yr economi'n ehangach. Er enghraifft, gallai'r gostyngiad mawr mewn cyfalaf gael effaith sylweddol ar y diwydiant adeiladu. Byddai angen cryn dwf mewn cyflogaeth yn y sector preifat er mwyn cydbwyso'r gostyngiadau hyn.

## Economi Cymru

Ymddengys mai economi Cymru yw un o'r rhai gwannaf yn rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae'r ystadegau diweddaraf ar Werth Ychwanegol Crynswth rhanbarthol yn dangos ei fod wedi gostwng 2.2 y cant yng Nghymru yn 2009 o'i gymharu â'r hyn a ddigwyddodd yn 2008.

**Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus fel canran o'r gweithlu cyfan, Hydref – Rhagfyr 2010**




*Ffynhonnell: ONS*

Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru yw'r Gwerth Ychwanegol Crynswth isaf y pen o holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig.

Mae rhagolygon twf y dyfodol hefyd yn ansicr. Roedd adroddiad diweddar yn rhagweld twf cyfartalog o 1.6 y cant dros y 10 mlynedd nesaf yng Nghymru, o'i gymharu â 2.2 y cant ledled y Deyrnas Unedig.

## Cyflogaeth yn y sector cyhoeddus

Mae rhagolygon diweddaraf y Swyddfa dros Gyfrifoldeb am y Gyllideb yn amcangyfrif y bydd cyflogaeth yn y sector cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn gostwng tua 400,000 rhwng 2010-11 a 2015-16.

Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y byddai tua 30,000 o swyddi yn y sector cyhoeddus yng Nghymru'n cael eu colli o ganlyniad i'r gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus.

Roedd y sector cyhoeddus yng Nghymru'n cyflogi 342,000 o bobl ym mhedwerydd chwarter 2010. Mae hyn yn cyfrif am 26.4 y cant o'r gweithlu cyfan yng Nghymru, o'i gymharu â 21.4 y cant ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan. Dyma'r ail o'r brig o holl ranbarthau'r Deyrnas Unedig.

Yn ychwanegol at y rhai sy'n cael eu cyflogi gan y sector cyhoeddus datganoledig, mae gan nifer o asiantaethau'r Deyrnas Unedig gyfan bresenoldeb amlwg yng Nghymru, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw reolaeth drostynt. Ymhlith y rhain mae'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau, Tŷ'r Cwmnïau, Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig a'r Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y staff yn Nhŷ'r Cwmnïau ac yn y Gwasanaeth Hunaniaeth a Phasbortau eisoes.

Bydd yn hanfodol bod y Llywodraeth newydd yn lleihau effaith toriadau yn y sector cyhoeddus ar economi Cymru.

# Llywodraeth leol yng Nghymru: Amser am newid?

**Rhys Iorwerth**

**Mae awdurdodau lleol yn wynebu heriau cynyddol i gydweithio. A allai hyn arwain at ad-drefnu arall mewn llywodraeth leol cyn hir?**

Mae'r broses o ddiwygio'r sector cyhoeddus wedi bod ymhlith blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ers dyddiau cynnar datganoli.

Tra bo datblygiadau yn Lloegr wedi canolbwyntio ar greu elfen o gystadleuaeth rhwng gwasanaethau lleol, mae'r broses yng Nghymru wastad wedi bod yn seiliedig ar yr angen i gydweithio, gyda chydweithredu rhwng cyrff cyhoeddus yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn i'r cyrff hynny fod yn fwy effeithlon.




Ffynhonell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'r Gwasanaeth Ymchwil.
Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2011. Arolwg Ordnans 100047295.

Gyda'r hinsawdd economaidd yn gyrru'r cyfan yn ei flaen, mae'r anogaeth i gydweithio wedi bod yn fwy nag erioed yn y misoedd diwethaf. I awdurdodau lleol, mae cydweithredu bellach yn cael ei weld yn fater o raid.

Roedd Llywodraeth ddiwethaf Cymru yn gwadu'n llwyr bod ad-drefnu llywodraeth leol yn fwriad ganddi.

Eto, gyda Gweinidogion yn gallu rhoi mwy o bwysau ar awdurdodau i gydweithio, byddai llawer o bobl yn dadlau ei bod yn bryd edrych eto i weld a oes angen addasu strwythur llywodraeth leol yng Nghymru.

## Yr achos o blaid ad-drefnu

Bu pobl yn beirniadu'r ffaith bod gennym gynifer â dau awdurdod ar hugain ers creu'r strwythur hwnnw yn ôl yn 1996. Nid yw'r sefyllfa ariannol sydd ohoni wedi gwneud dim ond atgyfnerthu'r dadleuon y dylid cwtogi nifer yr awdurdodau. Byddai'r prif resymau dros wneud hynny fel a ganlyn:

- mae'r strwythur presennol yn anghynaliadwy. Ceir 22 o awdurdodau sy'n darparu ac yn dyblygu'r un gwasanaethau. Mae llawer o'r awdurdodau yn rhy fach i wneud unrhyw arbedion maint sylweddol;
- nid yw cydweithio, sydd wedi'i annog gan Weinidogion Cymru yn y gorffennol, yn datrys dim. Mae angen amser a chyllid cychwynnol, ac nid yw'n gwneud dim ond osgoi'r ffaith bod angen ad-drefnu yn y pen draw. Dangoswyd pa mor anodd yw cydweithio'n llwyddiannus wrth i brosiect Cydwasanaethau De-Ddwyrain Cymru fynd i'r wal yn 2010 – a hwnnw wedi ceisio dod â deg awdurdod lleol ynghyd i rannu gwasanaethau cefn swyddfa;
- er nad oedd adroddiad Beecham o blaid ad-drefnu yn 2006, dywedwyd y byddai'n rhaid i gynghorau wneud cynnydd sylweddol gyda chydweithio erbyn 2011 neu byddai ad-drefnu yn ôl ar yr agenda. Byddai llawer o bobl yn cwestiynu a oes cynnydd o'r fath wedi'i wneud;
- yn y pen draw, ad-drefnu yw'r unig ffordd o wneud arbedion yn y tymor hwy.

### Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Mae *Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011* wedi rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyfuno cynghorau ac i gyhoeddi canllawiau statudol ar gydweithio, tra cafwyd sawl argymhelliad yn adroddiad Simpson ym mis Mawrth 2011 yn awgrymu y dylid cyflwyno rhagor o drefniadau cydweithio rhwng awdurdodau.

## Beth am y gwrthwynebiadau?

Byddai pobl eraill yn dadlau mai ad-drefnu yw'r peth olaf a ddylai fod ar ein meddyliau mewn cyfnod mor anodd. Byddent yn honni mai gwastraff amser ac adnoddau fyddai gwneud newidiadau strwythurol ar lefel mor fawr.

Mae adroddiad diweddar Simpson yn datgan yn glir y dylid gwneud newidiadau drwy gydweithio yn hytrach nag ad-drefnu, a hynny gan fod angen i wasanaethau barhau i gael eu trefnu'n lleol. Er nad yw cydweithio'n hawdd, ac er mai prin fu'r ewyllys gwleidyddol dros wneud hynny yn y gorffennol, bydd camau diweddar gan Weinidogion Cymru yn golygu y bydd yn rhaid i awdurdodau gydymffurfio. Gyda'r fath ymdrech, gall cydweithio lwyddo.

### Y pwyslais ar gydweithio

Yn y strategaeth 'Creu'r Cysylltiadau' yn 2004 y mynegwyd am y tro cyntaf weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer annog cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus. Cafodd y weledigaeth sêl bendith adroddiad Beecham yn 2006 ac mae wedi'i hailddatgan mewn sawl strategaeth arall ers hynny. Mae'n ymddangos i argyfwng ariannol 2008 argyhoeddi Gweinidogion bod yn rhaid i gydweithio lwyddo.

Mae adroddiad Simpson yn awgrymu bod yr egni sydd ei angen i ad-drefnu mor sylweddol nes y byddai'n rhwystro awdurdodau rhag canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau. Mae'r ffaith nad oedd adroddiad Beecham yn gwrthwynebu system o gydweithio cyn belled ag y gellid ei gwella yn cadarnhau hyn.

## A yw'r sylw yn y lle iawn?

Mae sylwebwyr eraill wedi awgrymu ein bod yn anwybyddu rhai o'r materion pwysicaf drwy ganolbwyntio ar y posibilrwydd o ad-drefnu yn unig. Mae'r Athro Steve Martin, er enghraifft, wedi sôn am yr angen i gael ateb sy'n seiliedig ar wasanaethau gwahanol, gan y byddai'r maint cyngor delfrydol ar gyfer rhai gwasanaethau yn wahanol iawn i'r maint delfrydol ar gyfer gwasanaethau eraill (gwasanaethau rheoli gwastraff ac addysg, er enghraifft). Mewn rhai achosion, efallai bod cyrff llai yn hytrach na rhai mwy o faint yn fwy ffafriol.

Mae'n bosibl bod materion eraill yn bwysicach hefyd, fel natur sylfaenol y berthynas rhwng y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, a'r amrywiad yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan wahanol awdurdodau mewn gwahanol ardaloedd.

Ym mha ffurf bynnag, mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn gwario tua £4 biliwn y flwyddyn ar eu gwasanaethau. Amser a ddengys a fyddant yn dal i wneud hynny o fewn y strwythurau presennol.

### Poblogaethau awdurdodau lleol

Mae maint awdurdodau lleol Cymru yn amrywio'n fawr.

Tra bo Cyngor Caerdydd yn gwasanaethu tua 325,000 o drigolion, dim ond 69,000 o bobl y mae cynghorau eraill yn Ynys Môn a Blaenau Gwent yn eu gwasanaethu, a dim ond 56,000 ym Merthyr Tudful.

# Dyfodol y wladwriaeth les

**Hannah Johnson**

**Wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyflwyno'r newidiadau mwyaf i'r system fudd-daliadau mewn 60 mlynedd, sut fydd Cymru'n ymdopi?**

Mae Cymru'n dibynnu'n drymach ar y wladwriaeth les nag unrhyw ran o Brydain, gyda bron i 19 y cant o bobl o oedran gweithio yn hawlio budd-daliadau o'i gymharu â chyfartaledd o 15 y cant drwy Brydain.


Bydd diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn newid egwyddorion sylfaenol y system les, o un sy'n seiliedig ar undod cymdeithasol i system sy'n cymell pobl i weithio yn hytrach na hawlio cymorth. Prif amcan y newidiadau hyn yw sicrhau nad yw pobl ddi-waith sy'n hawlio budd-daliadau yn cael mwy o arian na phobl sy'n ennill cyflogau.

Mae hyn wedi codi cwestiynau am brinder swyddi, sy'n fwy o broblem mewn rhannau o Gymru nag yng ngweddill Prydain. Ar gyfartaledd, ceir 5.7 o geisiadau am bob swydd wag mewn Canolfannau Gwaith drwy Brydain. Mewn rhannau o dde Cymru, mae'r ffigur mor uchel ag 17.

***Ar gyfartaledd, ceir 5.7 o geisiadau am bob swydd wag mewn Canolfannau Gwaith drwy Brydain. Mewn rhannau o dde Cymru, mae'r ffigur mor uchel ag 17***

Ac ystyried bod Cymru hefyd yn dibynnu ar swyddi yn y sector cyhoeddus yn fwy nag ar gyfartaledd, a bod ganddi boblogaeth uchel o bobl anabl a phobl hŷn, mae'n amlwg y bydd diwygio'r system les yn fater o bwys gwleidyddol yng Nghymru am gryn amser.

**Canran y boblogaeth o oedran gweithio sy'n hawlio budd-daliadau**




*Ffynhonnell: DWP*

## Diwygiadau lles y Deyrnas Unedig

Nod diwygiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw symleiddio'r system fudd-daliadau, arbed arian ar gostau gweinyddol a chymell rhagor o bobl i ddod o hyd i waith.

Mae'r *Bil Diwygio Lles 2011* yn cyflwyno:

- un 'credyd cynhwysol' o 2013 ymlaen;
- newidiadau treth i alluogi pobl i gadw mwy o incwm;
- newidiadau i'r Lwfans Byw i'r Anabl;
- adolygu lefelau absenoldeb salwch;
- sancsiynau i'r rheini sy'n gwrthod gweithio, gan gynnwys colli budd-daliadau am hyd at dair blynedd;
- uchafswm blynyddol ar gyfer budd-daliadau o ryw £26,000 i bob teulu.

## A fydd y newidiadau yn llwyddiant yng Nghymru?

Bu cryn feirniadu gan fod diffyg manylion ar gael am y diwygiadau hyn, gyda sawl un yn honni eu bod yn symleiddio'n ormodol system sydd o reidrwydd yn un gymhleth.

Efallai hefyd nad yw symud oddi wrth ddarpariaeth dorfol tuag at system unigolyddol yn cyd-fynd yn gyfforddus â nifer o bolisïau presennol Llywodraeth Cymru, sy'n rhoi mwy o sylw i gyfiawnder cymdeithasol a darpariaeth gynhwysol.

Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth newydd Cymru ymdopi â'r ffaith mai prin yw'r gallu a fydd ganddi i ddeddfu er mwyn dylanwadu ar bolisïau lles, sy'n golygu y bydd yn rhaid canolbwyntio ar feysydd eraill fel datblygu economaidd a lles cymdeithasol er mwyn ymateb i oblygiadau polisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae cyfyngiadau datganoli yn golygu bod gan Gymru a'r Alban seneddau sy'n gallu cyflwyno polisïau cymdeithasol ond heb fod â dylanwad dros nawdd cymdeithasol. '

### Y credyd cynhwysol

Y prif newid sy'n cael ei gynnig yw cyflwyno math newydd o fudd-dal o fis Hydref 2013, sef y credyd cynhwysol.

Bydd y credyd cynhwysol yn **disodli amryw o fudd-daliadau diweithdra a chredydau treth gwaith presennol,** gan gynnwys y Cymhorthdal Incwm, y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, y Budd-dal Tai a Chredydau Treth.

**Un taliad misol i'r cartref** fydd y credyd cynhwysol, a fydd yn cael ei **ostwng ar gyfradd o 65 ceiniog am bob punt o gyflog net** yn achos y rheini sy'n gweithio (cyfradd 'tapr' fydd yr enw ar hyn). I rai pobl, bydd cyfran o'r cyflog yn cael ei 'diystyru' cyn i'r tapr gael ei ddefnyddio.

## Mwy o effaith yng Nghymru?

Mae'n debygol y bydd y newidiadau i rai budd-daliadau'n cael mwy o effaith yng Nghymru nag yn Lloegr oherwydd ffactorau demograffig ac economaidd gwahanol.

> ***Gan Gymru y mae'r ganran uchaf o bobl anabl ym Mhrydain, ac mae bron i 10 y cant o'r holl boblogaeth sydd o oedran gweithio yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd***

Mae'n bosibl y bydd pobl anabl a'r rheini sy'n dioddef o salwch hirdymor yn enwedig yn teimlo effaith y newidiadau. Gan Gymru y mae'r ganran uchaf o bobl anabl ym Mhrydain, ac mae bron i

10 y cant o'r holl boblogaeth sydd o oedran gweithio yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd. Mae'r newidiadau i'r gyfundrefn les yn canolbwyntio'n benodol ar geisio lleihau nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau analluogrwydd, a bydd pawb sy'n eu hawlio yn cael eu hasesu o'r newydd er mwyn targedu'r cymorth yn well. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn gobeithio cwtogi 20 y cant o'i gwariant ar y Lwfans Byw i'r Anabl, gan ddisodli hwnnw gyda Thaliad Annibyniaeth Bersonol ar ôl ailasesu pawb sy'n hawlio'r lwfans ar hyn o bryd. Os bydd yr ailasesu hwn yng Nghymru yn gorfodi nifer o bobl i ddechrau hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn lle budd-daliadau anabledd ac analluogrwydd, gallai nifer y bobl sy'n chwilio am swyddi gwag gynyddu'n sylweddol.

Bydd y newidiadau yn effeithio ar y sefyllfa dai hefyd. Wrth i'r Llywodraeth asesu effaith y newidiadau i'r Budd-dal Tai, dangoswyd y byddai'r rheini a ddechreuodd hawlio'r budd-dal ar ôl 2008 ac sy'n byw yn y sector preifat yng Nghymru yn colli £9 ar gyfartaledd bob wythnos. Bydd hyn yn effeithio ar 48,530 o bobl sy'n hawlio'r budd-dal, tra bydd 78 y cant ohonynt yn colli rhwng £5 a £15 yr wythnos. Ar ôl cyflwyno'r credyd cynhwysol, bydd y Budd-dal Tai yn dod i ben tra bydd yr elfen dai yn y credyd cynhwysol yn cael ei gweinyddu'n ganolog gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn hytrach na chan awdurdodau lleol. Mae rhai pobl wedi dadlau y gallai hyn arwain at ddiffyg gwybodaeth am farchnadoedd tai lleol.

## Datganoli'r gyfundrefn les

Mae'n ymddangos bod canoli'r gyfundrefn les yn groes i nod Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gyflwyno mwy o bolisïau lleol. Wrth i weinyddiaethau datganoledig Cymru a'r Alban wynebu lefelau diweithdra uwch, lefelau uwch o hawlio budd-daliadau anabledd ac ardaloedd lle mae nifer o bobl yn chwilio am swyddi gwag, mae cyrff fel y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus wedi awgrymu y dylid datganoli'r gyfundrefn les.

Er bod Senedd yr Alban wedi galw am ddatganoli rhai pwerau dros fudd-daliadau, ac er bod y gyfundrefn les eisoes wedi'i datganoli yng Ngogledd Iwerddon, nid oes unrhyw gynlluniau o'r fath ar y gweill yng Nghymru. Amser a ddengys sut y bydd y Cynulliad yn ymateb i newidiadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a sut fydd y rheini'n effeithio ar bolisïau yn y Pedwerydd Cynulliad.



# Pennod 5 – **Addysg**

– Talu am addysg uwch

– A yw datganoli wedi bod o fudd i ysgolion?

# Talu am addysg uwch

**Anne Thomas**

**Tra bo rhai pobl wedi dadlau y dylai unigolion allu dilyn cyrsiau addysg uwch ar sail eu potensial i elwa o'r cyrsiau hynny yn hytrach na'u gallu i dalu amdanynt, mae angen sector addysg uwch cryf a chystadleuol ar Gymru hefyd. I ba raddau y gall y pwrs cyhoeddus fforddio talu am y ddau?**

## Yr heriau

Mae prifysgolion yn wynebu heriau ariannu gwirioneddol. Cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ostyngiad o 5.1 y cant ar gyfer addysgu ac ymchwil yn 2011-12 o'i gymharu â 2010-11.

Er y bydd incwm o ffioedd myfyrwyr yn cynyddu, bydd cyfyngiad ar nifer y llefydd i fyfyrwyr sy'n cael eu cyllido. At hynny, mae incwm gan nifer cynyddol o fyfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd yn ffynhonnell refeniw bwysig. Ffactor arall o bwys yw'r ffaith bod y farchnad ryngwladol am grantiau addysg uwch ac ymchwil yn dod yn fwy cystadleuol. Diddorol nodi hefyd bod rhoddion elusennol i brifysgolion Cymru wedi cynyddu £2 filiwn yn 2009-10.

Mae hyn yn digwydd yn ystod cyfnod o ddadlau cyhoeddus mawr ynghylch cyllido prifysgolion a chynorthwyo myfyrwyr ledled y Deyrnas Unedig.

## Ailstrwythuro addysg uwch

Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru wedi cael ei herio i wneud newidiadau strwythurol mawr, gan gynnwys:

- lleihau nifer y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru o un ar ddeg i chwe sefydliad erbyn 2013;
- cytuno ar ddull rhanbarthol o gynllunio darpariaeth a diwygio'n sylfaenol modd y caiff addysg uwch ei llywodraethu;
- rhagor o gydweithio rhwng sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach; mae Athrofa Prifysgolion Blaenau'r Cymoedd yn enghraifft arloesol o hyn;
- canfod ffyrdd newydd o ddarparu addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg, dan arweiniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## A fydd nifer y myfyrwyr yn cynyddu?

Mae sawl ffactor a fydd yn effeithio ar niferoedd myfyrwyr yn y dyfodol. Ceir bellach gyfyngiadau ar nifer yr israddedigion sy'n cael eu recriwtio gan sefydliadau addysg uwch ledled y Deyrnas Unedig. Diben hyn yw rheoli'r galw gan israddedigion cymwys am gymorth ariannol statudol i astudio. Bu gostyngiad o 5 y cant yn nifer yr ymgeiswyr a dderbyniwyd i brifysgolion Cymru ym mis Medi 2010 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

At hynny, mae sylwebwyr yn rhagweld y bydd rhai pobl yn barnu mai gambl yw buddsoddi mewn addysg uwch a bod prentisiaeth neu hyfforddiant mewn swydd o dan nawdd y llywodraeth neu gyflogwr yn opsiwn gwell.

## Ehangu mynediad

Mae ehangu mynediad i addysg uwch yn dal i fod yn flaenoriaeth o ran polisi, ac mae'n un o'r amodau os caiff y ffioedd uchaf eu codi. Mae cymorth i fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel ar gael ar hyn o bryd drwy fwrsarïau a grantiau, gan gynnwys Grant Dysgu'r Cynulliad.

## Dyled myfyrwyr

Rhaid ystyried angen y sector am incwm o ffioedd myfyrwyr law yn llaw â dyledion unigol myfyrwyr.

Yn ôl un arolwg blynyddol o 2,000 o fyfyrwyr yn y Deyrnas Unedig gan Push (y canllaw i brifysgolion), roedd cyfartaledd dyled flynyddol myfyrwyr wedi cynyddu 5.4 y cant i £5,600 yn ystod pob blwyddyn o astudio. Ar gyfartaledd, y ddyled i fyfyrwyr a ddechreuodd yn y brifysgol ym mis Medi 2010 fydd £25,000.

## Newidiadau i ffioedd dysgu yn Lloegr

Yn dilyn argymhellion yn adroddiad Browne, bydd ffioedd dysgu yn Lloegr yn cynyddu i uchafswm o £9,000 ym mis Medi 2012. Bydd yn cymryd mwy o amser i ad-dalu benthyciadau o dan y system newydd, ond bydd yr ad-daliadau misol yn is sy'n golygu y gall hyn fod yn debyg i dreth ar raddedigion. Mae gwaith ymchwil yn awgrymu y byddai dros ddau draean o brifysgolion Lloegr yn dymuno codi'r ffioedd uchaf.

Mae tua 16,000 o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn astudio yn Lloegr. Pe bai prifysgolion Lloegr yn codi ffioedd dysgu o £7,000 ar gyfartaledd, amcangyfrifir y byddai'r gost i Lywodraeth Cymru o ddarparu **benthyciadau ffioedd dysgu** uwch yn golygu gwariant o £70 miliwn yn ychwanegol erbyn 2015-2016. Os na fydd prifysgolion Cymru yn codi eu ffioedd i lefelau tebyg, gallai'r gystadleuaeth am lefydd fod yn sylweddol uwch, ond ar yr un pryd gallai addysg uwch yng Nghymru gael ei gweld fel opsiwn rhatach, is ei safon.

## Polisi ffioedd dysgu yng Nghymru

Ym mis Chwefror 2011, cyhoeddodd y Gweinidog ar y pryd y byddai modd codi ffioedd uwch yng Nghymru, er iddo osod y lefel sylfaenol ar £4,000, yn hytrach na £6,000 fel y mae yn Lloegr. Cyhoeddodd hefyd y byddai grant ffioedd dysgu heb brawf modd ar gael i bob myfyriwr sy'n hanu o Gymru, waeth ymhle y byddent yn astudio, i dalu am y cynnydd yn y ffioedd.

Amcangyfrifir y gallai cyfartaledd dyled myfyrwyr yn Lloegr godi i £38,000 pan gaiff y system newydd ei chyflwyno ym mis Medi 2012. Mae tri o gwmnïau cyfrifyddiaeth wedi amcangyfrif y gallai rhai myfyrwyr sy'n benthyca £39,000 am gwrs tair blynedd orfod ad-dalu hyd at £83,000 mewn termau real.

## Cyflogau graddedigion

Mae'r ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod graddedigion, ar gyfartaledd, wedi ennill £12,000 y flwyddyn yn fwy na'r rheini nad oeddent yn raddedigion dros y degawd diwethaf. Fodd bynnag, nid yw pob gradd yn gyfwerth. Mae ymchwil yn dangos mai ychydig yn unig o effaith y mae graddau mewn rhai pynciau'n ei chael wrth gymharu'r cyflogau â chyflogau pobl sydd â chymwysterau Safon Uwch, tra bo graddau mewn pynciau eraill yn golygu enillion uwch o lawer.

## Y gost i'r llywodraeth

Byddai ymrwymiad y llywodraeth i gyllido'r cynnydd mewn ffioedd dysgu ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn golygu cryn gostau.

Mewn ymateb i geisiadau rhyddid gwybodaeth, rhoddodd Llywodraeth flaenorol Cymru fanylion ariannol wedi'u seilio ar ffioedd dysgu cyfartalog o £7,000. Roeddent yn amcangyfrif mai cost y Grant Ffioedd Dysgu heb brawf modd i fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru i dalu am y costau ychwanegol fyddai rhyw £30 miliwn i ddechrau yn 2012-13, ond y gallai hynny godi i £180 miliwn erbyn 2015-16.

## Y cyfyng-gyngor

Y cyfyng-gyngor gwleidyddol yw sut i gydbwyso'r gost i gyllidebau'r llywodraeth ar y naill law, a'r gost i fyfyrwyr unigol ar y llaw arall, a thrwy'r cyfan greu sylfeini ar gyfer sector addysg uwch cryf a chystadleuol.

# A yw datganoli wedi bod o fudd i ysgolion?

**Siân Hughes**


**Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisïau addysg gwahanol i wledydd eraill, ond mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod safonau disgyblion yn gostwng ymhellach o'u cymharu â'u cyfoedion yn y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt.**

Ers 1999, mae Llywodraethau Cymru wedi datblygu polisïau addysg gwahanol i wledydd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ymrwymiad i'r system addysg gyfun;
- cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen;
- y Llwybrau Dysgu 14-19 oed;
- cyflwyno Bagloriaeth Cymru;
- diddymu tablau cyrhaeddiad ysgolion a phrofion gorfodol ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1-3.

> ***Mae dau gyhoeddiad o bwys wedi dangos nad yw safonau yng Nghymru cystal ag y gallent fod***

**Sgoriau PISA Cymru a sgoriau cymedrig OECD 2009**




*Ffynhonnell: NFER*

Er bod canlyniadau arholiadau wedi gwella, mae problemau difrifol wedi dod i'r amlwg yn y system addysg yng Nghymru.

## Sut y mae Cymru yn perfformio?

Cafwyd dwy ergyd gan ddau gyhoeddiad o bwys a ddangosodd nad yw safonau yng Nghymru cystal ag y gallent fod. Mae adroddiad blynyddol 2009-10 Estyn yn crynhoi cynnydd addysgol

> **PISA**
>
> Asesiad sydd wedi'i safoni'n rhyngwladol yw PISA ac mae'n cynnal arolwg o ddisgyblion 15 oed yn y prif wledydd diwydiannol. Bob tair blynedd, bydd yn asesu i ba raddau y mae myfyrwyr sy'n nesáu at ddiwedd eu haddysg orfodol wedi meistroli rhai o'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n hanfodol iddynt gyfranogi'n llawn yn y gymdeithas.

dros gyfnod o chwe blynedd a daw i'r casgliadau a ganlyn:

- mae'r gwelliannau mewn safonau addysg wedi bod yn araf;
- mae un o bob tair ysgol yn tangyflawni;
- mae'r bwlch rhwng perfformiad Cymru a Lloegr wedi tyfu;
- nid yw'r systemau a ddefnyddir i olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da;
- nid yw sgiliau llythrennedd a rhifedd yn cael eu datblygu'n llawn.

Aeth Rhaglen Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol OECD (PISA) ati i asesu a chymharu sgiliau darllen, mathemateg a gwyddoniaeth disgyblion Cymru.

Siomedig oedd y canlyniadau. O'r 67 o wledydd a aseswyd, roedd Cymru yn safle 38 o safbwynt darllen, safle 40 o safbwynt mathemateg, a safle 30 o safbwynt gwyddoniaeth. Roedd perfformiad myfyrwyr Cymru nid yn unig yn waeth na'u cyfoedion yn Lloegr, ac yn is na chyfartaledd OECD (gryn dipyn yn is mewn sgiliau darllen a

mathemateg), ond roedd y canlyniadau'n waeth nag yr oeddynt yn 2006.

## Beth sydd wedi mynd o'i le?

Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd nad ffactorau economaidd-gymdeithasol na dwyieithrwydd, nac ychwaith unrhyw wahaniaeth o ran ariannu, oedd yn gyfrifol am y canlyniadau. Tynnodd sylw penodol at y materion a ganlyn:

- diffyg arweinyddiaeth yn y system drwyddi draw;
- gormod o ddewis i ddysgwyr a'r angen i ganolbwyntio ar bynciau strategol a sgiliau allweddol;
- gormod o laesu dwylo;
- chwilio am esgusodion yn lle dysgu o arferion da;
- diffyg ffocws a gwendidau yn y modd y mae'r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) yn rhoi polisïau ar waith;
- awdurdodau addysg lleol rhanedig;
- diffyg asesiadau athrawon dibynadwy;
- diffyg atebolrwydd ymhlith llywodraethwyr ysgol.

## Agenda uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol

Cyhoeddodd y Gweinidog blaenorol gynllun ugain pwynt i'w roi ar waith yn syth, a hwnnw'n anfon negeseuon pendant i'r sector addysg.

Mae APADGOS ei hun wedi'i ad-drefnu, a pherfformiad yw'r sbardun. Bydd llai o fentrau a bydd awdurdodau lleol yn gweithio'n ôl trefniadau consortia.

Bydd pwyslais cryf ar lythrennedd a rhifedd – cynhelir profion darllen cenedlaethol gan roi sylw penodol i ddisgyblion 7 i 11 oed, a bydd cynlluniau tebyg ar gyfer rhifedd. Bydd y pwyslais hwn ar lythrennedd a rhifedd yn gymwys i benaethiaid, athrawon ac athrawon dan hyfforddiant hefyd, a threfnir hyfforddiant mewn swydd a phrofion i ddarpar athrawon ar ddechrau ac ar ddiwedd eu cyrsiau hyfforddi. Bydd pwyslais hefyd ar lythrennedd a rhifedd yn ystod y cyfnod cynefino.

Rhoddir pwyslais unwaith eto ar bresenoldeb disgyblion a'u hymddygiad yn yr ystafell ddosbarth a chynhelir asesiadau trylwyr a chyson yng Nghyfnod Allweddol 2. Caiff y rhain eu hintegreiddio ag asesiadau PISA yn yr ysgolion. Rhaid i gyrff llywodraethu drafod data perfformiad eu hysgolion a chyflwyno'u cynlluniau i wella. Fel arall, byddant yn methu yn eu harolygiadau Estyn.

Yn fwy dadleuol, bydd ysgolion yn cael eu graddio bob blwyddyn, tra bydd yn rhaid iddynt gyrraedd targedau sylfaenol a thargedau cynnydd.

Bydd ysgolion sy'n methu, na ellir eu hachub, yn cael eu cau. Yng ngeiriau'r Gweinidog, bydd yn amhosibl celu perfformiad gwael.

## Yr ymateb cychwynnol

Ymateb cymysg a gafwyd gan undebau'r athrawon. Er iddynt gefnogi'r penderfyniad i ganolbwyntio eto ar lythrennedd a rhifedd ac i fynd i'r afael â disgyblion sy'n camymddwyn, teimlwyd bod y Gweinidog wedi gorymateb yn fyrbwyll ac yn ddiangen i PISA. Dywedwyd bod y cynlluniau'n rhy lym a'u bod i'w gweld yn cosbi athrawon. Cafwyd cwynion bod y syniadau'n rhy amwys.

Mae'r Gweinidog am i Gymru fod ymhlith yr ugain uchaf yn hytrach nag yn y 30au yn asesiadau PISA 2015. Mae wedi cyflwyno agenda uchelgeisiol, diamwys a heriol ar gyfer y pedwerydd Cynulliad.

Yn ôl Estyn, dim ond drwy weithio mwy ar y cyd y gellir mynd i'r afael â'r problemau ac mae'r undebau'n poeni y caiff newidiadau eu gorfodi ar ysgolion. Maent yn awyddus hefyd i weld prosesau ymgynghori a chydweithredu priodol. Bydd hon yn gryn her i'r rhai sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw Cymru yn gwneud cam â'i disgyblion.



Pennod 6 –
# Iechyd

– Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Cydweithredu ynteu gystadlu?

– Y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru

# Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol: Cydweithredu ynteu gystadlu?

**Stephen Boyce**

**Ers datganoli yn 1999, mae'r dulliau o ddarparu gwasanaethau'r GIG yn y Deyrnas Unedig wedi dod yn fwyfwy dargyfeiriol. Mae Cymru wedi newid o ddefnyddio marchnad fewnol i reoli gwasanaethau ac yn lle hynny wedi mabwysiadu model integredig o ddarparu gofal iechyd.**

Ers datganoli, mae Cymru a'r Alban wedi dilyn llwybr gwahanol i'r dull yn Lloegr o ddarparu gwasanaethau'r GIG. Yng Nghymru, mae rôl y sector preifat mewn gofal iechyd y GIG yn lleihau a bellach nid yw'r farchnad fewnol, a'r rhaniad rhwng y prynwr a'r darparwr, yn bodoli.

### Rôl y farchnad yn y GIG: dadleuon o blaid ac yn erbyn

Mae llawer o wleidyddion ac arbenigwyr iechyd yn Lloegr yn credu bod y farchnad yn hanfodol i:

- reoli gwariant;
- codi safonau;
- cynyddu'r dewis sydd ar gael i gleifion.


Mae Llywodraethau olynol yng Nghymru, fodd bynnag, wedi mynnu bod hyrwyddo cystadleuaeth yn y GIG yn creu gwasanaethau pytiog a biwrocrataidd, a'r rheini'n brin o gydlyniant ac yn tanseilio egwyddorion sylfaenol gofal iechyd y GIG a ddarperir drwy arian cyhoeddus.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, y ffordd ymlaen yw darpariaeth integredig ar gyfer darparu gwasanaethau cyson, cost-effeithiol a chydgysylltiedig. Ar y llaw arall, yn Lloegr, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn hyrwyddo cystadleuaeth yn y GIG ac yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cynnwys y sector preifat mewn gofal iechyd drwy ei dull o weithredu sy'n seiliedig ar 'unrhyw ddarparwr parod'.

## Cymru afiach?

Does dim amheuaeth ynghylch yr heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru. Allan o bedair gwlad y Deyrnas Unedig, Cymru sydd â'r disgwyliad oes iach lleiaf ar enedigaeth ei thrigolion. Mae gan Gymru lefelau uchel o ordewdra, llawer iawn o achosion o afiechydon cronig a chymunedau ac ynddynt lawer iawn o amddifadedd. Yng Nghymru hefyd y mae'r boblogaeth sydd â'r gyfran fwyaf o bobl hŷn yn y Deyrnas Unedig, gyda llawer o'r bobl hŷn yn byw mewn cymunedau gwledig. Nid yw'n syndod bod gan Gymru wariant uwch y pen ar iechyd a gofal cymdeithasol na'r cyfartaledd yn y Deyrnas Unedig – dim ond yr Alban sy'n uwch.

**Cyfanswm gwariant adnabyddadwy y pen (£) ar wasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol personol, 2008-09**




*Ffynhonnell: ONS*

## Y dull Cymreig

Ers datganoli, mae Cymru wedi datblygu dull gweithredu unigryw o ran ei gwasanaethau iechyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi dewis

cyfyngu ar godi tâl am wasanaethau'r GIG ac, yn achos presgripsiynau, mae wedi cael gwared ar godi tâl yn llwyr. Mae hefyd wedi bod yn fwy cydweithredol o ran cynnwys cleifion mewn gofal iechyd na'r model prynwriaethol a fabwysiadwyd yn Lloegr.

Cafodd Cymru wared ar ei Hawdurdodau Iechyd yn 2003, a chreu dau ar hugain o Fyrddau Iechyd Lleol a phedair ar ddeg o Ymddiriedolaethau'r GIG, ond teimlwyd yn gyffredinol bod y diwygio wedi arwain at greu gormod o gyrff iechyd ar gyfer gwlad o faint Cymru. Mae ailstrwythuro'r GIG yn 2009, a leihaodd nifer y Byrddau Iechyd Lleol i saith, gyda thair Ymddiriedolaeth Iechyd, wedi helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon. Fodd bynnag, gallai hyn rwystro cynnydd o ran gwella'r cydgysylltiad rhwng gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, gan nad yw eu ffiniau yn cyfateb bellach.

Roedd adroddiad Wanless 2003 yn atgyfnerthu'r angen i symud adnoddau o ofal drud mewn ysbytai tuag at wasanaethau sylfaenol a gwasanaethau gofal yn y gymuned, a rhoi mwy o bwyslais ar gamau hybu iechyd ac iechyd cyhoeddus. Mae manteision amlwg i waith hybu iechyd y GIG. Dylai mwy o ymarfer corff, llai o ysmygu a gwell arferion bwyta helpu i leihau costau trin afiechydon a rheoli cyflyrau cronig yn y dyfodol.

Rhywbeth sy'n llai amlwg mewn rhai cymunedau yw manteision israddio neu gau ysbytai lleol. Mae'n bosibl y bydd angen eu darbwyllo am werth canoli adnoddau arbenigol mewn llai o ganolfannau rhagoriaeth.

## Pwysau newydd

Mae'r hinsawdd ariannol wedi newid bellach, ac mae'r GIG yn wynebu pwysau ar ei gyllideb yn ogystal â wynebu effaith ehangach y cwtogi ar wariant cyhoeddus.  Mae'r wasgfa ar wasanaethau gofal cymdeithasol awdurdodau lleol, er enghraifft, yn debygol o arwain at fwy o alw am ofal iechyd. Mae'n debyg y bydd yr honiadau o well cyd-gysylltu rhwng gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol o dan fodel GIG Cymru yn cael eu profi i'r eithaf dros y blynyddoedd nesaf.

Fel ag erioed yn y GIG, mae pwysau cynyddol sy'n deillio yn sgil poblogaeth sy'n heneiddio, datblygiadau technolegol a disgwyliadau uwch gan y cyhoedd yn golygu bod chwyddiant gofal iechyd yn uwch na chwyddiant prisiau cyffredinol.  Mewn cyfnod o gyfyngu ar wariant cyhoeddus, mae angen rhagor o wariant i aros yn yr unfan yn unig, oni bai y gellir cyflawni arbedion drwy ddulliau rheoli mwy effeithlon a gwell arferion gweithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi hoelio'i gobeithion ar Wasanaeth Iechyd Gwladol sydd wedi'i integreiddio'n well ac sy'n fwy effeithlon, gyda llai o reolwyr a phwyslais mawr ar hybu iechyd ac ar gyfrifoldeb yr unigolyn dros wella ei iechyd.

## Y dyfodol

Rheolaeth ariannol dynn a chraffu gofalus ar berfformiad y Gwasanaeth Iechyd Gwladol fydd y materion mwyaf blaenllaw ar gyfer y dyfodol agos. Mae'n debygol y bydd model Cymru'n cael ei farnu am ei berfformiad o ran amseroedd aros a darparu gwasanaethau, y cyffuriau a'r driniaeth arbenigol sydd ar gael i gleifion, graddfa boddhad cleifion, ac yn y tymor hir, dangosyddion iechyd gwell. Hefyd, bydd safbwyntiau gweithwyr iechyd proffesiynol yn dylanwadu ar unrhyw asesiad o effeithiolrwydd y GIG yng Nghymru.

Mae newid a datblygu yn elfen barhaus yn y GIG, ond mae un peth na fydd yn newid. P'un a yw cydweithredu ac integreiddio yn profi'n well na model sy'n cael ei ddylanwadu gan y farchnad, bydd cyflwr y GIG yn parhau i fod yn flaenllaw ar agenda pawb.

# Y boblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru

**Jonathan Baxter a Stephen Boyce**

**A yw Cymru mewn sefyllfa i ddarparu'r gofal a'r gwasanaethau tai y mae ar bobl hŷn eu hangen?**

Mae poblogaeth Cymru'n heneiddio. Yn 2008, roedd 18 y cant o'r boblogaeth dros 65 oed; erbyn 2033, mae disgwyl i'r ffigur hwn godi i ryw 26 y cant. Fel yng nghymaint o'r byd datblygedig, mae mwy o gyfoeth, gwell iechyd a gwell safonau byw yn golygu bod dinasyddion yn gallu mwynhau cyfnodau llawer hwy ar ôl ymddeol na hyd yn oed genedlaethau cymharol ddiweddar.


Mae llywodraethau dilynol yng Nghymru wedi mabwysiadu polisïau blaengar a chynhwysol i ymateb i'r sefyllfa hon ers dechrau datganoli. Pan benodwyd y Comisiynydd Pobl Hŷn yn 2008, dyna'r tro cyntaf i swydd o'r fath gael ei chreu yn y Deyrnas Unedig. I gyd-fynd â hynny, dechreuodd ail gyfnod Strategaeth Pobl Hŷn Llywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod sylw i faterion sy'n ymwneud â phobl hŷn yn cael ei brif-ffrydio drwy bob maes polisi. Dilynwyd hynny gan fonitor lles cyntaf y Deyrnas Unedig ar gyfer pobl hŷn flwyddyn yn ddiweddarach.

## Cartref am oes

Fel sawl economi datblygedig arall, mae llywodraethau dilynol yng Nghymru wedi dilyn polisi o alluogi pobl hŷn i gadw'u hannibyniaeth ac i fyw yn eu cartrefi eu hunain cyn hired â phosibl. Ond a yw'r polisi hwn yn gynaliadwy wrth i'r boblogaeth heneiddio?

Gall gwaith addasu a chynnal a chadw fod o fudd ehangach i unigolion, a gall arwain at arbedion yn y tymor canolig a'r tymor hir i gyllid y wlad gan y bydd costau iechyd a chostau gofal cymdeithasol yn is. Fodd bynnag, mae'n blynyddoedd nesaf yn golygu y bydd yn bosibl

**Canran y boblogaeth dros oedran gweithio**




*Ffynhonnell: ONS*

fforddio gwneud y newidiadau hyn yn sgil toriadau i wariant cyhoeddus.

Mae opsiynau eraill yn hytrach na chynyddu gwariant cyhoeddus ar gael, gan gynnwys cyflwyno benthyciadau yn lle grantiau, a galluogi'r wyth o bob deg person hŷn sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain i gael cyllid ar gyfer gwneud gwaith cynnal a chadw drwy gynlluniau rhyddhau ecwiti. Mae rhoi cymorth i wneud gwaith addasu a chynnal a chadw wedi galluogi nifer o bobl hŷn i aros yn eu cartrefi. Serch hynny, mae'r newidiadau i'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth i bobl sy'n byw mewn tai gwarchod wedi codi gwrychyn rhai tenantiaid. Cymorth fel y bo'r angen sydd bellach yn cael ei ddarparu yn lle llawer o wasanaethau warden i drigolion. Mae rhagor o ddefnydd hefyd yn cael ei wneud o dechnoleg fodern er mwyn darparu gofal drwy wasanaethau Teleofal, sy'n golygu nad oes yn rhaid i ofalwr fod yn bresennol yn gorfforol. Mae hyn yn golygu bod rhai pobl hŷn yn teimlo'n ynysig, ond mae'n golygu hefyd bod modd cynorthwyo trigolion boed y rheini'n byw mewn tai gwarchod dynodedig ai peidio.

## Gofal cymdeithasol

Gan fod angen cymorth ar fwy o bobl nag erioed i fyw eu bywydau o ddydd i ddydd, mae'r pwysau ar wasanaethau cymdeithasol yn cynyddu, tra bo awdurdodau lleol, sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth hon, yn cyflwyno meini prawf llymach ar gyfer rhoi cymorth er mwyn rheoli'r galw.

Mae awdurdodau lleol wedi gallu codi ffioedd am wasanaethau gofal ers cryn amser. Tra bo'r rheolau ar gyfer ffioedd gofal preswyl yn berthnasol ledled Cymru, mae'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal cartref yn amrywio, gyda phob awdurdod lleol yn gosod ei lefelau ei hun. O ganlyniad, mae hynny wedi arwain at ddrysu pobl hŷn, os nad at ddigio pobl sy'n gorfod talu am ofal, a hynny weithiau drwy werthu cartref y teulu.

## Dilyn llwybr Cymreig

Er bod yr Alban wedi diddymu ffioedd ar gyfer rhoi gofal personol i bobl hŷn, mae costau posibl cynllun o'r fath wedi bod yn faen tramgwydd yng Nghymru. Yn lle hynny, ceisiwyd cyfyngu ar y baich ariannol i unigolion sy'n cael gofal gartref. Yn y tymor hwy, mae angen cytuno ar sut y caiff

### Troi heneiddio gartref yn realiti


Mae cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cefnogi cynlluniau sy'n ceisio galluogi pobl hŷn i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Er enghraifft:

- mae'n rhaid i bob cynllun tai cymdeithasol cyhoeddus gyrraedd safonau Cartrefi Gydol Oes sy'n golygu y gellir eu haddasu'n haws;
- mae'r cynllun Gofal a Thrwsio yn rhoi cyngor a chymorth ymarferol i bobl hŷn, gan gynnwys rheoli'r rhaglen Addasiadau Brys;
- mae'r rhaglen tai Extra Care yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol pan fydd angen mwy o gymorth arnynt na'r cyffredin;
- mae cymorth ar gael gyda materion tai drwy'r rhaglen Cefnogi Pobl;
- mae Grantiau Addasiadau Ffisegol ar gael i denantiaid cymdeithasau tai;
- mae Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gael i bobl ym mhob deiliadaeth.

y baich o dalu am ofal ei rannu rhwng unigolion a'r wladwriaeth. Cyflwynwyd rhai opsiynau mewn Papur Gwyrdd gan Lywodraeth Cymru yn 2009, ond mae'r goblygiadau ariannol yn rhannol ddibynnol ar ddiwygiadau yn Lloegr. Er enghraifft, mae Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi bod diwygio'r system bensiynau a lles yn ganolog i'w rhaglen lywodraethu, a bydd hyn i gyd yn dylanwadu ar y modd y caiff polisïau eu datblygu yng Nghymru.

Caiff y rhan fwyaf o ofal ei ddarparu'n anffurfiol gan berthnasau neu gyfeillion. Y sector annibynnol yw darparwr mwyaf gwasanaethau gofal ffurfiol gyda llawer o bobl hŷn yn trefnu i gael gofal gan ddarparwyr unigol. Mae awdurdodau lleol wedi tueddu i ganolbwyntio ar asesu a rheoli gofal, gan gomisiynu gwasanaethau i'r rheini nad ydynt yn trefnu eu gofal yn breifat. Cyflwynodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru gynlluniau i wella cysondeb gwasanaethau ledled Cymru, ynghyd â threfniadau comisiynu rhanbarthol a ddylai helpu i ddefnyddio adnoddau cyfyngedig yn well. Serch hynny, bydd darparwyr annibynnol yn dechrau teimlo effaith y pwysau cynyddol ar gyllidebau awdurdodau lleol pan ofynnir iddynt wneud rhagor o waith am lai o arian.

Nid yw'r camau sydd wedi cael eu cymryd yn Lloegr tuag at wneud gwasanaethau yn fwy personol wedi bod mor amlwg yng Nghymru, lle mae rhywfaint o amheuon ynghylch targedu defnyddwyr sy'n cael gwasanaethau gofal. Fodd bynnag, bydd y disgwyliadau'n cynyddu o ran ansawdd a hyblygrwydd gwasanaethau wrth i'r genhedlaeth a anwyd ar ôl y rhyfel heneiddio. Law yn llaw â'r cynnydd mewn dementia, mae'r galw am wasanaethau arbenigol mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn cynyddu. O gofio hefyd bod gwariant cyhoeddus o dan bwysau sylweddol, gallai gofal cymdeithasol gamu o gysgod y GIG fel mater o bwys cenedlaethol.





Pennod 7 –
# Cymunedau, tai a pholisi cymdeithasol

– A yw Cymru'n wynebu argyfwng tai?

– Y Gymdeithas Fawr Gymreig?

– Dileu tlodi plant erbyn 2020:
Dyhead yn unig?

– Gwariant cyhoeddus cynaliadwy:
Y dewis rhwng cyffredinoliaeth a thargedu


# A yw Cymru'n wynebu argyfwng tai?

**Jonathan Baxter**

**Rhaid i Lywodraeth newydd Cymru roi sylw i'r angen cynyddol am gartrefi newydd.**

Nid oes gan Gymru ddigon o gartrefi. Yn ôl ymchwil gan Lywodraeth Cymru, yr amcangyfrif yw y bydd angen dros 14,000 o gartrefi newydd yng Nghymru bob blwyddyn dros y 15 mlynedd nesaf. Mae hyn yn ychwanegol at y galw presennol ac yn uwch o lawer na'r cartrefi sydd ar gael ar hyn o bryd.

**Adeiladu cartrefi yng Nghymru**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

Gall y stoc bresennol o gartrefi ateb rhywfaint o'r galw. Gellir addasu adeiladau a'u rhannu'n gartrefi llai (e.e. gellid troi tŷ yn sawl fflat) a gellid ailddechrau defnyddio rhai o'r 25,000 o gartrefi gwag yn y sector preifat gyda'r buddsoddiad angenrheidiol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos na fydd y cartrefi presennol eu hunain yn ddigon i ateb y galw yn y dyfodol. Bydd yn rhaid adeiladu cartrefi newydd.

## Pam yr holl alw?

Ers sawl blwyddyn, mae'r galw am gartrefi wedi bod yn uwch na'r nifer o gartrefi sydd ar gael, yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig ill dau. Bydd y galw ychwanegol am dai yn dod bennaf yn sgil y cynnydd disgwyliedig yn y nifer o aelwydydd, yn enwedig aelwydydd sy'n gartref i un person yn unig. Ond mae ffactorau eraill hefyd yn cyfrannu, fel y cynnydd ym maint y boblogaeth, nifer yr ail gartrefi a'r prinder tai cymdeithasol yn sgil yr Hawl i Brynu.

## Y diwydiant adeiladu tai

Mae nifer y tai newydd sy'n cael eu codi yng Nghymru wedi gostwng yn ystod y dirywiad economaidd. Wrth i'r banciau gyflwyno mwy o feini prawf ar gyfer rhoi benthyciadau yn dilyn y wasgfa gredyd, lleihaodd nifer y prynwyr posibl yn y farchnad, yn enwedig ymhlith y rheini sy'n prynu am y tro cyntaf. Effeithiodd prinder cyllid datblygu ar adeiladwyr hefyd, ac roedd yn ffactor arall a arweiniodd at leihad yn nifer y datblygiadau newydd.

Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi wedi honni bod polisïau cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi baich ychwanegol ar adeiladwyr tai, a hynny yn ystod cyfnod sydd eisoes yn un anodd i'r diwydiant. Yn benodol, mae'r Ffederasiwn yn cyfeirio at y gofyniad fod system chwistrellu tân yn cael ei gosod ym mhob cartref newydd, ynghyd â'r angen i gyrraedd safonau amgylcheddol uwch. Mae'r naill a'r llall yn ychwanegu'n sylweddol at gost bob cartref newydd.

## Tai fforddiadwy

Roedd darparu tai fforddiadwy yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth ddiwethaf Cymru. Er nad oedd unrhyw darged cyffredinol ar gyfer adeiladu tai, cyrhaeddwyd y targed o ddarparu 6,500 o dai fforddiadwy erbyn 2011 flwyddyn yn gynnar.

Roedd llawer o'r tai fforddiadwy newydd hyn yn llety ar rent a ddarparwyd gan gymdeithasau tai, gyda rhai ohonynt yn cael arian cyhoeddus drwy'r rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Ychydig iawn o gartrefi newydd sydd wedi'u codi gan awdurdodau lleol yn y blynyddoedd diwethaf, er bod rhai awdurdodau wedi trafod cynlluniau'n ddiweddar i ailddechrau codi tai.

Mae'r angen am dai fforddiadwy yn amlwg wrth edrych ar y rhestrau aros hir, ac mae'r ffigurau digartrefedd swyddogol wedi dechrau cynyddu yn ddiweddar ar ôl cyfnod hir lle bu'r rheini'n gostwng. Law yn llaw â ffactorau eraill, gan gynnwys gorboblogi a'r ffaith y ceir nifer o 'gartrefi cudd' (pan fydd meibion a merched yn methu â fforddio gadael cartref y rhieni, er enghraifft), mae'n amlwg pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa.

## Y sector rhentu preifat

Mae'r sector rhentu preifat yn cyfrannu tua 12 y cant at yr holl stoc o gartrefi, sy'n fwy na nifer y cartrefi sy'n eiddo i awdurdodau lleol.  Mae llawer o bobl sydd wedi cael trafferth dod o hyd i dai cymdeithasol wedi symud i'r sector rhentu preifat, gyda chyfran arwyddocaol ohonynt yn hawlio budd-dal tai i'w helpu i dalu'r rhent. Mae rhai sylwebwyr o'r farn y bydd y toriadau gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'r budd-dal tai yn effeithio ar gyfraniad pwysig y sector preifat tuag at liniaru'r pwysau ar y sector cymdeithasol. Mae'r anawsterau sy'n wynebu'r farchnad dai wedi effeithio ar y sector rhentu preifat mewn sawl ffordd:

- mae nifer y rheini sydd am brynu am y tro cyntaf ond yn ei chael yn anodd fforddio morgais wedi cynyddu'r galw am dai sy'n cael eu rhentu'n breifat;
- mae gwerthwyr sy'n ei chael yn anodd gwerthu eu heiddo wedi dod yn 'landlordiaid anfoddog', gan osod yr eiddo ar ôl methu â'i werthu – gan gynyddu nifer yr eiddo i'w rentu sydd ar gael.

Tra bo llawer o bobl yn pryderu am safonau a systemau rheoleiddio yn y sector rhentu preifat, mae nifer o awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol wedi cydnabod y cyfraniad pwysig y gall y sector ei wneud tuag at ateb y galw am dai. Mae hyn wedi arwain at greu partneriaethau a chynlluniau ffurfiol i godi safonau ac i alluogi pobl i ddod o hyd i le yn y sector yn haws, yn enwedig grwpiau sy'n agored i niwed.

## Ateb sy'n seiliedig ar yr holl sector

Mae'r prinder tai addas yn golygu bod perygl o beidio â gallu rhoi polisïau iechyd, polisïau addysg a pholisïau economaidd ar waith yn effeithiol.  Mae llunwyr polisi yng Nghymru wedi bod yn ymwybodol o hyn ers tro, a dyna pam fod Llywodraeth flaenorol Cymru wedi rhoi llawer o sylw i dai fforddiadwy. Fodd bynnag, mae nifer o weithwyr proffesiynol yn y maes tai yn galw am ateb ehangach sy'n seiliedig ar yr holl sector, gan edrych ar yr holl feysydd sy'n ymwneud â'r angen a'r galw. Mae Sefydliad Tai Siartredig Cymru wedi lansio ymgyrch Pact Tai Cymru yn ddiweddar, gydag un elfen o'r ymgyrch honno yn canolbwyntio ar ateb y galw am dai. Mae'r ymgyrch yn galw am gynllun darparu tai cenedlaethol a thraws-sector fel canolbwynt i raglen lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru. Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig wedi dweud hefyd na ddylid edrych ar yr angen am dai fforddiadwy ar wahân i faterion eraill.

Tra bo pobl yn derbyn bod sawl her ynghlwm wrth yr angen i adeiladu cartrefi newydd, mae'n rhoi cyfleoedd newydd hefyd, yn enwedig y potensial i greu swyddi da a chyfleoedd hyfforddi drwy'r holl gadwyn gyflenwi.

Nid oes dwywaith y bydd Llywodraeth newydd Cymru yn wynebu her a hanner wrth roi sylw i'r mater hwn, gan nad yw'r angen a'r galw am dai a'r ddarpariaeth sydd ar gael yn broblemau y gellir eu datrys drwy reoleiddio neu ddeddfwriaeth yn unig.

# Y Gymdeithas Fawr Gymreig?

**Hannah Johnson**

**Mae cysyniad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o 'Gymdeithas Fawr' yn ceisio annog pobl i gyfrannu'n gymdeithasol ynghyd â rhoi rhagor o bwerau i gymunedau dros y gwasanaethau lleol sydd ar gael. Sut fydd y weledigaeth hon yn effeithio ar y sector gwirfoddol yng Nghymru?**


Mae gweledigaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer creu Cymdeithas Fawr wedi cael ei hyrwyddo fel ymgais i newid y modd yr ydym yn cyfrannu'n gymdeithasol a'r modd y mae'r sector gwirfoddol yn gweithio. Fodd bynnag, gellid dadlau bod traddodiadau cydweithio cymunedol, cymorth cydfuddiannol a chydweithredu yn rhan o hanes cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Er mai yn Lloegr yn unig y cyflwynir y rhan fwyaf o gynlluniau'r Gymdeithas Fawr, maent yn debygol o effeithio ar y sector gwirfoddol yng Nghymru. At hynny, gallai dulliau cynyddol wahanol o gydlynu a chyllido'r sectorau gwirfoddol yng Nghymru a Lloegr olygu y bydd y 'Gymdeithas Fawr' yn ymddangos yn wahanol iawn yn y ddwy wlad.

Pwysleisiodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru nad oedd ganddi unrhyw fwriad i gyflwyno cynlluniau'r Gymdeithas Fawr, gan honni bod rhoi sylw canolog i bobl a chymunedau eisoes yn ganolog i'w rhaglen ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus.

*Pwysleisiodd Llywodraeth ddiwethaf Cymru nad oedd ganddi unrhyw fwriad i gyflwyno cynlluniau'r Gymdeithas Fawr*

Yn lle'r Gymdeithas Fawr, cyflwynwyd cynlluniau a oedd yn cynnwys cyfleoedd i wirfoddoli a bod yn rhan o'r gymuned, fel Gwirvol a Chymunedau yn Gyntaf, cynlluniau i gynnwys pobl ifanc yn y broses ddemocrataidd drwy'r Ddraig Ffynci, a chynlluniau i gynnwys dinasyddion ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol. Serch hynny, prin fod lefelau gwirfoddoli wedi newid yng Nghymru ers bron i ddegawd. A yw'r ffigurau hyn felly yn awgrymu bod angen edrych eto ar sut y caiff pobl eu hannog i gyfrannu'n gymdeithasol yng Nghymru?

**Canran y bobl yng Nghymru a wirfoddolodd dros y 12 mis diwethaf**




*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## Cysoni neu ddargyfeirio?

Mae'r prif elfennau yng nghynlluniau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y Gymdeithas Fawr fel a ganlyn:

- **rhoi grym i gymunedau:** rhoi mwy o bwerau i gynghorau lleol a chymdogaethau i wneud penderfyniadau ac i ddylanwadu ar eu hardaloedd;
- **gwneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy agored:** galluogi sefydliadau gwirfoddol, elusennau, mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol i gystadlu er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus;
- **gweithredu cymdeithasol:** annog a galluogi pobl i fod yn fwy gweithgar mewn cymdeithas.

***A fydd y trydydd sector yng Nghymru yn gallu cystadlu â sefydliadau yn Lloegr am gontractau gwasanaethau cyhoeddus?***

Mae egwyddorion cyfrannu'n gymdeithasol a rhoi grym i gymunedau, sy'n ganolog i'r Gymdeithas Fawr, yn amlwg iawn yng Nghymru. Fodd bynnag, a fydd y trydydd sector yng Nghymru yn gallu cystadlu â sefydliadau yn Lloegr am gontractau gwasanaethau cyhoeddus?

## Y sector gwirfoddol yng Nghymru


Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn amcangyfrif y ceir tua 30,000 o sefydliadau a grwpiau yn y trydydd sector yng Nghymru, gan gynnwys 8,475 o elusennau cofrestredig. Mae dros 90 y cant o'r sefydliadau hyn yn cael eu diffinio fel prosiectau, canghennau neu sefydliadau lleol. Ceir dros 50,000 o swyddi cyflogedig yn y trydydd sector, sef 2.6 y cant o bawb sy'n cael eu cyflogi yng Nghymru. Dangosodd arolwg diweddar gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru bod 49 y cant o sefydliadau'n teimlo y byddai eu sefyllfa'n gwaethygu dros y deuddeng mis nesaf o ganlyniad i'r dirwasgiad, a dywedodd 87 o sefydliadau bod cyfanswm o 295 o swyddi mewn perygl.

## Y gallu i ddarparu?

Tra hoffai Llywodraeth y Deyrnas Unedig weld elusennau'n dod yn gyfrifol am wasanaethau cyhoeddus, mae pryder mai contractwyr penodol yn y sector preifat yn Lloegr fydd yn fwyaf tebygol o elwa o'r system newydd.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau restr o'r prif gontractwyr a fydd yn darparu ei Rhaglen Waith ledled y Deyrnas Unedig, ac roedd 88 y cant o'r rheini yn gwmnïau preifat, a'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u lleoli yn Lloegr.

**Rhaglenni gwaith a enillwyd fesul sector**




*Ffynhonnell: DWP*

Fodd bynnag, bydd y Rhaglen Waith yn rhoi cyfleoedd i isgontractwyr yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae nifer o fentrau newydd wrthi'n dod i'r amlwg a allai gryfhau gallu'r trydydd sector yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus a sicrhau bod cyfraniad sefydliadau bach at ddarparu gwasanaethau yn dod yn bwysicach.

Er enghraifft, gall consortia o elusennau, mentrau cymdeithasol a sefydliadau eraill yn y

trydydd sector gydweithio i wneud cais am gontractau mawr yn y sector cyhoeddus ar ran sefydliadau yn y gymdeithas sifig. Yng Nghymru, gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i sefydliadau bychan a chanolig eu maint sydd am wneud cais am gontractau, ond sydd heb y gallu i wneud hynny. Drwy weithio mewn consortiwm gyda sefydliadau bychain eraill, maent yn fwy tebygol o allu cystadlu am gontractau mawr a darparu'r rheini.

## Effaith ganlyniadol y Gymdeithas Fawr

Gallai sefydliadau gwirfoddol yng Nghymru elwa'n uniongyrchol o rai o gynlluniau'r Gymdeithas Fawr.

Bydd Banc y Gymdeithas Fawr, sydd i'w lansio eleni, yn rhoi benthyciadau a buddsoddiad cyfalaf i'r sector gwirfoddol yn y Deyrnas Unedig. Yn Lloegr, bydd arian o gyfrifon banc segur yn cael ei roi i Fanc y Gymdeithas Fawr at ddefnydd sefydliadau gwirfoddol, ond yng Nghymru mae'r arian o'r cyfrifon segur yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo pobl ifanc ac i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Bydd banciau'r Deyrnas Unedig yn cyfrannu £200 miliwn at Fanc y Gymdeithas Fawr, a bydd yr arian hwn ar gael i sefydliadau gwirfoddol ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys yng Nghymru.

Amser a ddengys sut y bydd y gymdeithas sifig yng Nghymru yn ymateb i'r Gymdeithas Fawr, ond mae'n debygol y bydd yn rhaid i sefydliadau yn y trydydd sector newid y modd y maent yn darparu gwasanaethau, gyda llai o adnoddau, rhagor o ddefnyddwyr gwasanaethau a disgwyliadau uwch.

Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddechrau'r **Rhaglen Datblygu Economaidd Cymunedol**, sy'n werth £13 biliwn ac â'r nod o annog sefydliadau yn y de-ddwyrain i fod yn llai dibynnol ar grantiau ac mewn sefyllfa well i dendro am gontractau caffael.

# Dileu tlodi plant erbyn 2020: Dyhead yn unig?

**Kathryn Potter**

**Gallai'r sefyllfa economaidd ac ariannol anodd, ynghyd â methiant Llywodraeth ddiwethaf y Deyrnas Unedig i gyrraedd ei tharged o haneru tlodi plant erbyn 2010-11, olygu mai dyhead yn unig fydd y targed uchelgeisiol o ddileu tlodi plant yn y Deyrnas Unedig erbyn 2020-21.**

## Yr her o ddileu tlodi plant

Ers degawd a mwy, cafwyd consensws trawsbleidiol bod angen dileu tlodi plant. Ers 1999, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru ill dwy wedi cyflwyno bob math o bolisïau a strategaethau gyda'r nod o fynd i'r afael â'r broblem hon, ond mae'n ymddangos nad yw nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn newid. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig bellach wedi'i rhwymo'n ddeddfwriaethol i gyrraedd y targed o ddileu tlodi plant erbyn 2020.

***Mae'n ymddangos nad yw nifer y plant sy'n byw mewn tlodi yn newid***

Prin iawn y gall plant wneud unrhyw beth am eu tlodi eu hunain, a hwythau heb rym economaidd, cymdeithasol na gwleidyddol. Mae hon yn broblem gymhleth ac amlweddog, sy'n effeithio nid yn unig ar fywydau plant ond hefyd ar eu cyfleoedd mewn bywyd. Mae costau cymdeithasol ac ariannol tlodi plant i'w gweld y tu hwnt i blentyndod, ac nid yr unigolyn yn unig sy'n dioddef, ond y gymdeithas i gyd. Mae ymchwil gan Sefydliad Joseph Rowntree wedi canfod bod plant sydd wedi dioddef o dlodi yn ystod yn eu plentyndod:

- yn llai tebygol o ganfod gwaith ac felly angen mwy o fudd-daliadau a gwasanaethau cyflogaeth;
- yn fwy tebygol o fod yn ennill cyflogau isel, ac felly'n cyfrannu llai at refeniw treth;
- yn fwy tebygol o fod yn droseddwyr, gan greu costau i'r system cyfiawnder troseddol a'r system les yn ehangach.

***Mae ymchwil cymharol i les plant yn dangos bod gwledydd eraill yn gwneud yn llawer yn well na'r Deyrnas Unedig***

Mae cyfran y plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru wedi amrywio o 36 y cant (rhwng 1996-97 a 1998-99) i'r ffigur isaf o 28 y cant (rhwng 2003-04 a 2005-06). Mae tlodi plant ar hyn y bryd ar gynnydd gyda 32 y cant o blant yn byw mewn tlodi yng Nghymru (tua 192,000 i 200,000 o blant). Ceir pryderon hefyd am dlodi plant difrifol, gydag ymchwil gan Achub y Plant yn dangos bod gan Gymru gyfran uwch o blant yn byw mewn tlodi difrifol (14 y cant) na Lloegr (13 y cant) a'r Alban a Gogledd Iwerddon (9 y cant). Mae ymchwil cymharol i les plant yn dangos bod gwledydd eraill yn gwneud yn llawer yn well na'r Deyrnas Unedig yn hyn o beth.

## Pam fod targedau Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn bwysig i Gymru?

Yn ddiweddar, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ddeddfwriaeth (Deddf Tlodi Plant 2010) sy'n gosod targedau sy'n rhwymo Llywodraeth bresennol y Deyrnas Unedig a llywodraethau'r dyfodol yn gyfreithiol i leihau tlodi plant cymharol a thlodi plant absoliwt erbyn 2020-21. Mae'r math yma o ddeddfwriaeth sy'n gosod targedau cyfreithiol yn anarferol ac mae'n

ddatblygiad tra diweddar yn hanes y Deyrnas Unedig.

**Tlodi cymharol** – lleihau cyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd lle mae'r incwm o dan 60 y cant o'r canolrif i lai na 10 y cant.

**Tlodi absoliwt** – lleihau cyfran y plant sy'n byw o dan drothwy incwm penodol mewn termau real i lai na 5 y cant.

Tra mai dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol yw sicrhau bod y Deyrnas Unedig yn cyrraedd y targedau hyn, maent yn bwysig i Gymru gan eu bod yn berthnasol i'r Deyrnas Unedig gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn cydnabod pwysigrwydd targedau'r Deyrnas Unedig ac y bydd yn defnyddio'r gallu sydd ganddi i gyflwyno polisïau i geisio dileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r Ddeddf ei hun yn rhoi dyletswyddau ar yr Alban a Gogledd Iwerddon i gyhoeddi eu strategaethau tlodi plant, gan ddatgan sut y byddant yn cyfrannu at gyrraedd y targedau. Nid oedd angen i'r Ddeddf roi'r ddyletswydd hon ar Gymru, gan fod Cymru eisoes wedi deddfu yn y maes cyn cyflwyno'r Ddeddf Tlodi Plant. O'r herwydd, mae gan Weinidogion Cymru eisoes y dyletswyddau hynny.

## A fydd modd cyrraedd y targedau?

Tra nad yw'r targedau yn anelu at sero, maent ar lefel sy'n cymharu â'r isaf yn Ewrop ac felly yn gyson â'r nod o 'ddileu' tlodi plant. Y lefel isaf o dlodi plant a gafwyd mewn unrhyw wlad Ewropeaidd oedd 5 y cant, a phe bai'r gyfradd yn y Deyrnas Unedig yn cyrraedd hynny, byddai 600,000 o blant yn dal i fyw mewn tlodi.

Yn ôl y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, mae'n ymddangos y bydd yn anodd iawn cyrraedd y targedau yn 2020/21, gan y byddai angen y gostyngiad mwyaf mewn tlodi plant cymharol ar ôl 2013-14 ers o leiaf 1961. Gan ddarogan effaith diwygiadau treth a budd-daliadau Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar dlodi, mae'r Sefydliad yn rhagweld:

**Yn 2011-12:**

- bron i ddim effaith ar dlodi plant.

**Yn 2012-13:**

- cynnydd mewn tlodi plant absoliwt / cymharol o ryw 200,000 / 100,000 o blant.

**Yn 2013-14:**

- cynnydd mewn tlodi plant absoliwt / cymharol o ryw 300,000 / 200,000 o blant.

Mae diweithdra yn un o brif achosion tlodi plant, ac felly hefyd dlodi mewn gwaith. Mae dod o hyd i waith cyflogedig yn un o'r prif ffactorau sy'n galluogi pobl i oresgyn tlodi. Mae'r rhagolygon y bydd swyddi'n cael eu colli yn sgil toriadau ariannol, ynghyd â dibyniaeth drom Cymru ar y sector cyhoeddus, yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd mwy o swyddi'n cael eu creu yn y tymor byr.

## Y llwybr hyd at 2020

Nid oes dwywaith y bydd tlodi plant yn aros yn flaenoriaeth wleidyddol o bwys wrth i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig weithio tuag at dargedau 2020. Ond mae gwir bryderon yn cael eu lleisio am faint yr her; am ba mor realistig yw'r targedau yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni; ac am gyfeiriad y polisi. Mae'n bosibl, er enghraifft, y bydd gwleidyddion yn ffafrio polisïau a fydd yn cael effaith gynt ar incwm rhieni ar draul ymatebion llai disgwyliedig a fyddai'n lleihau effaith tlodi ar blant yn y tymor hir, neu'n gwella lles plant yn y tymor hir. Mae hyn gan fod

cryn bwys wedi'i roi ar gamau a thargedau sy'n canolbwyntio ar incwm yn fwy nag ar elfennau eraill sy'n ymwneud â lles plant. Bydd hi'n gryn her cydbwyso'r angen i sicrhau gostyngiad yn nifer y plant sy'n byw mewn tlodi ar y naill law, a sicrhau canlyniadau a gwella lles plant yn y tymor hir ar y llaw arall.

Ni all Llywodraeth y Deyrnas Unedig na Llywodraeth Cymru fynd i'r afael â'r broblem eu hunain, felly mae'n amlwg y bydd angen gweithio ar y cyd. Mae'r ffaith nad oes gan Gymru reolaeth dros nifer o'r polisïau pwysig sy'n effeithio ar dlodi plant – yn enwedig mewn meysydd sydd heb eu datganoli fel trethi a budd-daliadau – yn golygu y gallai fod yn anodd cyrraedd y targedau sydd wedi'u seilio ar incwm mewn cyfnod cymharol fyr. Ond mae gan Gymru bwerau sylweddol mewn meysydd polisïau cymdeithasol, fel iechyd ac addysg, sy'n effeithio ar les blant. Mae ganddi hefyd ddull o lunio polisïau plant sy'n seiliedig ar hawliau, ac mae'n rhoi cryn bwys ar leihau effeithiau tlodi plant. Gallai'r elfennau hyn gael effaith well yn y tymor hir ar gyfleoedd bywyd pobl ifanc Cymru.

# Gwariant cyhoeddus cynaliadwy: Y dewis rhwng cyffredinoliaeth a thargedu

**Sarah Hatherley**

**Mae polisi cymdeithasol wastad wedi golygu bod angen dewis ai 'cyffredinoliaeth' neu ddethol drwy 'dargedu' fydd yr egwyddorion craidd y tu ôl i ddarpariaeth gymdeithasol. Pan fydd arian ar gael, mae gwasanaethau cyffredinol wedi cael eu ffafrio yng Nghymru, lle bo hynny'n bosibl. Ond yn ystod cyfnod o gyni ariannol, a yw agwedd o'r fath yn gynaliadwy?**

## Yr agenda cyfiawnder cymdeithasol

Ers datganoli, mae Llywodraethau olynol Cymru wedi creu fframwaith polisi nodedig sydd wedi'i seilio ar yr egwyddorion o gydraddoldeb a chyffredinoliaeth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

### Cyfle cyfartal

Mae Adran 120 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cynulliad Cenedlaethol yn sicrhau bod ei swyddogaethau'n cael eu cyflawni gan roi sylw dyledus i 'gyfle cyfartal i bawb'. Mae'r gofynion cyfreithiol yn y cyd-destun Cymreig yn ehangach na'r rhai yn y rhan fwyaf o rannau eraill y Deyrnas Unedig. Yn hytrach na thrin pawb yr un fath er mwyn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn neb, mae egwyddorion cydraddoldeb yn fwy na hynny- mae'n ymwneud â sicrhau y gall pobl gael yr un mynediad cyfartal at wasanaethau.

Gyda hyn yn gefndir, mae ffordd benodol o roi sylw i gyfiawnder cymdeithasol wedi'i datblygu, a honno wedi'i seilio ar yr egwyddor o gyffredinoliaeth gynyddol.

## Cyffredinoliaeth gynyddol

Mae'n ymddangos bod y cysyniad o wasanaethau cymorth a gwasanaethau datblygu sy'n agored i bawb, gyda gwell mynediad i'r rheini sydd angen cymorth arbennig neu gymorth wedi'i dargedu, wedi cael cryn gefnogaeth ar draws y sbectrwm gwleidyddol yng Nghymru. Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ymrwymiadau Cymru'n Un y glymblaid flaenorol rhwng Llafur a Phlaid Cymru.

### Ymrwymiadau Cymru'n Un:

- brecwast am ddim yn yr ysgol, a llaeth am ddim i'r plant ieuengaf ;
- presgripsiynau am ddim i bawb;
- teithio ar fysiau am ddim ar gyfer pensiynwyr a phobl anabl a'u gofalwyr ;
- mynediad am ddim i amgueddfeydd ac orielau ar gyfer holl ddinasyddion Cymru;
- nofio am ddim ar gyfer pob plentyn ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.

Mae'r cysyniad o 'gyffredinoliaeth gynyddol' yn deillio o'r syniad y gellir cyflawni cyfiawnder cymdeithasol drwy gydraddoldeb o ran mynediad at gyfleoedd a gwasanaethau o safon uchel. Mae'r cysyniad wedi'i seilio ar yr egwyddor bod gennym oll yr un hawliau sydd, cyn belled ag y mae'n bosibl, am ddim i'w harfer. Mae'r elfen gynyddol o gyffredinoliaeth yn ymddangos wrth ddarparu cymorth ychwanegol i'r sawl sydd â'r angen mwyaf, y tu hwnt i'r polisi cyffredinol.

### Cyffredinoliaeth gynyddol

Mae gwasanaethau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer pobl dlawd yn dirywio'n gyflym i fod yn wasanaethau gwael. Diben cyffredinoliaeth gynyddol yw darparu gwasanaethau safonol i bawb, gyda gwasanaethau arbennig ychwanegol ar gyfer y grwpiau mwyaf ymylol. Mae ymyriad cynnar yn nodweddiadol ohoni, sydd felly'n sicrhau bod costau darparu gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl sydd ag anghenion difrifol yn llai yn y tymor hwy.

Ystyrir bod gwasanaethau cyffredinol yn hybu dinasyddiaeth, cyfiawnder cymdeithasol a chydlyniad cymunedol drwy sicrhau nad yw grwpiau arbennig o bobl sydd ag anghenion penodol yn cael eu gwthio i'r cyrion, a'u bod yn gallu rhannu eu profiadau a theimlo'n rhan o'r brif ffrwd. Nid yw'r dewis rhwng cyffredinoliaeth a thargedu felly'n seiliedig yn unig ar y dyraniad gorau o adnoddau cyfyngedig. Mae'n gofyn am rwymedigaeth gyffredinol, yn ogystal â chyfres o hawliau cyffredinol, drwy sicrhau bod cyfiawnder cymdeithasol yn fater i bawb.

Fodd bynnag, os yw cyffredinoliaeth yn darparu cymaint o werth am arian, pam mae gwasanaethau cyffredinol mor fregus yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau ariannol?

## Goblygiadau cyllidebol targedu

Yn aml, defnyddir cyd-destun adnoddau cyllidebol sy'n culhau fel dadl o blaid targedu. Y dybiaeth arferol yw bod y swm sy'n cael ei wario ar wasanaethau cymorth a datblygu yn aros yr un peth ar ôl cyflwyno targedu llym, a bod y grwpiau sy'n cael eu targedu felly'n cael mwy. Fodd bynnag, mae llawer o sylwebyddion cymdeithasol yn dadlau bod y rhan fwyaf o enghreifftiau o dargedu'n arwain at gyllidebau llai ar gyfer tlodi a lles, felly'r ymateb i gynnydd mewn anghenion rhai grwpiau yw gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael ar eu cyfer.

Felly, a yw rhoi mwy i'r tlawd mewn gwirionedd yn golygu bod llai ar gael ar eu cyfer? Os felly, sut y bydd y Llywodraeth newydd yn pennu lefelau gwariant cymdeithasol pan fo'r rhagolygon ar gyfer gwariant cyhoeddus dros y blynyddoedd nesaf mor ddrwg?

### Targedu

Gellir defnyddio targedu fel modd o lefelu dosraniad incwm ac fel dull gweinyddol o gyrraedd grwpiau mewn cymdeithas sydd ag incwm o dan lefel ddiffiniedig.

## Y ddadl o blaid targedu

Mae cyfyngiad cyllidol wedi bod yn sail i'r ddadl o blaid targedu oherwydd ei fod yn awdurdodi'r farn bod targedu adnoddau at y tlawd yn hanfodol er mwyn gwella effaith a chost-effeithiolrwydd gwariant ac ymyriadau cyhoeddus. Caiff adnoddau cyhoeddus eu sianelu at y sawl sydd â'r angen mwyaf amdanynt. Mae newidiadau demograffig a diweithdra eang yn amlygu'r cyfyngiadau cyllidol ar ddarpariaeth gyffredinol. Hefyd, mae'r ddadl gyfredol ar y dewis rhwng cyffredinoliaeth a thargedu'n canolbwyntio ar y syniad o ailddosbarthu; hynny yw, mae modd honni nad yw cyffredinoliaeth yn golygu ailddosbarthu.

## Strategaeth y dyfodol ar gyfer cydraddoldeb

Ar adeg pan fo cyllidebau'n dynn, mae'n anochel y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth newydd ystyried sut y bydd yn hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. A fydd yn dilyn polisïau sydd wedi'u seilio ar gyffredinoliaeth ynteu'n dibynnu ar brofion modd a ffurfiau eraill o ddethol i sicrhau arbedion cost i'r Llywodraeth, a hynny heb effeithio ar gostau cymdeithasol ehangach?



Pennod 8 –
# Yr amgylchedd

– A fydd Cymru'n barod os bydd lefel y môr yn codi?

– Gwneud ein hôl troed yn gynaliadwy

– A ydym yn esgeuluso ein cyfalaf naturiol?

– Diogelu'r cyflenwad bwyd

# A fydd Cymru'n barod os bydd lefel y môr yn codi?

**Victoria Paris**

**Gyda darogan y bydd lefel gymharol y môr yn codi, disgwylir y bydd cost y difrod o ganlyniad i lifogydd yn cynyddu hefyd. A yw Cymru'n barod am hyn ac a fydd hi'n gallu ymdopi â'r her?**

Cred rhai mai llifogydd yw'r bygythiad mwyaf sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig yng nghyd-destun newid yn yr hinsawdd.  Mae posibilrwydd y bydd y difrod economaidd blynyddol o ganlyniad i lifogydd yng Nghymru yn cynyddu 18 gwaith rhwng 2004 a'r 2080au, er y derbynnir y gall yr her hon fod hyd yn oed yn fwy.

> ***Mae tua 60 y cant o boblogaeth Cymru'n byw mewn ardaloedd arfordirol ac mewn rhai rhanbarthau mae cymunedau i'w cael sy'n byw o dan linell y llanw***

Oherwydd newid yn yr hinsawdd a newid yn lefel y môr, disgwylir y bydd y morlin yn dioddef mwy o stormydd gerwin ac effaith y tonnau. Bydd hyn yn cynyddu erydiad arfordirol, difrod i amddiffynfeydd arfordirol a'r tebygolrwydd o lifogydd arfordirol.

## Darogan faint y gallai lefel y môr godi yn y Deyrnas Unedig

Mae'n anodd darogan faint fydd lefel y môr yn codi gan fod hyn yn dibynnu ar nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- cynnydd mewn nwyon tŷ gwydr yn yr atmosffer;
- y ffaith bod y dŵr mewn cefnforoedd yn cynhesu ac yn ymledu;
- haenau iâ, capan iâ a rhewlifoedd y byd yn toddi;
- symudiad fertigol y tir (mae Cymru'n ymsuddo tua 0.5mm y flwyddyn ar hyn o bryd tra bo'r Alban yn codi);
- cerhyntau lleol;
- amrywiaeth yn nhymheredd y dŵr a pha mor hallt yw hwnnw.

Mae'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer y newid yn lefel y môr yn y Deyrnas Unedig wedi'u nodi yn Rhagolygon Hinsawdd y Deyrnas Unedig 2009. Mae'r rhagolygon hyn yn awgrymu y bydd y môr yn codi rhwng 12cm a 76cm erbyn 2095, o'i gymharu â gwaelodlin 1980-99.  Mae hyn yn golygu cyfraddau o rhwng 1.2mm a 7.6mm y flwyddyn. Oherwydd symudiadau tir amcanol, mae'n debygol y bydd y môr yn codi mwy yn rhanbarthau deheuol y Deyrnas Unedig nag yn y gogledd.

## Darogan faint y gallai lefel y môr godi yng Nghymru

O dan senario allyriadau nwyon tŷ gwydr canolig, rhagwelir y gallai lefel gymharol y môr (gan ystyried newidiadau yn lefel y tir) godi rhwng 21cm a 68cm yng Nghaerdydd erbyn 2095. Tra bo'r rhagolygon yn edrych ar faint y gallai lefel gymharol y môr godi yng Nghaerdydd, mae'r amrywiadau daearyddol yn lefel y môr o amgylch Cymru'n fach.

### Perygl llifogydd

Ar hyn o bryd mae 220,000 o dai Cymru, neu tua 11 y cant o'r holl dai, mewn perygl o ddioddef llifogydd o afonydd ac o'r môr. O'r rhain, mae 65,000 yn debygol iawn o ddioddef llifogydd. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod llifogydd yn achosi  gwerth tua £200 miliwn o ddifrod yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae gan hyn oblygiadau mawr i gymunedau arfordirol. Mae llifogydd ac erydu arfordirol yn bygwth traethau ac felly twristiaeth yng Nghymru, sy'n cyfrannu dros £2.5 biliwn bob blwyddyn at economi Cymru.

Mae tua 60 y cant o boblogaeth Cymru'n byw mewn ardaloedd arfordirol ac mewn rhai rhanbarthau mae cymunedau i'w cael sy'n byw o dan linell y llanw. Er enghraifft, mae Aberaeron a'r Borth yn gorwedd o dan linell y llanw ac maent yn dibynnu ar dwyni tywod a thraethau cerrig mân i'w hamddiffyn rhag llifogydd llanw.

Mae seilweithiau o bwysigrwydd cenedlaethol fel purfeydd olew (Aberdaugleddau) a gorsafoedd pŵer (Wylfa, Aberddawan, Aber-wysg a Phenfro) wedi'u lleoli ar yr arfordir.

Ymhlith y seilweithiau hanfodol eraill sydd wedi'u lleoli o amgylch yr arfordir ac mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd mewndirol mae cyfleusterau cyflenwi a thrin dŵr, safleoedd cyflenwi a dosbarthu trydan yn ogystal â gorsafoedd yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r gwasanaeth ambiwlans.

Mewn rhai ardaloedd fel Penmaenmawr yng ngogledd Cymru, mae rheilffyrdd a ffyrdd yn rhedeg o fewn tafliad carreg i linell y llanw.

### Erydu arfordirol

Yn 2004, amcangyfrifwyd bod morlin Cymru a Lloegr yn erydu rhwng 20m a 67m bob 100 mlynedd, ond mae darogan y bydd hyn yn cynyddu i rhwng 82m a 175m yn dibynnu ar y senario allyriadau a ddefnyddir.

Os bydd lefel y môr yn codi, bydd hynny'n arwain at golli tir a rhagor o erydu arfordirol wrth i linell y llanw symud yn uwch i fyny'r traeth. Gall cynnydd yn uchder y tonnau ac ymchwydd stormydd hefyd achosi mwy o erydu arfordirol.

## Amddiffynfeydd

Mae amddiffynfeydd arfordirol ar hyn o bryd yn amddiffyn bron i 28 y cant o arfordir Cymru a gwerth £8 biliwn o asedau rhag erydu arfordirol a llifogydd. Fodd bynnag, nid yw'r amddiffynfeydd hyn yn rheoli'r perygl presennol o erydu arfordirol yn ddigonol, a bydd newid yn yr hinsawdd a newid yn lefel y môr yn lleihau pa mor effeithiol ydynt ymhellach.

Gall adeiladu amddiffynfeydd arfordirol fod yn dechnegol anodd ac efallai na fydd yn fforddiadwy ym mhob lleoliad yn y dyfodol. Mae'n bosibl y bydd angen gwneud dewisiadau anodd ac amhoblogaidd, ynghylch ble y dylid buddsoddi a'r ffordd i wneud hynny.

Buddsoddodd Llywodraeth flaenorol Cymru £39 miliwn yn ystod 2010-11 mewn rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru. Os cedwir y buddsoddiad mewn rheoli risg llifogydd ar y lefelau presennol yna bydd nifer yr eiddo yng Nghymru sy'n debygol iawn o ddioddef llifogydd yn cynyddu o 65,000 i 115,000 erbyn 2035, gyda chynnydd mewn difrod blynyddol disgwyliedig o ganlyniad i hynny.

Er mwyn cadw nifer yr eiddo sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn 2035 ar lefelau tebyg i'r presennol, efallai y bydd gofyn treblu lefelau buddsoddi, tra byddai lleihau nifer yr eiddo sydd mewn perygl yn gofyn am fuddsoddi rhagor eto.

Efallai bod angen amrywiaeth ehangach o gamau er mwyn rheoli effeithiau llifogydd presennol a llifogydd yn y dyfodol. Sut mae Cymru'n paratoi ar gyfer hyn? A fyddai Cymru'n barod? Ac yn fwy na hynny, a fyddai'n fodlon gadael i'r môr oresgyn rhai ardaloedd ac asedau penodol?

# Gwneud ein hôl troed yn gynaliadwy

**Nia Seaton**


**Drwy fesur a deall ein hôl troed ecolegol, a all Cymru fod yn fwy cynaliadwy?**

Nid yw ôl troed ecolegol Cymru, sef 4.4 hectar byd-eang (gha) y pen, yn gynaliadwy. Gellir ystyried ôl troed ecolegol y byd gan feddwl am gyfriflen banc, gan ei fod yn dangos a ydym yn byw yn ôl ein cyllideb ecolegol.

Yn syml, os yw Cymru a gwledydd datblygedig eraill yn parhau i ddefnyddio'r un faint o adnoddau naturiol ag y maent ar hyn o bryd, bydd y banc byd-eang o adnoddau naturiol y mae pob cymdeithas ddynol yn dibynnu arno yn mynd i'r wal. Bydd hynny'n arwain at broblemau sylweddol fel prinder dŵr, bwyd ac ynni.

Er bod ôl troed ecolegol Cymru yn uwch o lawer na'r hyn sy'n gynaliadwy yn fyd-eang, mae'n llai nag ôl troed yr Alban a Lloegr. O safbwynt byd-eang, mae ôl troed ecolegol Cymru yn llai nag olion troed yr Emiraethau Arabaidd Unedig (UAE), Unol Daleithiau America, y Swistir ac Iwerddon, ond mae'n fwy na rhai Tsieina, Periw ac Indonesia.

**Ôl troed ecolegol yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru**




## Beth yw ystyr cyfrifo ôl troed ecolegol?

Mae ôl troed ecolegol yn cymharu faint o adnoddau yr ydym yn eu defnyddio gyda faint o adnoddau sydd ar gael yn fyd-eang er mwyn asesu a yw'r hyn yr ydym yn ei ddefnyddio yn gynaliadwy. Mae'n cyfrifo arwynebedd y tir sydd ei angen yn fyd-eang i gyflenwi'r deunyddiau crai, yr ynni a'r bwyd sydd eu hangen i ddiwallu defnydd cymdeithas, yn ogystal â'r tir sydd ei angen i amsugno'r llygredd a chymryd y gwastraff a grëir wrth gynhyrchu nwyddau.

Caiff ei fesur fel arfer mewn hectarau byd-eang o dir cynhyrchiol (gha) y pen.

Ar lefel ficro, mae'n bosibl cyfrifo ôl troed ecolegol cynnyrch yn unigol, ac, ar raddfa fwy, drwy edrych ar yr holl nwyddau a ddefnyddir gan boblogaethau o feintiau gwahanol, gallwn ddarganfod ôl troed cymuned neu genedl.

Mae dulliau a dangosyddion traddodiadol yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion amgylcheddol sy'n effeithio'n ungiongyrchol ar wlad unigol, ond nid ydynt yn cyfrifo sut y mae'r ffordd o fyw mewn un wlad yn effeithio ar fywydau pobl ar weddill y blaned.


Yn 2007, roedd ôl troed ecolegol Cymru yn 4.4 gha y pen, ond er mwyn bod yn gynaliadwy dylai fod yn 1.8 gha y pen. Mae'r map hwn yn dangos olion troed ecolegol awdurdodau lleol Cymru. Gan mai yn 2003 oedd y tro olaf y cyfrifwyd olion troed awdurdodau lleol Cymru, maent yn uwch na'r ffigur ar gyfer Cymru gyfan yn 2007.

## Mynd i'r afael â'r broblem

Cyfrifodd y Stockholm Environment Institute (SEI) y bydd ôl troed ecolegol Cymru 20 y cant yn fwy yn 2020 nag oedd yn 2007 os na wneir dim byd yn ei gylch. Er hynny, awgrymodd y byddai'n bosibl i Gymru leihau ei hôl troed 10 y cant erbyn 2020 drwy roi'r polisïau cywir ar gyfer tai, bwyd a chludiant ar waith – y sectorau hynny sy'n cyfrannu fwyaf at yr ôl troed cenedlaethol.

Bydd angen am bolisïau gan Lywodraeth Cymru sy'n annog pobl i ddefnyddio llawer llai o ynni nag y maent ar hyn o bryd, sy'n eu hannog i newid eu patrymau teithio gan ddefnyddio trenau a mathau eraill o drafnidiaeth gyhoeddus, ac sy'n eu hannog i leihau'n sylweddol faint o fwyd y maent yn ei wastraffu bob blwyddyn.

**Ôl troed Cymru yn ôl thema (2003)**




*Ffynhonnell: SEI*

## Defnyddio'r ôl troed ecolegol mewn polisi: Manteision a phroblemau

Dengys astudiaethau diweddar y gellir defnyddio'r ôl troed ecolegol i archwilio sut y gellir ei leihau drwy bolisïau ymarferol.

Mae cefnogwyr y dull hwn yn datgan y gall dangosydd o'r fath gyfleu data cymhleth am y defnydd byd-eang o adnoddau mewn ffordd syml.

Fodd bynnag, mae eraill wedi dweud y dylid gochel rhag gor-ganmol y dull hwn fel dangosydd cynhwysfawr am gynaliadwyedd gan nad yw'n adlewyrchu'r materion cymdeithasol ac economaidd sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy.

## Defnydd ohono yn y dyfodol

Mae nifer o wledydd, rhanbarthau a dinasoedd ledled y byd yn defnyddio'r ôl troed fel dangosydd ar gyfer llunio polisïau. Mae hynny'n cynnwys amryw o leoedd megis y Swistir, yr Emiraethau Arabaidd Unedig, Periw, Indonesia, Cymuned y Cenhedloedd Andeaidd, Milan, Calgary a Chaerdydd.

Yn y llefydd hyn, cyfrifir yr ôl droed ecolegol at amryw o ddibenion polisi. Fe'i defnyddir:

- fel sail i bolisïau amgylcheddol a pholisïau datblygu cynaliadwy;
- fel sail i benderfyniadau ar seilwaith a chynllunio;
- i gyfathrebu materion amgylcheddol i ddinasyddion.

Defnyddiodd Llywodraeth flaenorol Cymru yr ôl troed fel dangosydd allweddol am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru, a chomisiynodd y Stockholm Environment Institute i asesu ôl troed Cymru a llunio argymhellion ar sut y gellid ei leihau.

Mater i Lywodraeth newydd Cymru ac i'r Cynulliad newydd fydd penderfynu a ddylai Cymru barhau i ddefnyddio'r ôl troed ecolegol fel ffordd o fesur ei defnydd cynaliadwy o adnoddau, ynghyd â phenderfynu a ddylid datblygu polisïau i fynd i'r afael â'r materion amgylcheddol y mae'n tynnu sylw atynt.

# A ydym yn esgeuluso ein cyfalaf naturiol?

**Nia Seaton**

**Mae'r amgylchedd yn cyfrannu £6 biliwn y flwyddyn at economi Cymru, ond mae llawer o'r amgylchedd naturiol a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ganddo dan fygythiad.**

Mae'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr amgylchedd naturiol yn werth sawl can biliwn o ddoleri i'r economi byd-eang, ac maent yn allweddol bwysig i economi Cymru. Yn ôl yr astudiaeth Gwerthfawrogi ein Hamgylchedd, mae'r amgylchedd yng Nghymru:

- yn cyfrannu £6 biliwn tuag at economi Cymru;
- yn darparu 1 o bob 6 swydd;
- yn arwain at wariant o £821 miliwn gan ymwelwyr;
- yn cyfrannu at 15 y cant o'r nwyddau a'r gwasanaethau a gynhyrchir yng Nghymru.

Serch hynny, mae llawer o amgylchedd naturiol y byd yn dirywio tra bo nifer o rywogaethau'n wynebu difodiant. Mae nifer o rywogaethau cynhenid Cymru wedi parhau i ddirywio yn yr un modd.

Yn wir, mae nifer o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn sgil yr amgylchedd, sef yr hyn a elwir yn wasanaethau ecosystemau, yn ymylu ar gyrraedd sefyllfa argyfyngus lle bydd hynny'n amharu'n arw ar eu gallu i fod yn ddefnyddiol.

Nid yw Cymru'n eithriad, lle methwyd â chyrraedd y targed a osodwyd i atal y dirywiad mewn bioamrywiaeth erbyn 2010.

## Gwarchod amgylchedd naturiol Cymru

Y prif ddull o warchod yr amgylchedd naturiol yng Nghymru yw trwy ddynodi safleoedd yn rhai sydd wedi'u diogelu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r safleoedd hyn wedi'u dynodi yn y fath fodd gan fod ynddynt gynefinoedd neu rywogaethau sy'n neilltuol bwysig i gadwraeth natur.

### Safleoedd yng Nghymru sydd wedi'u diogelu yn genedlaethol ac yn rhyngwladol

Mae dros 1,000 o safleoedd yng Nghymru sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd cenedlaethol, a bron i 100 am eu pwysigrwydd Ewropeaidd neu ryngwladol.

Caiff safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd cenedlaethol eu galw'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac maent i'w cael ledled Cymru o Ben y Gogarth yn Llandudno i Ben Pyrod ar Benrhyn Gŵyr. Mae safleoedd sydd wedi'u dynodi am eu pwysigrwydd rhyngwladol yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Ymhlith yr enwocaf mae aberoedd Afon Dyfrdwy ac Afon Hafren a mynyddoedd Eryri.

Tra bo'r safleoedd hyn yn hanfodol er mwyn gwarchod rhywogaethau a chynefinoedd unigol mewn ardaloedd penodol, nid ydynt yn gwneud rhyw lawer i warchod ac i wella ansawdd amgylchedd Cymru yn ehangach a'r gwasanaethau naturiol sy'n cael eu darparu yn sgil hwnnw.

Edrychodd adolygiad Lawton ar safleoedd tebyg yn Lloegr, ac er iddo ddweud y dylai'r safleoedd sydd wedi'u diogelu barhau'n ganolbwynt i'r holl waith cadwraeth, mae angen newid ein dull o weithredu'n sylweddol. Yn ôl yr adolygiad, mae angen rhoi'r gorau i geisio dal gafael ar yr hyn

sy'n weddill a dechrau adfer ac ail-greu cynefinoedd ar raddfa fawr. Bydd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun effeithiau newid yn yr hinsawdd, gan y bydd angen lle ar rywogaethau i ymfudo o'r naill safle i'r llall wrth i'r hinsawdd newid.

## Yr opsiynau yn y dyfodol

Yn ôl yr astudiaeth ryngwladol, The Economics of Ecosystems and Biodiversity, prin iawn yw'r sylw a roddir i wasanaethau byd natur wrth edrych ar ganlyniadau economaidd, ac mae hynny wedi arwain at esgeuluso ein cyfalaf naturiol i raddau helaeth iawn. Mae hyn yn golygu bod y broses o ddinistrio natur wedi cyrraedd lefelau lle mae costau cymdeithasol ac economaidd gwir ddifrifol i'w gweld.

Er mwyn i werth economaidd byd natur a'i wasanaethau, fel bwyd ac ansawdd dŵr, fod yn amlwg ym mhrosesau cyllidebu llywodraethau, mae sawl arbenigwr yn galw am fabwysiadu dull o weithredu ar sail ecosystemau.

### Gweithredu ar sail ecosystemau

Gellir disgrifio nwyddau a gwasanaethau ecosystemau fel y nwyddau a'r gwasanaethau naturiol sy'n cael eu darparu gan yr ecosystem, a'r rheini'n hanfodol i'r blaned ac i les y ddynoliaeth, fel ffurfiant y pridd, bwyd, rheoleiddio'r hinsawdd ac ynni adnewyddadwy.

Nod gweithredu ar sail ecosystemau yw sicrhau bod gwerth y gwasanaethau hanfodol hyn yn cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau economaidd, er mwyn asesu gwir gostau'r penderfyniadau hynny.

Yn ogystal â chanolbwyntio ar warchod rhywogaethau unigol yn ein safleoedd sydd wedi'u diogelu, mae gweithredu ar sail ecosystemau yn golygu ein bod yn ceisio gwerthfawrogi a gwarchod y gwasanaethau yn ein hamgylchedd yn ehangach, gan greu gwell cysylltiadau rhwng mannau gwyrdd yn ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd.

Er mwyn gwneud hyn, bydd angen newid yn sylweddol y modd yr ydym wedi mynd i'r afael â'r dirywiad mewn bioamrywiaeth hyd yma. Fodd bynnag, mae'n rhoi cyfleoedd newydd hefyd:

- i edrych ar y posibilrwydd o greu ynni adnewyddadwy mewn cymunedau;
- i leihau cyfraddau yswiriant mewn mannau sydd â risg llifogydd drwy fabwysiadu arferion rheoli tir gwahanol.

## Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009: Newidiadau posibl

Mae camau tuag at fabwysiadu dull o weithredu ar sail ecosystemau eisoes yn cael eu cymryd yn ein hamgylchedd morol.

Rhoddodd *Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009* bwerau deddfwriaethol i'r llywodraethau yng Nghymru a Lloegr i gyflwyno system gynhwysfawr a strategol ar gyfer gwarchod yr amgylchedd morol.

Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraeth Cymru i gyflwyno system cynllunio morol a fydd yn edrych ar yr holl wasanaethau y mae'r amgylchedd morol yn eu darparu. Bydd yn galluogi'r Llywodraeth hefyd i wneud penderfyniadau ynghylch pa gamau y bydd angen eu cymryd ac ymhle er mwyn sicrhau bod ein moroedd mewn cyflwr da.

At hynny, bydd modd creu Parthau Cadwraeth Morol yn sgil y Ddeddf, a fydd yn diogelu'r elfennau pwysicaf yn ein hamgylchedd morol er mwyn gwarchod ein moroedd a'r rhywogaethau sydd ynddynt. Bydd 2011 yn flwyddyn dyngedfennol yn hynny o beth ac o ran dysgu gwersi er lles yr amgylchedd ar y ddaear.

# Diogelu'r cyflenwad bwyd

**Hannah Rose a Nia Seaton**

**Mae diogelu'r cyflenwad bwyd wedi dod yn fater o bwys i lywodraethau ledled y byd. Yng Nghymru, mae'r system fwyd yn rhan annatod o systemau bwyd y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a'r byd. Er mwyn diogelu'r cyflenwad bwyd yng Nghymru, ar ba benderfyniadau Ewropeaidd a byd-eang y dylai Cymru geisio dylanwadu?**

Daeth ansefydlogrwydd diogelwch y cyflenwad bwyd byd-eang i'r amlwg yn 2007 a 2008 pan arweiniodd cynnydd mewn prisiau bwyd at brotestiadau treisgar ym mhob cwr o'r byd, gan olygu bod 115 miliwn yn rhagor o bobl yn wynebu newyn. Yn sgil hyn, rhybuddiodd yr Athro John Beddington, Prif Gynghorydd Gwyddonol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, fod y byd ar fin wynebu 'Storm Berffaith' o brinder bwyd, dŵr ac ynni. Erbyn mis Mawrth 2011, cyrhaeddodd Mynegai Prisiau Bwyd Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig ei lefelau uchaf erioed.

## Cynnydd mewn prisiau bwyd

A hithau'n wlad sy'n mewnforio bwyd ar raddfa net, gallai Cymru ddioddef yn sgil newidiadau i brisiau bwyd sydd wedi bod yn cynyddu ers 1988. At hynny, ers 2007, mae'r chwyddiant ym mhrisiau bwyd yn y Deyrnas Unedig yn aml wedi bod yn uwch na'r chwyddiant cyffredinol, gan effeithio ar ba mor fforddiadwy yw bwyd yng Nghymru a faint ohono sydd ar gael. Cynyddodd gwariant cartrefi Cymru ar fwyd bron i 20 y cant rhwng 2006 a 2009, a byddai teulu a fyddai'n gwario £100 yr wythnos ar fwyd yn 2007 wedi gorfod gwario £600 yn ychwanegol yn ystod 2008 am yr un bwyd.


**Diogelu'r cyflenwad bwyd: Y prif ffactorau**

Mae modd diogelu'r cyflenwad bwyd pan fydd digon o fwyd ar gael a phan fydd yn ddigon rhwydd cael gafael ar y bwyd hwnnw er mwyn rhoi deiet cytbwys i bawb.

Yn ôl yr adroddiad Foresight: the Future of Food and Farming, mae chwe phrif ffactor yn effeithio ar y gallu i ddiogelu'r cyflenwad bwyd:

- y cynnydd ym mhoblogaeth y byd;
- newidiadau yn y galw am fwyd;
- newidiadau ym moeseg a gwerthoedd defnyddwyr;
- y gystadleuaeth am adnoddau;
- newid yn yr hinsawdd;
- y modd y caiff y system fwyd ei llywodraethu.

**Chwyddiant bwyd: Ionawr 2011**




Ffynhonnell: ONS/Inflationstats

Mae'r amrywiaeth yn y ffynonellau bwyd sy'n cael eu mewnforio i'r Deyrnas Unedig a Chymru yn

diogelu'r cyflenwad i raddau, tra bo'r Deyrnas Unedig hefyd yn cynhyrchu 59 y cant o'i bwyd ei hun. Mae hynny'n golygu y gallai ymdopi'n weddol pe bai unrhyw beth yn amharu ar y cyflenwad bwyd.

Serch hynny, nid yw bod yn hunangynhaliol yn ddigon pe bai rhywbeth yn amharu ar gyflenwad nwyddau sydd wedi'u mewnforio ac sy'n hanfodol i gynhyrchu bwyd.

Er enghraifft, mae'n rhaid dibynnu'n drwm ar fwyd anifeiliaid sydd wedi'i fewnforio er mwyn cynhyrchu bwyd yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig, a byddai hynny dan fygythiad pe bai rhywbeth yn amharu ar gyflenwad y nwyddau hyn.

Mae llawer o'r prif ddulliau sydd gan Lywodraeth Cymru o greu polisïau i ddiogelu'r cyflenwad bwyd wedi'u seilio ar ddeddfwriaeth a pholisïau a gaiff eu creu gan yr Undeb Ewropeaidd. Dwy o'r elfennau pwysicaf yn hyn o beth yw'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r broses o awdurdodi organeddau a addaswyd yn enetig, gan eu bod yn dylanwadu'n uniongyrchol ar gynhyrchu bwyd yng Nghymru.

## Diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin

Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn rhoi cymorthdaliadau a chymorth ariannol i ffermwyr, cynhyrchwyr a chymunedau gwledig yng Nghymru. Amcanion gwreiddiol y polisi oedd diogelu cyflenwadau bwyd a rhoi incwm teg i ffermwyr. Yn fwy diweddar, mae'r polisi wedi canolbwyntio ar gynhyrchu cynaliadwy ac ar heriau amgylcheddol. Yn ystod y ddwy flynedd nesaf, bydd y trafodaethau diweddaraf yn cael eu cynnal ar gyfer diwygio'r polisi. Gan gofio pa mor ddibynnol yw'r sector amaethyddol yng Nghymru ar y polisi hwn i wneud elw ac i gynnal eu busnesau, mae'n debygol y bydd y diwygiadau'n cael effaith sylweddol ar allu Llywodraeth Cymru i ddiogelu'r cyflenwad bwyd yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ddibynnol i raddau helaeth ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i gynnal y trafodaethau ffurfiol ar ei rhan. Hyd yma, ni chafwyd llawer o gytundeb rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch sut y dylid diwygio'r polisi. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn galw am Bolisi Amaethyddol Cyffredin sy'n rhoi cymorth uniongyrchol tuag at incwm ffermydd, tra bo Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi galw am leihau maint cyllideb y polisi ac am ddiwygiadau sy'n canolbwyntio fwy ar y farchnad.

## Organeddau a addaswyd yn enetig

Mae organeddau a addaswyd yn enetig yn faes deddfwriaethol ac yn faes polisi arall a fydd yn cael sylw yn y ddwy flynedd nesaf.

Mae'r ddadl ynghylch defnyddio organeddau a addaswyd yn enetig yn gysylltiedig â'r ddadl ynghylch diogelu'r cyflenwad bwyd. Mae'r rheini sydd o blaid cnydau GM yn dadlau y gallai addasu cnydau arwain at gnydau gwell a mwy dibynadwy, tra bo gwrthwynebwyr yn datgan y byddant yn bygwth y diogelwch amgylcheddol sy'n angenrheidiol er mwyn cynhyrchu bwyd.

Mater o bwys i Gymru fydd gweld a fydd modd gweithredu'r cynlluniau newydd o Ewrop ar lefel ranbarthol, ac a allai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol wahardd tyfu cnydau a addaswyd yn enetig yng Nghymru pe bai'n dymuno gwneud hynny.

Bydd y penderfyniadau a wneir yn Ewrop dros y meysydd polisi hyn yn dylanwadu'n drwm ar sut y diogelir y cyflenwad bwyd yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd nesaf. Gwaith Llywodraeth a Chynulliad newydd Cymru fydd sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed yn ystod y trafodaethau pwysig hyn.



Pennod 9 –
# Y Gymraeg, y cyfryngau a chwaraeon

– A fydd Cymru'n elwa mewn unrhyw ffordd o Gemau Olympaidd 2012?

– Dyfodol darlledu yng Nghymru

– Edrych tua'r dyfodol: Cynllunio strategol ar gyfer addysg Gymraeg

# A fydd Cymru'n elwa mewn unrhyw ffordd o Gemau Olympaidd 2012?

**Gareth England**

**Mae Gemau Olympaidd Llundain 2012 yn golygu buddsoddiad enfawr gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ond pa effaith a gaiff y cyfan ar Gymru?**

Bydd Gemau Olympaidd Llundain 2012 yn cyrraedd tir Cymru mewn ychydig dros flwyddyn, wrth i Gaerdydd gynnal gêm agoriadol y twrnamaint pêl droed Olympaidd.

> ***Mae'r ffaith bod y gemau wedi'u dynodi fel digwyddiad drwy'r Deyrnas Unedig gyfan yn golygu na fydd symiau canlyniadol o dan fformiwla Barnett yn dod i Gymru o ganlyniad uniongyrchol i'r Gemau Olympaidd***

Fodd bynnag, gellir dadlau bod y gemau yn barod wedi cael effaith sylweddol ar Gymru a'i phoblogaeth drwy ddargyfeirio arian loteri a allai fel arall fod wedi cael ei glustnodi ar gyfer datblygu chwaraeon ar lawr gwlad.

Nid hawdd yw nodi'n union faint o arian a fydd yn cael ei ddargyfeirio yn y modd hwn. Mae ffigurau o hyd at £100 miliwn wedi cael eu hamcangyfrif ond ni ellir cyfrifo'r cyfanswm gwirioneddol tan ar ôl y gemau.

Hefyd, mae'r ffaith bod y gemau wedi'u dynodi fel digwyddiad drwy'r Deyrnas Unedig gyfan yn golygu na fydd symiau canlyniadol o dan fformiwla Barnett yn dod i Gymru o ganlyniad uniongyrchol i'r Gemau Olympaidd.

Ar ôl y gemau, nid oes amheuaeth y bydd galw am weld arian y loteri yn dychwelyd i'w lefelau blaenorol, a bydd cryn graffu ar ba mor gyflym y bydd hyn yn digwydd.

## Contractau

Mae adroddiadau diweddar yn y cyfryngau wedi awgrymu bod nifer y cwmnïau o Gymru sydd wedi llwyddo i gael contractau lefel 1 gan Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd yn isel o'i gymharu â chwmnïau o weddill y Deyrnas Unedig. Mae'r ffigurau'n awgrymu y rhoddwyd 11 contract i gwmnïau o Gymru erbyn mis Tachwedd 2010, o'i gymharu â 726 yn Llundain a 25 yn y Alban, er bod y ffigur hwn wedi cynyddu i 14 erbyn mis Mawrth 2011 a bod rhai contractau cadwyn gyflenwi sylweddol wedi cael eu rhoi i fusnesau Cymreig.

Roedd Llywodraeth flaenorol Cymru wedi annog cwmnïau o Gymru i wneud ceisiadau am y contractau a'r is-gontractau a oedd yn weddill drwy ei gwasanaeth cymorth i fusnesau, a chynhaliodd ddigwyddiadau yn y gogledd a'r de i hysbysebu'r cyfleoedd a oedd ar gael. Bydd yn rhaid aros i weld sawl cwmni sy'n llwyddiannus, gan ychwanegu at y £38 miliwn o gontractau o roddwyd hyd yn hyn.

## Twristiaeth

Mae twristiaeth yn faes arall lle gall buddion posibl ddod yn sgil y Gemau Olympaidd. Mae gan Gaerdydd fantais arbennig oherwydd ei bod yn lleoliad ar gyfer rhan o dwrnamaint pêl droed y Gemau Olympaidd. Mae timau Olympaidd a Pharalympaidd o wledydd amrywiol hefyd wedi cytuno i leoli eu timau yng Nghaerdydd ac Abertawe yn ystod y gemau, ond mae'n ymddangos bod Cymru'n cystadlu â chenhedloedd a rhanbarthau eraill y Deyrnas

Unedig i ddenu unrhyw ymwelwyr sy'n dod draw i'r gemau.

Yn yr un modd, mae ymrwymiadau a wnaethpwyd i bartneriaid a noddwyr yn golygu bod digwyddiadau chwaraeon mawr yn gallu ymddangos fel eu bod yn cael eu cynnal mewn byd corfforaethol, gan adael ychydig o gyfle i ddiwylliant lleol gael ei weld neu ffynnu, os o gwbl.

Mae'n bosibl, felly, na fydd agweddau ar ddiwylliant Cymru ac yn wir yr iaith Gymraeg yn amlwg pan fydd digwyddiadau'n cael eu cynnal yng Nghaerdydd.

## Effaith ar chwaraeon a diwylliant

O ystyried mai gwlad fechan yw Cymru, mae wedi bod yn gymharol lwyddiannus o ran meithrin enillwyr medalau Olympaidd a Pharalympaidd, a disgwylir i athletwyr o Gymru wneud yn dda unwaith eto yn Llundain. Hefyd, mae gan Gymru gyfleusterau chwaraeon o safon uchel, felly mae'n ymddangos bod chwaraeon yng ngwaed y genedl.

Yn ystod y Cynulliad blaenorol, dywedodd y Gweinidog dros Dreftadaeth ar y pryd mai'r prif nod yng Nghymru fyddai defnyddio'r cyfleoedd i ymgysylltu'n gyhoeddus, ynghyd â phroffil y Gemau Olympaidd, i ddylanwadu ar gynlluniau sy'n bodoli eisoes.

### Yr 'Olympiad Diwylliannol':

- **dathliad diwylliannol** o'r Gemau Olympaidd ledled y Deyrnas Unedig am bedair blynedd, rhwng 2008 a 2012;
- wedi'i weinyddu yng Nghymru gan **Gyngor Celfyddydau Cymru**;
- 5 prosiect mawr yng Nghymru o dan awenau'r rhaglen **Grym y Fflam**, sydd yn werth £2.85 miliwn, ac wedi'i hanelu at bobl ifanc a phobl anabl.

Mae'n ymddangos mai'r cynlluniau hyn, sy'n cynnwys cynlluniau 5x60 a Champau'r Ddraig mewn ysgolion yng Nghymru, elfennau Cymreig yr Olympiad Diwylliannol (mae rhai ohonynt yn cyd-fynd â'r cwricwlwm addysg), a phrosiect Gemau Cymru sy'n cael ei arwain gan yr Urdd, sydd â'r potensial mwyaf i ddangos effaith y gemau yng Nghymru.

## Cymryd rhan

Mae gallu'r Gemau Olympaidd i annog oedolion i gymryd rhan mewn chwaraeon yn rheolaidd wedi cael ei gwestiynu mewn gwaith ymchwil a wnaethpwyd yn dilyn digwyddiadau mewn gwledydd eraill.

Mae'n ymddangos bod targedau Llywodraeth flaenorol y Deyrnas Unedig i gael dwy filiwn yn rhagor o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff wedi cael eu cwtogi gan y weinyddiaeth gyfredol, gyda'r targed o gael miliwn o bobl i wneud ymarfer corff cyffredinol eisoes wedi diflannu i bob golwg.

Dengys ystadegau ar nifer yr oedolion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yng Nghymru bod 56 y cant o'r boblogaeth wedi cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau hamdden corfforol yn rheolaidd yn 2008-09, ychydig yn is na'r 59 y cant a nodwyd yn yr arolwg blaenorol yn 2004-05.

Er nad oes unrhyw ymrwymiad penodol o ran effaith y gemau ar Gymru, mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn awyddus i achub ar y cyfle i ddefnyddio'r gemau mewn amryw gynlluniau newydd i annog chwaraeon a byw'n iach. Felly, mae gan Gymru gyfle i elwa'n ddiwylliannol, yn gymdeithasol ac yn economaidd o'r gemau hyn. Fodd bynnag, dim ond yn y cyfnod cyn ac yn syth ar ôl y digwyddiad ei hun y daw gwir effaith y gemau i'r amlwg.

# Dyfodol darlledu yng Nghymru

**Rhys Iorwerth**

**Mae datblygiadau diweddar ym maes darlledu yng Nghymru wedi ysgogi galwadau am ddatganoli'r maes polisi hwn – ond a yw hwn yn opsiwn ymarferol mewn gwirionedd?**

Fwy neu lai, mae pob penderfyniad gwleidyddol o bwys sy'n effeithio ar ddarlledu yng Nghymru'n cael ei wneud yn Llundain gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon. Dyma yw'r sefyllfa hyd yn oed ar ôl canlyniad y refferendwm ym mis Mawrth.

Mae'r rhai sy'n feirniadol o'r trefniadau'n dadlau bod pryderon ynghylch dyfodol S4C, y diffyg lluosogrwydd yn y cyfryngau Cymreig a diffyg cynrychiolaeth o Gymru ar y rhwydweithiau cenedlaethol wedi bod yn amlwg iawn dros y blynyddoedd diwethaf, a bod y rhesymau hyn yn seiliau cadarn dros alw am newid. Byddai eraill yn llai parod i gytuno.

## Rhagor o ddatganoli: Y dadleuon yn erbyn

Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi dweud nad oes ganddi gynlluniau i drosglwyddo pwerau dros ddarlledu i unrhyw un o'r gwledydd datganoledig. Yn ôl Gweinidogion y Deyrnas Unedig, cadw darlledu fel mater canolog yw'r unig ffordd o gynnal safonau cenedlaethol a sicrhau bod darlledwyr yn parhau'n annibynnol.

Yn y gorffennol, nid yw Llywodraethau blaenorol Cymru wedi dangos llawer iawn o frwdfrydedd dros gymryd cam o'r fath ychwaith. Mae eu hamharodrwydd yn aml wedi bod yn seiliedig ar ansicrwydd ynghylch yr anawsterau a fyddai ynghlwm wrth ddatganoli agweddau ar ddarlledu ar wahân i'w gilydd, ac ansicrwydd ynghylch unrhyw drefniadau ariannu dilynol.

Mae eraill yn pwysleisio bod gwasanaethau darlledu yn cael eu darparu fwyfwy gan gwmnïau cenedlaethol ac amlwladol. Byddai annog rhagor o ddatganoli yn y maes hwn yn annoeth, yn enwedig mewn cyfnod o gyni ariannol difrifol.

Mae dadl hefyd na fyddai modd i wahanol gyfryngau darlledu yng Nghymru eu hariannu eu hunain yn ddigonol heb gymhorthdal gan incwm y drwydded deledu yn Lloegr. Mae ystyriaethau ymarferol eraill a rhwystrau technegol yn golygu bod y sefyllfa bresennol yn opsiwn llawer mwy tebygol.

Yn 2008, awgrymodd Pwyllgor Darlledu'r Cynulliad ei hun fod gormod o'r ddadl hon wedi canolbwyntio ar ddatganoli polisi pan ddylai'r ffocws fod ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd, tryloywder a chraffu o dan y strwythurau presennol.

## Yr achos dros drosglwyddo pwerau

Ar y llaw arall, mae'r rhai sydd o blaid datganoli pwerau darlledu yn nodi nad yw'n gwneud synnwyr o gwbl bod penderfyniadau yn y cyd-destun hwn yn cael eu gwneud yn Llundain ond bod cymhwysedd dros feysydd polisi cydberthynol eraill, fel diwylliant a'r diwydiannau creadigol, yn gorwedd yng Nghymru.

Daeth dadleuon o'r fath i'r amlwg yn ddiweddar wedi i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon benderfynu torri cyllideb S4C a throsglwyddo'r cyfrifoldeb dros'r ariannu'r sianel i'r BBC heb ymgynghori â Gweinidogion Cymru. Mae hyn er gwaetha'r ffaith bod y cyfeiriad polisi cyffredinol ar yr iaith Gymraeg yn cael ei benderfynu gan Lywodraeth Cymru.

Y ddadl yw y byddai Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru mewn llawer gwell sefyllfa, a bod ganddynt well gwybodaeth gefndir, i fynd i'r afael â materion sy'n wynebu'r diwydiant darlledu yng Nghymru na Gweinidogion yn Llundain, sy'n aml yn anghyfarwydd â chymhlethdodau cynhenid ac anghenion unigryw Cymru.

## Diffyg diwylliannol a democrataidd

Byddai cefnogwyr datganoli darlledu yn honni ymhellach bod y sefyllfa bresennol yn rhwystro datblygiad bywyd cenedlaethol a sifig Cymru. Yn benodol:

- mae hi'n argyfwng ar ddarlledu yng Nghymru, gyda chyllid ar gyfer rhaglenni Saesneg eu hiaith ITV a BBC ar gyfer Cymru wedi gostwng 44 y cant rhwng 2004 a 2009. Disgwylir rhagor o doriadau yn y blynyddoedd nesaf;
- nid yw materion Cymreig yn cael cynrychiolaeth ddigonol ym mhapurau newydd Llundain nac ar y rhwydweithiau darlledu cenedlaethol, er bod y mwyafrif o bobl Cymru'n cael eu newyddion o'r mannau hyn. Mae lluosogrwydd newyddion o fewn Cymru ei hun yn bryder hefyd;
- mae tuedd wedi bod erioed i ganoli darlledu yn y Deyrnas Unedig, yn arbennig mewn cyfnodau o gyni ariannol. Mae'r canoli hwn yn mynd yn groes i'r graen o ran datganoli;
- mae posibilrwydd i'r holl ffactorau uchod greu diffyg yn nhirwedd diwylliannol Cymru, a gallent gael effaith ddemocrataidd bellgyrhaeddol oherwydd y prinder sylw i wleidyddiaeth Cymru.

## Rhannu cyfrifoldeb?

Mae rhai sylwebwyr wedi awgrymu efallai nad datganoli pwerau darlledu'n llwyr na chadw pethau fel y maent yw'r ateb delfrydol.

Mae ffigyrau amlwg yn y byd darlledu yng Nghymru yn dadlau y dylai'r cyfrifoldeb am ddarlledu gael ei rannu rhwng Caerdydd a Llundain, a bod pwerau'n gorwedd mewn lleoedd neu sefydliadau gwahanol yn ôl yr hyn sydd fwyaf addas i adlewyrchu ffurf gyfansoddiadol newydd y Brydain ddatganoledig.

Byddai angen amlinellu manylion y berthynas newydd rhwng S4C, y BBC, Llywodraeth Cymru, yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ac Ofcom. Ond trwy edrych ar raddfeydd gwahanol o ddatganoli, byddai modd dod o hyd i ffordd ymlaen sy'n realistig ac yn ddymunol.

Yn yr un modd, mae eraill wedi galw am sefydlu Comisiwn Cyfryngau Cymru i ariannu cynnwys y cyfryngau Saesneg eu hiaith yng Nghymru, gan honni y gallai cam o'r fath gael effaith sylweddol. Er y byddai'r prif gyfrifoldeb am ddarlledu yn parhau ar lefel y Deyrnas Unedig, byddai'n rhoi rhywfaint o gyfrifoldeb i Gymru ac yn gwella atebolrwydd. Byddai modd gweithredu yn yr un modd gyda golwg ar S4C.

Byddai dewisiadau o'r fath, fodd bynnag, yn dibynnu'n fawr ar ewyllys a chytundeb gwleidyddol. Mae'n fater arall a welwn y consensws hwnnw fyth.

### Datblygiadau yn yr Alban

Nid Cymru yw'r unig genedl lle mae materion yn ymwneud â darlledu'n cael eu trafod. Mae Llywodraeth yr Alban yn hyrwyddo'r syniad o sefydlu Rhwydwaith Digidol ar hyn o bryd, a fyddai'n golygu bod prif elfennau'r system ddarlledu yn y Deyrnas Unedig yn cael eu cadw, ond bod modd i ragor o raglenni sy'n adlewyrchu bywyd a diwylliant yr Alban gael eu cynhyrchu.

# Edrych tua'r dyfodol: Cynllunio strategol ar gyfer addysg Gymraeg

**Gareth England**

**Beth yw'r prif faterion sy'n ymwneud â chynllunio strategol ar gyfer addysg Gymraeg yn y dyfodol, ac a oes angen deddfwriaeth?**

## Cynnydd

Ers sefydlu'r ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn 1947, mae'r sector wedi tyfu o'r syniad cychwynnol a gefnogwyd gan ychydig o arloeswyr i fod yn rhan annatod o dirwedd y byd addysg Gymraeg.

Mae nifer y disgyblion yn ein hysgolion cynradd Cymraeg yn cynyddu. Yn ôl Ystadegau Cyfrifiad Ysgolion 2009-10, mae 22 y cant o blant Cymru yn dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ym Mlwyddyn 1, ac mae'r ganran hon yn cynyddu bob blwyddyn ar hyn o bryd.

Gwelir twf sylweddol yn yr ardaloedd hynny lle nad yw trwch y boblogaeth, yn draddodiadol, yn siarad Cymraeg, yn enwedig yn hen ardaloedd diwydiannol y de-ddwyrain.

Mae'r ffigurau ar gyfer 2009-10 yn dangos bod **21 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn Rhondda Cynon Taf** yn cael addysg Gymraeg, o'u cymharu â'r ffigurau cyfatebol ar gyfer **Caerffili (17 y cant)** a **Chaerdydd (16 y cant).**

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Addysg Gymraeg ym mis Ebrill 2010, gan gyflwyno agenda hirdymor i ddatblygu addysg Gymraeg.

## Cynllunio at y dyfodol

Mae'r angen i awdurdodau lleol gynllunio ymlaen llaw yn fater sy'n dod yn gynyddol bwysig, yn

Mae'r **Strategaeth Addysg Gymraeg** yn nodi nifer o ganlyniadau a thargedau sy'n ganolog i'w llwyddiant, gan gynnwys:

- asesu **30 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 2** mewn Cymraeg iaith gyntaf erbyn 2020;
- asesu **23% o ddisgyblion Blwyddyn 9** mewn Cymraeg iaith gyntaf erbyn 2020.

enwedig o ystyried y cynnydd yn nifer y disgyblion yn rhai o ardaloedd y de-ddwyrain.

Mae grwpiau fel RhAG (Rhieni Dros Addysg Gymraeg) wedi bod yn ymgyrchu ers tro dros yr angen i awdurdodau lleol gynllunio'n strategol drwy asesu'r angen i ddarparu addysg Gymraeg ym mhob ardal awdurdod lleol.

Ymhlith prif elfennau Strategaeth Addysg Gymraeg y Llywodraeth yn y cyd-destun hwn, mae'r angen i gymryd camau i wella'r modd y mae awdurdodau lleol yn asesu'r galw am addysg Gymraeg ymhlith rhieni, a'r angen iddi fod yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio ar y cyd ar ffurf consortiwm i gynllunio addysg Gymraeg.

Mae angen i awdurdodau lleol hefyd gyflwyno cynlluniau strategol blynyddol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg. Caiff y rhain eu defnyddio i fonitro'u hymdrechion o ran asesu'r galw am addysg Gymraeg.

## Oes angen deddfwriaeth?

Er bod strategaeth y Llywodraeth wedi'i chroesawu'n gyffredinol, mae'r ffaith nad yw'n statudol yn peri pryder i nifer o gyrff. Mae'n anorfod fod hyn yn ein harwain i ofyn a oes angen deddfwriaeth sylfaenol i sicrhau llwyddiant y strategaeth.

Mae dilyniant ieithyddol disgyblion o'r naill sector addysgol i'r llall hefyd yn dibynnu ar allu awdurdodau lleol i baratoi cynlluniau strategol ar gyfer addysg Gymraeg. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod y broses o feithrin sgiliau iaith yn digwydd dros gyfnod drwy osod targedau 5 mlynedd a 10 mlynedd yn y cyswllt hwn, ond gan nad yw'n ddogfen statudol, cred llawer nad oes modd gorfodi awdurdodau i gynllunio fel hyn.

Nid oedd *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth benodol ar gyfer addysg Gymraeg. Dywedodd y Pwyllgor Deddfwriaeth a fu'n craffu ar y Mesur nad oedd yn credu mai'r darn penodol hwn o ddeddfwriaeth oedd y lle priodol ar gyfer darpariaethau a oedd yn ymwneud â meysydd penodol fel addysg.

Mae'r Mesur, fodd bynnag, yn caniatáu i'r Llywodraeth osod safonau ar gyfer cyrff sy'n ymwneud ag addysg, fel awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, gan adeiladu ar y cynlluniau'n ymwneud ag addysg Gymraeg a gafwyd o dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*.

Mae rhai'n amau a yw hyn yn ddigon i orfodi awdurdodau lleol i roi'r strategaeth ar waith. Ymddengys y bydd y galw am fil ar addysg Gymraeg yn cynyddu yn ystod y pedwerydd Cynulliad.


## Bodloni'r galw

Mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i alw i mewn gynlluniau gwreiddiol Cyngor Caerdydd ar gyfer ad-drefnu ysgolion Cymraeg y ddinas yn dangos bod addysg Gymraeg yn parhau'n bwnc llosg. Bu cryn ddadlau ynglŷn â'r cynlluniau gwreiddiol i gau ysgol gynradd cyfrwng Saesneg er mwyn creu rhagor o leoedd yn y sector addysg Gymraeg, a theimlai rhai bod addysg cyfrwng Saesneg yn dioddef ar draul bodloni'r galw am addysg Gymraeg.

Ceir tystiolaeth bod lleoedd gwag mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ac nad oes modd ateb y galw am leoedd mewn ysgolion Cymraeg, neu y bydd prinder lle yn y dyfodol agos. Gan fod awdurdodau lleol wedi'u cyfyngu gan gyllidebau tynnach, bydd y cydbwysedd rhwng ariannu addysg cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn dod o dan y chwyddwydr yn fwy nag erioed.

Dylai canlyniadau cyfrifiad Mawrth 2011 hefyd fod yn sylfaen ar gyfer unrhyw gynlluniau ar gyfer addysg Gymraeg yn y dyfodol.

**Siaradwyr Cymraeg: canran yn ôl grŵp oedran: 1951 - 2001**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad y boblogaeth*

Yn 2001, bu cynnydd mawr yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 5 a 15 oed. Yn nhyb llawer, addysg Gymraeg sydd i'w briodoli am y cynnydd hwn. Bydd yn ddiddorol gweld a fydd ffigurau 2011 yn dangos cynnydd pellach ac a fydd y canlyniadau hyn yn arwain at unrhyw newid yn y polisi presennol.



Pennod 10 –
# Cymru a'r byd

– Yr Undeb Ewropeaidd a Chymru: Beth sydd yn y fantol yn 2011 a 2012?

– Cymru a'r byd

# Yr Undeb Ewropeaidd a Chymru: Beth sydd yn y fantol yn 2011 a 2012?

**Gregg Jones**

**Wrth i'r trafodaethau ddechrau ym Mrwsel yn 2011 ar ddyfodol cyllideb amlfwydd yr Undeb Ewropeaidd, beth sydd yn y fantol i Gymru, a beth ellid ei golli?**

Ar hyn o bryd, mae Cymru'n cael ychydig o dan £2 biliwn o gyllid (ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013) o Gronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd, sy'n rhan o'r Polisi Cydlyniant. Mae'n cael yr arian hwn ar gyfer datblygu economaidd ac adfywio, ynghyd â thros £300 miliwn y flwyddyn drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredin i gynorthwyo ffermwyr a chymunedau gwledig.

Nid oes sicrwydd y bydd Cymru yn dal i gael yr un lefel o gyllid yn y dyfodol gan yr Undeb Ewropeaidd, gan y bydd hyn yn dibynnu ar drafodaethau dwys yn ystod 2011 a 2012 pan fydd sefydliadau'r Undeb a'r llywodraethau cenedlaethol yn dadlau am faint, strwythur a blaenoriaethau'r gyllideb ar ôl 2014.

## Pa mor bwysig yw'r arian hwn i Gymru?

Mae ffigurau Llywodraeth Cymru yn dangos bod y Gymru wledig yn dibynnu'n eithaf trwm ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gyda'r taliad sengl i ffermwyr – yr elfen fwyaf yng nghyllideb y Polisi – yn gyfrifol am tua 80 y cant o holl incwm ffermydd yn 2009.

Mae'r buddsoddiad drwy'r Cronfeydd Strwythurol yn llai wrth edrych arno fel cyfran o'r holl wariant cyhoeddus yn economi Cymru. Er enghraifft, yn 2011, mae'r gyllideb o tua £275 miliwn o dan y ddwy brif raglen Gymreig yn rhyw 2 y cant unig o holl gyllideb Llywodraeth Cymru o £13.8 biliwn ar gyfer 2011-2012. Serch hynny, o'u cymharu â'r elfen yn Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn unig, daw pwysigrwydd y Cronfeydd Strwythurol i'r amlwg, gan eu bod yn cyfrannu rhyw 17 y cant at gyllideb yr Adran yr Economi a Thrafnidiaeth (£1.6 biliwn).

## Ffynonellau cyllid Ewropeaidd eraill

Yn ogystal â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r ddwy brif raglen ranbarthol o dan y Cronfeydd Strwythurol, ceir amryw o raglenni cyllido eraill drwy'r Undeb Ewropeaidd y gall sefydliadau yng Nghymru – gan gynnwys prifysgolion, ysgolion, y sector gwirfoddol a busnesau – fanteisio arnynt. Bydd y rhaglenni hyn hefyd yn cael eu hadolygu ac maent yn cynnwys:

- y rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol o dan y Polisi Cydlyniant;
- y Rhaglen Ymchwil Fframwaith sy'n canolbwyntio ar gefnogi rhagoriaeth mewn ymchwil ledled yr Undeb Ewropeaidd;
- y Rhaglenni Dysgu Gydol Oes, gan gynnwys rhaglenni cyfnewid rhwng ysgolion, colegau, myfyrwyr a lleoliadau gwaith dramor.

### Y Rhaglen Ymchwil Fframwaith

O dan y Rhaglen Ymchwil Fframwaith, cafodd sefydliadau yng Nghymru ryw £40 miliwn yn ystod 2000-06, ac maent eisoes wedi sicrhau £33 miliwn o dan dair blynedd gyntaf rhaglen 2007-13. Fodd bynnag, yn wahanol i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r cronfeydd strwythurol rhanbarthol, nid oes unrhyw symiau pendant yn cael eu dyrannu ymlaen llaw i Gymru. Er mwyn cael gafael ar yr arian hwn, rhaid i sefydliadau wneud cais cystadleuol yn erbyn rhanbarthau a gwledydd eraill yn yr Undeb Ewropeaidd.

## Toriadau ac argyfwng yr ewro

Yn ystod y trafodaethau ym Mrwsel, bydd cryn bwysau i leihau Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd ar ôl 2014, wrth i lywodraethau cenedlaethol geisio cyfyngu ar y symiau y maent yn eu cyfrannu. Mae'r argyfwng sydd yn dal i fynd rhagddo yn ardal yr ewro, ynghyd â'r 'Euro Plus Pact' a fabwysiadwyd yn ddiweddar, yn dwysáu'r pwysau hwn gan fod llywodraethau cenedlaethol wedi ymrwymo i leihau dyledion cyhoeddus wrth geisio bwrw ymlaen â diwygiadau strwythurol, gan gynnwys diwygio'r farchnad waith a phensiynau.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig – sy'n un o'r 'cyfranwyr net' at Gyllideb yr Undeb Ewropeaidd – eisoes wedi datgan ei bwriad i geisio lleihau'r gyllideb gyfan mewn termau real, ac wedi tynnu sylw penodol at yr angen i ddiwygio a lleihau'n sylweddol y gyfran o'r gyllideb sy'n cael ei gwario ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Cydlyniant. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ffafrio ailddyrannu cyllid er mwyn buddsoddi mewn ymchwil, arloesedd, y gallu i gystadlu ac amcanion newid yn yr hinsawdd yr Undeb Ewropeaidd.

Mae cynlluniau'r aelod-wladwriaethau eraill yn prysur ddod i'r amlwg hefyd: mae 23 o'r 27 aelod-wladwriaeth yn bwriadu amddiffyn cyllideb bresennol y Polisi Amaethyddol Cyffredin, gan gynnwys Ffrainc a'r Almaen, tra bo consensws dros yr angen i gael Polisi Cydlyniant cryf ledled yr Undeb Ewropeaidd, er y bydd y gyllideb hon yn fwy bregus pan ddaw hi'n bryd i'r trafodaethau gwir anodd ddechrau. Mae hyn yn awgrymu mai prin fydd y cyfleoedd i ddilyn dulliau newydd ac arloesol.

Y disgwyl yw y cytunir ar gyllideb gyffredinol yr Undeb Ewropeaidd tua diwedd 2012, cyn cytuno ar y cynlluniau deddfwriaethol unigol ar gyfer y gwahanol raglenni ariannu yn hanner cyntaf 2013. Mae hyn yn golygu y bydd materion Ewropeaidd yn flaenllaw ar yr agenda gwleidyddol yn nwy flynedd gyntaf y pedwerydd Cynulliad.

### Y trafodaethau ar Gyllideb yr Undeb Ewropeaidd

Mae disgwyl i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi cynigion ar gyfer Cyllideb amlflwydd yr Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol ym mis Mehefin 2011. Dilynir hyn gan gynigion deddfwriaethol unigol yn ystod ail hanner 2011 (ac mewn rhai achosion yn 2012) ar gyfer pob un o'r prif elfennau yn y gyllideb arfaethedig, gan gynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin, dyfodol Polisi Cydlyniant yr Undeb Ewropeaidd, y Rhaglen Fframwaith Ymchwil ac Arloesi, rhaglen newydd bosibl ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni Adnewyddadwy, a sawl un arall.

Bydd pob un o'r rhain yn destun dadleuon a thrafodaethau yn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd – sef **Senedd Ewrop**, sy'n cynnwys yr Aelodau o Senedd Ewrop sy'n dod o Gymru, a'r aelod-wladwriaethau neu'r 'llywodraethau cenedlaethol' yng **Nghyngor y Gweinidogion** (ac yna yn y **Cyngor Ewropeaidd**). Bydd llais Cymru'n cael ei gynrychioli gan y Deyrnas Unedig, gan ddibynnu ar ba mor llwyddiannus y bydd Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn dylanwadu ar safbwyntiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, a chan **y Comisiwn Ewropeaidd**, a fydd yn gweithredu fel brocer i geisio cael cyfaddawd sy'n bodloni'r tri sefydliad.

Yn ogystal, gofynnir am farn y ddau brif gorff ymgynghorol – sef Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol – ac mae gan Gymru gynrychiolwyr uniongyrchol ar y rhain (gan gynnwys dau o Gynulliad Cenedlaethol Cymru).

# Cymru a'r byd

**Gregg Jones**

**Mae gwleidyddion Cymru a sefydliadau yng Nghymru yn chwarae rhan weithgar yn y byd rhyngwladol, ond a yw Cymru'n gwneud y mwyaf o'r rhwydweithiau sydd ar gael ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n ddigon strategol?**

Er bod y pwerau sy'n ymwneud â materion tramor, gan gynnwys trafodaethau o fewn yr Undeb Ewropeaidd, gwaith datblygu rhyngwladol, a masnachu, yn nwylo Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mae Cymru'n chwarae rhan weithgar mewn materion rhyngwladol drwy waith Llywodraeth Cymru, y Cynulliad Cenedlaethol a chyrff eraill.

Daw hyn â buddion o ran busnes a masnach (cyfanswm yr allforion o Gymru i lefydd y tu allan i'r Deyrnas Unedig yw tua £9 biliwn y flwyddyn, a chyfanswm y mewnforion yw tua £6.5 biliwn y flwyddyn), yn ogystal ag o ran cyllid yr Undeb Ewropeaidd, cysylltiadau diwylliannol ac addysgol â rhanbarthau a chenhedloedd eraill, a'r cyfraniad a wneir gan sefydliadau ac unigolion o Gymru drwy waith datblygu. Fodd bynnag, mae nifer o sylwebyddion wedi cwestiynu a yw'r diffyg cyfeiriad strategol cyffredinol yn golygu nad ydym yn cael gymaint o fudd ac y gallem o'r cysylltiadau rhyngwladol hyn.

## Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Mae un o'r meysydd gweithgaredd mwyaf amlwg yn ymwneud a'r Undeb Ewropeaidd. Ystyrir bod Cymru'n 'rhanbarth' ar lefel yr Undeb Ewropeaidd, sy'n golygu bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynrychioli ei buddiannau yn nau sefydliad 'llywodraethol' yr Undeb, sef Cyngor y Gweinidogion a'r Cyngor Ewropeaidd. Felly, bydd ei llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl i ba raddau mae blaenoriaethau allweddol Cymru'n cael eu hadlewyrchu pan fydd Deyrnas Unedig yn cynnal trafodaethau â'r Undeb. Drwy ei waith o graffu ar Lywodraeth Cymru, mae gan y Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae mewn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn effeithiol.

### Cynrychiolaeth ar gyrff ffurfiol

Caiff y Cynulliad ei gynrychioli ar nifer o gyrff ffurfiol ar lefel ryngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- dau rwydwaith yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer llywodraethau rhanbarthol (**REGLEG**) a Seneddau rhanbarthol (**CALRE**);
- y **Cynulliad Seneddol Prydeinig-Gwyddelig** a'r **Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**, a sefydlwyd i hwyluso trafodaethau ffurfiol ar faterion trawsffiniol rhwng Iwerddon a Phrydain;
- **Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad**, sy'n hyrwyddo datblygiad personol seneddwyr a rhannu arferion da;
- y **Cyngor Ewropeaidd**, sy'n amddiffyn democratiaeth a hawliau dynol ledled Ewrop;
- mae Cymru'n un o sylfaenwyr y **Rhwydwaith o Ranbarthau dros Ddatblygu Cynaliadwy (NRG4SD)**, sy'n rhwydwaith byd-eang a sefydlwyd yn Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg yn 2002 i hyrwyddo'r materion hyn ar lefel ranbarthol.

Mae sianelau eraill ar gael i hyrwyddo buddiannau Cymru ym Mrwsel. Mae hyn yn cynnwys y pedwar Aelod o Senedd Ewrop o Gymru, y cynrychiolwyr o Gymru ar ddau gorff ymgynghori'r Undeb, sef Pwyllgor y Rhanbarthau (sy'n cynnwys gwleidyddion lleol a rhanbarthol) a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol

(arbenigwyr sy'n cynrychioli buddiannau sectorau), a thrwy gymryd rhan yn rhwydweithiau ffurfiol ac anffurfiol yr Undeb.

Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith o ddydd i ddydd ym Mrwsel yn cael ei gydgysylltu drwy'r swyddfeydd yn Nhŷ Cymru, sydd wedi'i leoli yng nghanol yr ardal Ewropeaidd ym Mrwsel, lle mae swyddogion o Swyddfa Undeb Ewropeaidd Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sector addysg uwch Cymru'n gweithio.

## Rhanbarthau a gwledydd sy'n bartneriaid

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi sefydlu nifer o gysylltiadau â rhanbarthau a gwledydd yn Ewrop sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ddatblygu cysylltiadau diwylliannol ac economaidd. Mae'r rhain yn cynnwys Llydaw, Baden-Wurttemberg, Latfia, Silesia a Chatalonia.

Yn ogystal, drwy Busnes Rhyngwladol Cymru, mae gan Lywodraeth Cymru gynrychiolwyr mewn nifer o wledydd ledled y byd, gan gynnwys India, Tsieina a'r UDA, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau masnachol â Chymru. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru arolwg 'beirniadol' o'i gwaith yn 2009, a arweiniodd at symleiddio ac ailwampio ei gwaith o gwmpas amcanion Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

## Cyfeiriad strategol?

Ar wahân i'r Rhaglen Cymru o Blaid Affrica, ar hyn o bryd, nid oes fframwaith strategol cydlynol sy'n dwyn ynghyd holl waith yr Undeb Ewropeaidd a'r gwaith rhyngwladol y mae Cymru'n cyfrannu ato. O ganlyniad, nid oes dull systematig yng Nghymru y gall Aelodau'r Cynulliad a rhanddeiliaid ei ddefnyddio i asesu a mesur perfformiad Gweinidogion Cymru ar faterion Ewropeaidd a rhyngwladol.

Yn y Trydydd Cynulliad, byddai'r Prif Weinidog yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad Cymru i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, a byddai Gweinidogion eraill yn darparu gwybodaeth ad hoc wrth ateb cwestiynau ar y rhannau o'u gwaith a oedd â gogwydd Ewropeaidd.

### Gwaith Datblygu Rhyngwladol

**Mae Rhaglen Cymru o Blaid Affrica** Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydliadau o Gymru sy'n gwneud gwaith datblygu yn unol â'i hymrwymiad i Amcanion Datblygu'r Mileniwm y Cenhedloedd Unedig. Mae'r sefydliadau yng Nghymru sy'n cymryd rhan mewn datblygu rhyngwladol yn cynnwys:

- Dolen Cymru (Cyswllt Cymru-Lesotho), sy'n cefnogi cysylltiadau mewn addysg, iechyd, llywodraethiant a chymdeithas ddinesig;
- Positive Women (sy'n gweithio yn Affrica, yn arbennig yn Swaziland), sy'n hyrwyddo hawliau menywod ac yn cefnogi gwaith sefydliadau cynhenid;
- Bees for Development, sy'n cynorthwyo gwenynwyr sy'n byw mewn ardaloedd tlawd a diarffordd yn y byd, ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch gwerth cadw gwenyn i liniaru tlodi;
- PONT (Ymddiriedolaeth Rhwydweithio Tramor rhwng Partneriaethau), sy'n rhaglen gyfnewid ar gyfer pobl broffesiynol ac yn gefeillio ysgolion ac eglwysi rhwng Uganda a Rhondda Cynon Taf.

Mae'r sefyllfa'n wahanol iawn yn yr Alban, lle mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Ymgysylltu Ewropeaidd, sy'n rhan o fframwaith rhyngwladol ehangach. Cyflwynodd Llywodraeth yr Alban adroddiad bob chwe mis i Senedd yr Alban ar ei pherfformiad yn cyflawni'r amcanion yn y Cynllun Gweithredu.

Mae'n bosibl y bydd Aelodau'r Cynulliad yn dymuno rhoi sylw i ddatblygu cyfeiriad strategol ar gyfer y modd y mae Cymru'n ymwneud â'r byd yn y Pedwerydd Cynulliad.



